



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mehefin 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 30 Medi 2017

Trosolwg Rydym yn ymgynghori ar nifer o gynigion sy'n ceisio gwireddu ein hymrwymiad i reoli ein hadnoddau naturiol yn fwy cynaliadwy er mwyn sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol hirdymor gan helpu i sicrhau bod Cymru'n parhau i ffynnu.

Sut i ymateb Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy'r e-bost/post i'r cyfeiriad isod erbyn 30 Medi 2017.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

[Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#)

Manylion Cysylltu I gael rhagor o wybodaeth:

Y Tîm Rheoli Adnoddau Naturiol
Llywodraeth Cymru
Colofn JO8
Craidd y Dwyrain
CF10 3NQ

E-bost:
naturalresourcemanagement@wales.gsi.gov.uk

Diogelu Data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Rhagair y Gweinidog



Yng Nghymru, mae'n hadnoddau naturiol yn hanfodol i'n cenedl ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n gynaliadwy er mwyn sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol hirdymor. Bydd hynny hefyd yn ein helpu i gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi meithrin enw da fel arweinydd byd-eang ym maes deddfwriaeth ar ddatblygu cynaliadwy, ac rydym yn benderfynol o adeiladu ar yr enw da hwnnw. Er nad oes modd osgoi'r heriau sydd ynghlwm wrth ymadawiad y DU â'r UE, gall gynnig cyfleoedd newydd i Gymru sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

Mae cadernid hirdymor ein heconomi a'n cymdeithas yn ddibynnol ar gydnerthedd ein hecosystemau. Yng Nghymru, rhaid sicrhau nad ydym yn dadwneud y cynnydd yr ydym wedi'i gyflawni nac yn amharu ar ein gallu i wella safonau amgylcheddol; mae'n rhaid inni fanteisio ar gyfleoedd i adeiladu arnynt. Mae'r enw da sydd gennym am gynnyrch o safon uchel, er enghraifft, yn seiliedig ar y safonau yr ydym yn cadw atynt o ran iechyd pobl, iechyd anifeiliaid, llesiant a'r amgylchedd.

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a oedd yn ddeddf arloesol, fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Y Ddeddf hon a chreu'r corff cyntaf o'i fath yn y byd – Cyfoeth Naturiol Cymru - oedd y camau cyntaf tuag at greu dull cydlynol o reoli'n hadnoddau naturiol.

Mae sawl her o'n blaenau o hyd – mae cydnerthedd ein hecosystemau a'n bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio ac mae her gyffredinol a pharhaus y newid yn yr hinsawdd yn golygu bod yn rhaid inni ystyried ble a sut y gallwn wella'n fframwaith rheoleiddio, i sicrhau ei fod nid yn unig yn cefnogi'r fframwaith hwnnw ond ei fod hefyd yn gydnaws ag ef.

Mae rheoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn gwneud cyfraniad allweddol at dwf gwyrdd, a hynny oherwydd bod ein sectorau'n dibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir gan yr adnoddau hynny. Mae rheoli'n gynaliadwy yn helpu i sicrhau ein bod yn fwy cystadleuol, yn cyfrannu at fynd i'r afael â phryderon am ddiogelwch ein hadnoddau ac yn creu twf a swyddi. Mae hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig o ran cynnal a gwella'n hadnoddau naturiol.

Mae'n rhaid i'r fframwaith rheoleiddio ein galluogi i ddatblygu'r cyfleoedd sydd gennym ar hyn o bryd a chyfleoedd newydd i ddarparu ar gyfer y cyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hyn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn y gwaith helaeth a gafodd ei wneud ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a bydd yn cefnogi agenda drawsbynciol er mwyn helpu Cymru i ddatblygu yn y dyfodol, gan sicrhau y gallwn elwa ar y cyfleoedd sylweddol sy'n deillio o reoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Eir ati yn y papur hwn i nodi nifer o gynigion allweddol i'n helpu i barhau â'r nod o reoli'n hadnoddau naturiol yn fwy cynaliadwy.

Gyda'i gilydd, mae'r cynigion yn tystio i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd ati mewn ffordd systematig i nodi lle y credwn fod angen diwygio er mwyn sicrhau bod modd inni reoli'n hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy wrth inni baratoi ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd sylweddol y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol, ac yn arbennig benderfyniad y DU i adael yr UE.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella cydnerthedd ein hadnoddau a'n hecosystemau – er mwyn cyflawni hynny, mae angen inni ystyried yr holl gyfleoedd posibl i foderneiddio a gwella'r fframwaith rheoleiddio er lles Cymru.

Byddwn yn croesawu'ch sylwadau am y cynigion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn.

Tabl o'r Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	4
Cyflwyniad	9
Y Cefndir	10
Y Ddadl o blaid Newid	11
Crynodeb o'r cynigion allweddol.....	13
Pennod 1: Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy	16
Pennod 2: Coedwigaeth	20
Pa faterion sy'n cael eu hystyried?.....	20
Y Sefyllfa Bresennol.....	21
Cwestiynau.....	28
Pennod 3: Tirweddau Dynodedig	29
Pa faterion sy'n cael eu hystyried?.....	29
Y Sefyllfa Bresennol.....	30
Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?.....	30
Cwestiynau.....	35
Pennod 4: Mynediad i'r Awyr Agored	36
Pa faterion sy'n cael eu hystyried?.....	36
Y Sefyllfa Bresennol.....	37
Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?.....	38
Cwestiynau.....	48
Pennod 5: Y Môr a Physgodfeydd	49
Y Môr.....	49
Pa faterion sy'n cael eu hystyried?.....	49
Y Sefyllfa Bresennol.....	50
Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?.....	50
Cwestiynau.....	52
Pysgodfeydd.....	53
Pa faterion sy'n cael eu hystyried?.....	53
Y Sefyllfa Bresennol.....	53
Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig	54
Cwestiynau.....	58
Pennod 6 - Dŵr.....	58
Diwigio Codi Dŵr.....	58
Pa faterion sy'n cael eu hystyried?.....	58
Y Sefyllfa Bresennol.....	59

Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?.....	60
Cwestiwn	61
Diwygiadau Draenio	62
Pa faterion sy'n cael eu hystyried?.....	62
Y Sefyllfa Bresennol.....	62
Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?.....	63
Cwestiynau	66
Pennod 7 - Gwastraff ac Ansawdd yr Amgylchedd Lleol	67
Gwastraff – Pwerau Mynediad yn adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.....	67
Pa faterion sy'n cael eu hystyried?.....	67
Y Sefyllfa Bresennol.....	67
Cwestiynau	69
Gwastraff - Sanctsiynau o dan Adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (DDA)....	70
Pa faterion sy'n cael eu hystyried?.....	70
Y Sefyllfa Bresennol.....	70
Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?.....	71
Cwestiynnau	71
Yr Amgylchedd – Taflu sbwriel o gerbydau.....	72
Pa faterion sy'n cael eu hystyried?.....	72
Y Sefyllfa Bresennol.....	73
Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?.....	74
Cwestiynau	75
Pennod 8: Rheoleiddio Mwy Craff – Rôl Mesurau Sylfaenol.....	76
Pa faterion sy'n cael eu hystyried?.....	76
Y Sefyllfa Bresennol.....	76
Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?.....	77
Cwestiynau	77
Pennod 9 - Amaethyddiaeth.....	78
Pa faterion sy'n cael eu hystyried?.....	78
Y Sefyllfa Bresennol.....	78
Tystiolaeth ar gyfer newid.....	79
Cwestiynau	80
Pa faterion sy'n cael eu hystyried?.....	81
Y Sefyllfa Bresennol.....	81
Tystiolaeth ar gyfer newid.....	82
Cwestiynau	85
Pennod 11 – Asesu Cynigion Polisi	86
Cwestiynau	87

Atodiad I – Cwestiynau.....	88
Atodiad 2 - Geirfa.....	93
ATODIAD III – Rheoli Adnoddau Naturol yn Gynaliadwy	96
Atodiad IV – Materion sy’n destun cymrodeddu o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995.....	98

Cyflwyniad

Mae adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru yn hanfodol i'n llesiant. Rydym yn dibynnu arnynt ar gyfer ein bwyd, dŵr glân ac aer. Maent yn hanfodol bwysig i'n bywydau a'n cynhaliaeth, ac mae manteision hanfodol yn deillio ohonynt gan gynnwys deunyddiau crai, dŵr, aer glân ac ynni sy'n sylfaen i'n cymdeithas ac yn asgwrn cefn i'n heconomi. Mae'r broses o reoli ein hadnoddau yn ffactor allweddol yn y gwaith o sicrhau ein llesiant hirdymor a chyflawni ein nodau llesiant.

Rydym yn ymgynghori ar nifer o gynigion sy'n ceisio gwireddu ein hymrwymiad i reoli ein hadnoddau naturiol yn fwy cynaliadwy er mwyn sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol parhaol gan helpu i sicrhau bod Cymru'n parhau i ffynnu.

Bydd y cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn ein helpu i gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 drwy nodi cyfleoedd i wella'n fframwaith deddfwriaethol a thrwy ddatgloi'r gwerth ychwanegol y gall rheoli'n hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy ei sicrhau ym mhob cwr o Gymru, gan gyfrannu at ein ffyniant.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am safbwyntiau ar y cynigion hyn ac ynghylch a yw'r fframweithiau rheoleiddio presennol yn effeithiol o ran darparu dull cydlynol, modern ac effeithlon o barhau i wella rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau naturiol.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn penderfynu i raddau helaeth a oes angen deddfwriaeth newydd i gyflwyno'r cynigion hyn.

Mae'r cynigion sy'n cael eu hystyried yn y ddogfen ymgynghori hon wedi'u cyflwyno o dan ddwy thema sy'n cynnig ffyrdd gwahanol o ddatgloi'r gwerth ychwanegol y gellir ei sicrhau drwy rheoli'n hadnoddau naturiol yn well. Dyma'r ddwy thema hynny :

1. Gwneud y gorau o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol adnoddau naturiol drwy sicrhau bod deddfwriaeth sy'n ymdrin â choedwigaeth, tirweddau dynodedig a mynediad i'r awyr agored yn cyd-fynd â'r nod o reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Gall y cynigion hyn gyfrannu at ddatblygu seilwaith gwyrdd ac arwain at fanteision lleol megis mannau ar gyfer hamdden a'r manteision iechyd sy'n gysylltiedig â hynny.
2. Sicrhau ffyrdd gwell a mwy craff o reoleiddio drwy gyflwyno pecyn o ddiwygiadau sy'n ceisio darparu dulliau a fydd yn helpu i sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n cyfrannu at dwf economaidd a chydarddoldeb cymdeithasol ac yn cynnal ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau. Bydd y cynigion hyn yn helpu i sicrhau fframwaith rheoleiddio modern a fydd yn fwy craff ac effeithiol, ac a fydd yn helpu i greu economi fwy ffyniannus a chystadleuol. Bydd y fframwaith hwnnw, ar yr un pryd, yn sicrhau canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'r cynigion yn ymwneud â'r canlynol:

- Rheoli'r môr a physgodfeydd
- Seilwaith draenio a dŵr
- Gwastraff ac ansawdd yr amgylchedd lleol
- Cyflwyno dulliau rheoleiddio mwy effeithlon

Mae'r ymgynghoriad yn trafod pob pwnc yn gryno ac yn gofyn cwestiynau perthnasol i chi eu hystyried.

Gan fod yr ymgynghoriad hwn yn trafod materion amrywiol yn ymwneud â rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, gall rhai o'r cwestiynau fod y tu allan i'ch maes diddordeb neu'ch profiad. Felly, mae croeso i chi ateb cynifer neu cyn lleied o gwestiynau ag y dymunwch.

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar wahân yn ymwneud â chynigion manwl ar gyfer systemau draenio trefol cynaliadwy (SDCau) – cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 18 Mai 2017¹.

Y Cefndir

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn pum mlynedd o ddatblygu polisiau i gyflwyno Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a oedd yn seiliedig ar y Papur Gwyrdd *Cynnal Cymru Fyw*² a'r ddogfen ymgynghori -*Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy*³.

Daeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i rym ym mis Mai 2016, gan roi deddfwriaeth ar waith sy'n golygu bod modd rheoli adnoddau Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn cyflwyno'r broses o reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, gan fanteisio ar y dull ecosystem a fabwysiadwyd gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Un o amcanion allweddol y Ddeddf yw rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gydgyssylltiedig gan sicrhau manteision gwirioneddol a hirdymor ar gyfer pobl, yr amgylchedd, yr economi, ein diwylliant a'n cymunedau.

Mae rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy (gweler Atodiad 3) yn ceisio sicrhau ein bod yn rheoli ac yn defnyddio ein hadnoddau naturiol mewn ffordd nad yw'n lleihau gallu'r adnoddau neu'r ecosystemau hynny i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lluosog yn yr hirdymor.

Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn cyfrannu at ein hymrwymadau rhyngwladol o ran y newid yn yr hinsawdd. Mae'n cyflwyno'r fframwaith statudol ar gyfer mynd i'r afael ag allyriadau yng Nghymru, gan bennu targed o leihau allyriadau yng Nghymru 80% erbyn 2050 o gymharu â llinell sylfaen 1990. Hefyd, mae'n nodi sut y bydd cyfres o dargedau dros dro a chyllidebau carbon pum mlynedd yn cael eu defnyddio i osod y llwybr tuag at ddatgarboneiddio.

¹ <https://ymgynghoriadau.llyw.cymru/ymgynghoriadau/gweithredu-systemau-draenio-cynaliadwy-ar-gyfer-datblygiadau-newydd>

² Cynnal Cymru Fyw, Papur Gwyrdd, 2012

³ Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy, Ymgynghoriad, Hydref 2013

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn dilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae'r tair Deddf yn creu fframwaith deddfwriaethol newydd yng Nghymru, gan ategu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i helpu i sicrhau llesiant hirdymor Cymru drwy fanteisio ar economi lewyrchus, amgylchedd iach a chryf a chymunedau bywiog, cydlynus.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sicrhau bod Cymru yn cyfrannu at gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig drwy gyflwyno saith nod llesiant. Mae'r nodau yn cwmpasu'r angen i weithredu yn erbyn achosion newid hinsawdd ac addasu i'w ganlyniadau, yn ogystal â sicrhau bod Cymru yn gweithredu'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae'r polisi adnoddau naturiol cyntaf, i'w gyhoeddi cyn hir, yn rhan allweddol o'r fframwaith newydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd yn cyflwyno cyfleoedd, risgiau a blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan sicrhau bod dull cydgysylltiedig ar waith ledled Llywodraeth Cymru i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Y Ddadl o blaid Newid

Mae adnoddau naturiol Cymru yn ased gwerthfawr sy'n creu manteision hanfodol. Mae adnoddau naturiol Cymru yn hanfodol ar sawl ystyr: o'r aer rydym yn ei anadlu i'r bwyd rydym yn ei fwyta; o'r tirweddau fferm a choetir sy'n rhoi cymaint o bleser i ni i'r lleoedd rydym yn byw ynddynt, yn gweithio ynddynt ac yn teithio iddynt; o'r moroedd lle rydym yn pysgota i ddŵr yfed neu ddŵr ar gyfer ffyniant ein diwydiant. Mae llwyddiant hirdymor yr economi ac ansawdd ein hamgylchedd naturiol a llesiant cymunedau yn dibynnu ar yr adnoddau hyn.

Mae cymdeithas yn rhoi pwysau cynyddol ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ein hadnoddau naturiol, ac un o heriau allweddol yr unfed ganrif ar hugain yw canfod dulliau o greu amgylchedd iach, cryf a chynhyrchiol fel y gallwn fod yn hyderus y bydd ein hadnoddau naturiol yn parhau i ddarparu ar gyfer cymdeithas gyfan, gan gefnogi cyflogaeth a llesiant.

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fframwaith i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Fodd bynnag, yn ystod y broses o graffu ar y Ddeddf yn y Cynulliad, dywedodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar y pryd y byddai angen i deddfwriaeth yn y dyfodol sicrhau bod ein fframwaith deddfwriaethol yn ei gyfanrwydd yn hwyluso cyfraniad ein hadnoddau naturiol at amcanion llesiant Cymru.

Ers dros 60 o flynyddoedd, mae llywodraethau wedi ceisio gwarchod, rheoleiddio a rheoli'r amgylchedd am resymau gwahanol drwy ddefnyddio dulliau amrywiol, ac mae deddfwriaeth yn ymwneud ag agweddau gwahanol ar yr amgylchedd naturiol wedi esblygu ar wahân i fynd i'r afael â phwysau newidiol.

Mae Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) wedi'u dynodi ers 1949 er mwyn diogelu eu nodweddion arbennig. Mae rheolau llygredd wedi'u cyflwyno'n raddol i wella ansawdd aer a dŵr mewn ymateb i brosesau diwydiannu a threfoli.

Mae sylfaen gyfreithiol, sefydliadau darparu a systemau ar wahân wedi bod ar waith ar gyfer pob un o'r trefniadau hyn. Mae rhywfaint o'r ddeddfwriaeth yn hen ac nid yw'n cyd-fynd â'n dull integredig newydd o reoli adnoddau naturiol.

Mae'r holl ddeddfwriaeth amrywiol, sydd wedi helpu i wella'r amgylchedd, wedi'i datblygu'n bennaf i fynd i'r afael â phwysau newidiol a phroblemau amgylcheddol penodol dros y blynyddoedd, ac mae'r ffocws wedi bod yn gul yn aml. Mae'r agwedd hon at reoleiddio – sydd wedi bod yn ymatebol ac wedi methu'n aml ag ystyried polisi economaidd a chymdeithasol – wedi arwain at gymysgedd cymhleth o reoliadau nad ydynt bob tro yn gweithio tuag at yr un amcan cyffredin o wella dyfodol hirdymor Cymru.

Mae angen dal ati i adnewyddu'r systemau sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd a chreu dull gweithredu mwy unedig a phwrpasol. Credwn y dylem geisio sicrhau bod y ddeddfwriaeth bresennol ar yr amgylchedd yn cyd-fynd â dull symlach o reoli adnoddau naturiol sy'n seiliedig ar egwyddor ganolog datblygu cynaliadwy. Sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a chyflwyno Deddf yr Amgylchedd (Cymru) oedd camau cyntaf y broses hon. Nid yw'r dull gweithredu newydd na'i bwyslais ar gryfder ecosystemau a'u gwasanaethau yn cael eu hadlewyrchu ar hyn o bryd yng ngweddill ein fframwaith deddfwriaethol. Felly, mae angen rhoi camau pwysig ar waith i sicrhau bod ein deddfwriaeth bresennol yn cyd-fynd â dull gweithredu newydd Cymru.

Yn ogystal â sicrhau bod diben y ddeddfwriaeth bresennol yn cyd-fynd â'r dull gweithredu newydd, mae angen inni sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gyson ac yn gymesur, a'i bod wedi ei thargedu mewn modd sy'n ein galluogi i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, gan gyfrannu ar yr un pryd at dwf economaidd, cydraddoldeb cymdeithasol a chydnerthedd ecosystemau.

Gall fframwaith deddfwriaethol cydlynus ac effeithiol roi mwy o eglurdeb a sicrwydd ac atal perygl y canlynol:

- Llestierio buddsoddi ac arloesi neu'r broses o aildefnyddio deunyddiau oherwydd costau rheoleiddio anghyffredin o uchel;
- Methu mynd i'r afael â heriau amgylcheddol fel llygredd neu'r newid yn yr hinsawdd y mae angen dulliau gweithredu systematig ar eu cyfer er mwyn hwyluso newidiadau cadarnhaol i'r gwaith o reoli adnoddau naturiol;
- Creu costau ychwanegol ar gyfer busnesau drwy eu gorfodi i chwilio am gyngor arbenigol neu gyfreithiol, gan arwain o bosibl at achosion sydd angen eu datrys yn y llys;
- Creu dryswch, a'i gwneud yn anodd i reoleiddwyr, busnesau, y cyhoedd ac ymarferwyr ddeall a dehongli'r ddeddfwriaeth mewn ffordd gyson;
- Diffyg cydymffurfiaeth, neu orfodaeth anghyson, os yw'n anodd egluro a gorfodi'r gyfraith;
- Lleihau ein gallu i leihau'r effeithiau ar adnoddau naturiol ac ecosystemau, a'r effeithiau ar dwf economaidd a chydaddoldeb cymdeithasol.⁴

⁴ UKELA. State of Environmental Law, 2012

O ganlyniad, mae angen sicrhau bod ein fframwaith deddfwriaethol:

- Yn fwy effeithiol, effeithlon, integredig a syml
- Yn fwy rhagweladwy a chyson ar gyfer gwneud penderfyniadau
- Yn addas i'r diben.

Gall gwella'r fframwaith rheoleiddio helpu i gynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau, gall fod o fwy o fudd i'r bobl y mae'r fframwaith yn effeithio arnynt a gall fod yn fodd i gyflawni amcanion y fframwaith yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol posibl.

Crynodeb o'r cynigion allweddol

Yn gyffredinol, disgwylir i'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn helpu i wireddu ein hymrwymiad i reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy a sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol hirdymor.

Mae Pennod 1 o'r ddogfen ymgynghori yn ceisio barn gyffredinol ynghylch a oes cyfleoedd posibl i gyflwyno dulliau rheoleiddio newydd er mwyn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae penodau 2 i 10 yn ceisio safbwyntiau ar gynigion penodol.

Mae Penodau 2 i 4 o'r ddogfen ymgynghori hon yn cyflwyno tri chynnig yn ymwneud â diweddarau ein dulliau gweithredu yn y meysydd canlynol:

Coedwigaeth (Pennod 2)

- Newid diben y dyletswyddau cyffredinol fel eu bod yn cyd-fynd â'r broses o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- Gofynion yn ymwneud â thrwyddedau cwmpo coed;
- Gwella trefniadau llywodraethu;
- Pwerau dirprwyo newydd ar gyfer CNC;
- Gofyn am safbwyntiau ar y fframweithiau statudol er mwyn gwarchod coed pwysig.

Tirweddau Dynodedig (Pennod 3)

- Sicrhau bod diben cyffredin Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cyd-fynd â'r broses o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- Gwella trefniadau llywodraethu

Mynediad i Gefn Gwlad (Pennod 4)

- Datblygu system gydlynus ar gyfer hamdden yng nghefn gwlad sy'n caniatáu amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden ac eithrio gweithgareddau moduraidd ar lwybrau, yng nghefn gwlad agored ac ar ddŵr mewndirol.

Mae Penodau 5 i 8 yn cyflwyno cynigion yn ymwneud â gwella gwaith rheoleiddio:

Y Môr a Physgodfeydd (Pennod 5)

- Pwerau newydd i nodi rhanbarthau cynllun morol Rhanbarthol Cymru a chreu cynlluniau morol ar gyfer y Rhanbarthau hyn, gan sicrhau rhagor o hyblygrwydd gweinyddol i reoli pysgodfeydd;
- Cyflwyno system trwyddedu dyframaethu addas i'r diben;
- Gwella'r system prynwyr a gwerthwyr i gynnwys pysgod cregyn sy'n cael eu casglu o ardaloedd rhynglanwol

Dŵr (Pennod 6)

- Diwygio codi dŵr;
- Draenio;
- Ar 17 Mai 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar wahân yn ymwneud â chynigion manwl ar gyfer systemau draenio trefol cynaliadwy. Ewch i Bennod 6 am ragor o wybodaeth.

Gwastraff ac Ansawdd yr Amgylchedd Lleol (Pennod 7)

- Diwygio adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ar gyfer sancsiynau yn ymwneud â hysbysiadau ar gyfer gwastraff domestig sy'n cael ei ailgylchu – y cynnig yw rhoi pŵer i Awdurdodau Lleol orfodi hysbysiadau sydd wedi'u rhoi i eiddo domestig os yw'r aelwyd wedi methu â chydymffurfio â hysbysiad sy'n gwahardd deunyddiau ailgylchu penodedig.
- Diwygio adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 – y cynnig yw diwygio pwerau CNC i fynd i mewn i eiddo sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion preswyl ac atafaelu a chadw dogfennau a chyfrifiaduron. Byddai angen diwygio adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i gyflwyno'r cynnig hwn.
- Taflu sbwriel o geir – y cynnig yw rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 fel bod awdurdodau gorfodi yn gallu cyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig os oes trosedd taflu sbwriel wedi'i chyflawni gan rywun mewn cerbyd.

Rheoleiddio mwy craff (Pennod 8)

- Cyflwyno dulliau rheoleiddio mwy craff i fynd i'r afael ag effeithiau cronrus gweithgareddau risg isel. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried hyfywedd pwerau newydd i ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i wneud darpariaeth ar gyfer mesurau sylfaenol yn ymwneud â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Amaethyddiaeth (Pennod 9)

- Gofyn am safbwyntiau ar gynnig i estyn awdurdodaeth Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, fel y bo'r Tribiwnlys yn cael penderfynu ar faterion y mae'n rhaid eu cyfeirio i'w cymrodeddu ar hyn o bryd (o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986).

Bywyd Gwyllt (Pennod 10)

- Cynigion i alluogi Gweinidogion Cymru i reoleiddio'r math o faglau sy'n cael eu defnyddio. Bydd hyn yn golygu y bydd modd rheoleiddio'r math o fagl y gellir ei defnyddio, gan sicrhau'r hyblygrwydd i ymgorffori unrhyw ddatblygiad neu welliant o ran dyluniad maglau mewn deddfwriaeth.

Asesu Cynigion Polisi (Pennod 11)

- Mae'r bennod hon yn cynnwys rhagor o fanylion, gan gynnwys ystyriaeth gychwynnol o effeithiau posibl ar feysydd allweddol fel datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a hawliau dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae pob set o gynigion yn cynnwys adran sy'n cyflwyno trosolwg o fanteision ac effeithiau posibl yn sgil rhoi'r cynigion ar waith.

Pennod 1: Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Mae adnoddau naturiol yn sylfaen i'n heconomi, ac maent yn hollbwysig i lawer o'n sectorau allweddol yng Nghymru gan gynnwys ffermio, pysgodfeydd, coedwigaeth, twristiaeth, adeiladu a dŵr. Mae cryfder hirdymor ein heconomi a'n cymdeithas yn dibynnu ar gydnerthedd ein hecosystemau. Fodd bynnag, mae cydnerthedd ein hecosystemau a'n bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio, ac mae'n rhaid i ni wynebu her barhaus y newid yn yr hinsawdd. Bydd gwella cydnerthedd ein hecosystemau nid yn unig yn gwella statws ein hadnoddau naturiol, ond gall helpu hefyd i'n gwneud yn fwy ffyniannus a gwella'n hiechyd.

Mae Penodau 2 - 10 o'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu nifer o gynigion polisi penodol, ac mae'n bosibl y bydd angen dulliau deddfwriaethol er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Bydd angen i'r dulliau deddfwriaethol hynny hefyd gyd-fynd â dulliau cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol. Fodd bynnag, wrth i'r pwysau ar ein hadnoddau naturiol barhau, mae'n rhaid i'n fframwaith deddfwriaethol allu mynd i'r afael â'r gofynion newidiol hyn, bod yn fwy blaengar a cheisio cyflawni'r amcan cyffredin o reoli adnoddau yn gynaliadwy. Os ydym am wireddu'r cyfleoedd a lleihau'r risgiau i adnoddau naturiol, yr economi a chymdeithas, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd ychwanegol i gyflwyno rhagor o ymatebion rheoleiddio. Bydd hyn yn helpu i gryfhau ein hecosystemau, a'u galluogi i ymateb yn well i bwysau a gofynion a pharhau i gynnig manteision lluosog i gymdeithas yn y tymor byr a'r hirdymor.

Ni ddylai'n fframwaith rheoleiddio (gan gynnwys trefniadau gwirfoddol a deddfwriaeth) fod yn rhwystr i'r broses o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ond dylai ddarparu dulliau sydd nid yn unig yn atal yr achosion craidd ond sydd hefyd yn gwella effeithlonrwydd o ran adnoddau, er enghraifft drwy hyrwyddo economi gylchol, galluogi twf gwyrdd a datblygu dulliau a chymhellion arloesol newydd fel y bo modd manteisio ar gyfleoedd newydd.

Gall fframwaith rheoleiddio modern ac effeithiol ein helpu i reoli'n hadnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy, gan greu Cymru sy'n fwy ffyniannus, yn fwy cydnerth ac yn iachach. Drwy sefydlu dulliau rheoleiddio newydd, gallwn helpu i wella cydnerthedd y sectorau hynny sy'n cynhyrchu ar lefel gynradd drwy wella'n capasiti cynhyrchu. Gall gwella cydnerthedd ein hecosystemau arwain at gyfleoedd newydd yn y farchnad a helpu i leihau llygredd ac i wella cyflyrau iechyd.

Yn ogystal â gofyn am farn ar y cynigion penodol a amlinellir ym Mhenodau 2-10, rydym yn gofyn am farn gyffredinol ynghylch a oes yna gyfleoedd i ddatblygu'r fframwaith rheoleiddio ymhellach er mwyn:

1. Hyrwyddo economi gylchol;
2. Sicrhau atebion sy'n seiliedig ar natur;
3. Cefnogi marchnadoedd a dulliau arloesol newydd.

Hyrwyddo economi gylchol

Mae economi gylchol yn defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon mewn cylch, gan aildddefnyddio'r adnoddau hynny a chynnal eu gwerth. Mae economi gylchol yn adferol ac yn atgynhyrchio yn ei hanfod, ac mae'n ceisio sicrhau'r defnydd a'r gwerth uchaf posibl ar gyfer cynhyrchion, cydrannau a deunyddiau. Mae'n ceisio datgysylltu datblygiad economaidd oddi wrth ddefnyddio adnoddau, gan alluogi twf economaidd, creu swyddi, a lleihau effeithiau amgylcheddol, gan gynnwys allyriadau carbon. Mae'r model yn edrych y tu hwnt i'r model diwydiannol echdynnol llinellol presennol sy'n seiliedig ar ethos "cymryd, gwneud a gwaredu". Mae economi gylchol yn gyfle inni ailgreu ein heconomi, gan ei gwneud yn fwy cynaliadwy a chystadleuol, ac mae'n gyfle i gynyddu proffidioldeb a lleihau'r peryglon economaidd posibl i fusnesau sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r UE.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Sefydliad Ellen MacArthur drwy Raglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) i baratoi adroddiad⁵ ar fanteision economi gylchol i Gymru. Awgrymodd dadansoddiad cychwynnol sydd i'w weld yn yr adroddiad y gellid sicrhau arbedion o hyd at £2 biliwn y flwyddyn ar gostau deunyddiau drwy newid i brosesau cylchol. Yn ogystal ag enillion ariannol net, gallai symud tuag at economi gylchol drwy ddilyn trywydd cynhwysol (busnes, y sector cyhoeddus, addysg) sy'n cael ei ddiffinio'n glir leihau dibyniaeth Cymru ar ddeunyddiau crai, cael effaith gadarnhaol ar y farchnad swyddi a chynyddu gwerth a chynhyrchiant systemau amaethyddol.

Mae ein strategaeth wastraff, Tuag at Ddyfodol Diwastraff, yn rhoi Cymru ar lwybr tuag at economi fwy cylchol, gan bennu targedau uchelgeisiol ar gyfer atal ac ailgylchu gwastraff. Mae darpariaethau sy'n rhan o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn helpu i sicrhau bod busnesau a'r sector cyhoeddus yn ailgylchu mwy, ac eleni cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i economi gylchol drwy gyhoeddi cronfa gwerth £6.5 miliwn ar gyfer 2019/20 i helpu'r genedl i symud tuag at economi gylchol.

Cwestiwn 1

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd eraill i integreiddio dulliau economaidd cylchol? Os ydych, nodwch enghreifftiau o unrhyw rwystrau rheoleiddiol a fyddai'n ein hatal rhag integreiddio yn hynny o beth.

Atebion sy'n Seiliedig ar Natur

Ymyriadau yw atebion sy'n seiliedig ar natur, sy'n defnyddio byd natur a swyddogaethau naturiol ecosystemau cydnerth i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Gallant fynd i'r afael ag amrywiaeth o heriau cymdeithasol, cyfrannu at dwf gwyrdd, diogelu cymdeithas at y dyfodol, gwella llesiant a darparu cyfleoedd economaidd. Mae atebion o'r fath yn helpu i warchod yr amgylchedd ac yn arwain at nifer o fanteision economaidd a chymdeithasol. Er enghraifft, mae creu neu adfer mannau gwyrdd mewn

⁵ WRAP, [Wales and the Circular Economy, Favourable system conditions and economic opportunities](#)

dinasoedd yn gallu cynyddu refeniw o dwristiaeth, darparu cyfleoedd hamdden ar gyfer dinasyddion, a helpu i ostwng y tymheredd a lefelau llygredd mewn ardaloedd trefol.

Mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn gallu cynnig atebion costeffeithiol i heriau gwahanol, fel cynnydd yn y tymheredd neu lifogydd, gan gynnwys helpu i addasu i'r newid yn yr hinsawdd neu ei leihau. Mae atebion posibl yn cynnwys systemau seilwaith gwyrdd a thrin dŵr, er enghraifft systemau draenio trefol cynaliadwy neu reoli pridd yn well er mwyn dal a storio carbon. Mae mesurau cadw dŵr sy'n seiliedig ar natur yn enghraifft allweddol o sut mae seilwaith gwyrdd yn gallu gweithio ochr yn ochr â seilwaith llwyd traddodiadol (e.e. fflodiardau). Mae sawl math ar gael, gan gynnwys toeau gwyrdd bach a choedwigoedd mawr, ac mae ganddynt fanteision lluosog. Yn ogystal â lleihau'r perygl o lifogydd, gallant fod yn bwysig i fioamrywiaeth, hamdden ac ansawdd dŵr drwy leihau erydiad pridd ac atal llygredd amaethyddol rhag llifo i afonydd.

Enghreiffiau o Atebion sy'n Seiliedig ar Natur

- Mae arwynebau athraidd, toeau gwyrdd, systemau coedwig ar lannau afonydd a gorlifdiroedd yn lleihau effeithiau niweidiol glawiad difrifol. Drwy amsugno dŵr glaw maent yn lleihau'r risg o lifogydd a thir dwrlawn yng nghanol dinasoedd;
- Mae toeau gwyrdd yn gallu oeri adeiladau yn yr haf a chadw'r gwres i mewn yn y gaeaf;
- Mae coed, mannau gwyrdd a llystyfiant yn gallu lleihau effaith straen gwres mewn ardaloedd trefol a gostwng y tymheredd;
- Mae coed a muriau gwyrdd yn gallu haneru lefelau'r gronynnau yn yr aer sy'n fygythiad i iechyd.

Cwestiwn 2

A oes unrhyw rwystrau rheoleiddiol sy'n ein hatal rhag cyflwyno atebion sy'n seiliedig ar natur? Nodwch unrhyw wybodaeth berthnasol.

Cefnogi marchnadoedd a dulliau arloesol newydd

Mae nifer o fathau gwahanol o bwysau yn effeithio ar gydnerthedd ein hecosystemau. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd angen defnyddio dulliau gwahanol wrth greu strategaethau priodol i gynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau. Mae'r math o ddulliau rheoleiddio a fydd yn llwyddo mewn sefyllfaoedd penodol yn dibynnu i raddau helaeth ar nodweddion y mater dan sylw. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd dull gweithredu sy'n mynd i'r afael â llygredd yn ei darddle yn anaddas ar gyfer llygredd gwasgaredig.

Cyflwynodd Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) dull gweithredu integredig, sy'n cydnabod y gallai fod angen ymatebion gwahanol er mwyn mynd i'r afael â mathau gwahanol o broblemau. Er enghraifft, un o egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw'r angen i weithredu neu wneud penderfyniad ar y raddfa briodol er mwyn

mynd i'r afael â chydnerthedd ecosystemau. Mae hyn yn cynnwys cydweithio i sicrhau canlyniadau ar lefel leol.

Mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn un ffordd bosibl o fynd i'r afael â phroblemau ar raddfa benodol (gall fod ar unrhyw raddfa yn amrywio o gyflenwad dŵr lleol i dirwedd). Mae'n bosibl y bydd angen sefydlu marchnadoedd er mwyn rhoi atebion seiliedig ar natur ar waith, ac un enghraifft o hynny yw talu am wasanaethau ecosystemau. Mae gwireddu gwerth gwasanaethau ecosystemau, a chreu incwm i'w rheoli, yn arwain at ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol ac yn gallu darparu ffrydiau incwm newydd ar gyfer rheolwyr tir.

Mae mathau gwahanol o fecanweithiau'r farchnad ar gael a allai ddarparu dulliau newydd o helpu i wella ein safonau amgylcheddol ac i gynnig cyfleoedd economaidd a chymdeithasol newydd. Mae mathau eraill o fecanweithiau yn cynnwys cynlluniau capio a chynlluniau masnachu, sydd wedi'u defnyddio ym maes dŵr ac ym maes allyriadau carbon. Er enghraifft, mae Talaith California wedi cyflwyno system capio a masnachu, sy'n cyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr y cwmnïau diwydiannol hynny sy'n allyrru'r lefelau uchaf o garbon deuocsid. Mae'r cwmnïau hyn yn cael, yn prynu neu'n masnachu trwyddedau i allyrru nwyon tŷ gwydr hyd at yr uchafswm a bennwyd ar eu cyfer. Drwy werthu trwyddedau, mae Talaith California yn creu refeniw i'w fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n helpu i leihau nwyon tŷ gwydr. Hefyd, mae New South Wales wedi cyflwyno cynlluniau penodol ar gyfer dalgylchoedd dŵr, gan reoleiddio allyriadau llygredd ar sail ardaloedd penodol⁶.

Mae angen cymysgedd o fecanweithiau rheoleiddio gwahanol er mwyn sicrhau fframwaith rheoleiddio effeithiol sy'n cynnal ac yn gwella safonau amgylcheddol, ac sy'n cynnig cyfleoedd economaidd a chymdeithasol. Enghreifftiau yn unig a nodir uchod. Rydym yn gofyn am eich barn ynglŷn ag a oes cyfleoedd posibl i ddefnyddio dulliau rheoleiddio newydd er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Cwestiwn 3

A oes cyfleoedd posibl i gyflwyno mecanweithiau'r farchnad neu ddulliau rheoleiddio arloesol? A oes unrhyw rwystrau deddfwriaethol a fyddai'n ein hatal rhag eu gweithredu?

⁶ <http://www.epa.nsw.gov.au/licensing/hrsts/>

Pennod 2: Coedwigaeth

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn cyflwyno cynigion i gysoni rhai elfennau o ddeddfwriaeth coedwigaeth â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwellu'r cysondeb rhwng dyletswyddau cyffredinol CNC yn Neddf Coedwigaeth 1967 gyda'u diben cyffredinol i geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- Estyn pŵer CNC i ddirprwyo ei swyddogaethau ar gyfer rheoli coedwigoedd i eraill (e.e. cymunedau lleol);
- Dulliau newydd o reoleiddio trwyddedau cwmpo coed;
- Symleiddio trefniadau llywodraethu o ran y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol;
- Dulliau newydd o ddiogelu coed hynafol a choed hynod.

Pa faterion sy'n cael eu hystyried?

Mae bron y cyfan o'r gyfraith sy'n ymwneud â choedwigaeth i'w gweld yn Neddf Coedwigaeth 1967 ac mewn is-reoliadau a wnaed oddi tani. Mae'r Ddeddf yn fesur sy'n atgyfnerthu Deddf Coedwigaeth 1919 a diwygiadau iddi, ac ychydig iawn o newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r Ddeddf dros y blynyddoedd. Dros y cyfnod hwn, mae prif bwrpas coedwigaeth wedi newid o fod yn ymwneud yn bennaf â chynhyrchu pren i bwrpas sydd hefyd yn cynnwys mynediad i'r cyhoedd, hamdden a chwaraeon, cadwraeth natur a bywyd gwyllt, a chynnal a gwella bioamrywiaeth.

Mae cymysgedd Cymru o goedwigoedd planedig a lled-naturiol, yn rhai llydanddail a chonwydd, yn darparu nifer o wasanaethau ecosystemau, fel yr amlinellir uchod. Mae safonau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol ar gyfer rheoli coedwigoedd mewn ffordd gynaliadwy wedi'u hen sefydlu bellach, gan gynnwys y rhai a nodir yn y broses 47 gwlad, *Forest Europe*, y mae'r DU wedi ymrwymo iddi. Mae'r safonau hyn wedi'u cynnwys mewn safon goedwigaeth ar gyfer y DU gyfan⁷ a set gynhwysfawr o ganllawiau ymarfer ar goedwigoedd a dŵr, pobl, bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd hanesyddol, tirwedd a phridd. Mae cyfran fawr o goedwigoedd Cymru yn cael eu rheoli drwy gynlluniau ardystio gwirfoddol. Mae'r rhain yn caniatáu i berchnogion coetiroedd, a defnyddwyr pren ddangos bod eu cynnyrch yn dod o goedwigoedd a reolir yn gynaliadwy, ac i ddefnyddio'r brandiau ardystio FSC⁸ neu PEFC⁹, sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol. O ganlyniad i gymhwyso'r safonau ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy, mae coetiroedd Cymru'n newid, gydag ardaloedd lle ceir un rhywogaeth yn unig yn cael eu disodli erbyn hyn gan goetiroedd mwy gwydn sy'n cynnwys cymysgedd ehangach o rywogaethau, ac sy'n cynnwys llawer mwy o amrywiaeth o ran strwythur.

⁷ Safon Goedwigaeth y DU, a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth, ar ran Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Adran yr Amgylchedd, Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon.

⁸ Y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd

⁹ Y Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd

Cyflawnwyd y newidiadau hyn heb unrhyw ddiwygiadau sylweddol i'r Ddeddf Coedwigaeth gan fod modd dehongli'r term coedwigaeth yn hyblyg iawn. Trosglwyddwyd y dyletswyddau a'r swyddogaethau sy'n ymwneud â rheoleiddio a rheoli coedwigoedd a nodir yn y Ddeddf i CNC ym mis Ebrill 2013. Eglurir pwrpas cyffredinol CNC yn Erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012¹⁰. Wrth arfer ei swyddogaethu rhaid iddo geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru, a chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn rhoi cymysgedd unigryw o gyfrifoldebau amrywiol i CNC sy'n cwmpasu rheoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol, rheoli tiroedd eraill, yn ogystal â chyfrifoldebau rheoleiddio a chynghori mewn perthynas â gwarchod natur, rheoli dŵr ac ansawdd aer.

Gellid gwella rhannau o Ddeddf Coedwigaeth 1967 fel y bo dulliau rheoli coedwigoedd yn cyd-fynd ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn cyd-fynd hefyd â'r nod o wneud hynny, gan helpu i wneud y gorau o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol coedwigoedd, coetiroedd a choed Cymru. Dyma'r meysydd perthnasol:

- Dyletswyddau cyffredinol CNC o dan y Ddeddf Coedwigaeth;
- Pŵer CNC i ddirprwyo ei swyddogaethau rheoli coedwigoedd i eraill;
- Gofynion yn ymwneud â thrwyddedau cwmpo coed;
- Trefniadau llywodraethu.

Yn ogystal mae'n bosibl y bydd cyfleoedd yn ymwneud â diogelu coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth yng Nghymru. Er mai canran fach o boblogaeth coed Cymru yw'r coed hyn, mae iddynt werth sylweddol yn nhirwedd Cymru. Mae fframweithiau statudol presennol yn darparu dulliau i amddiffyn rhai o'r coed arbennig hyn mewn amgylchiadau cyfyngedig, ond nid ydynt yn caniatáu ar gyfer mesurau i ddiogelu coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth ym mhob sefyllfa lle mae hynny'n ddymunol.

Y Sefyllfa Bresennol

Dyletswyddau cyffredinol CNC o dan y Ddeddf Coedwigaeth

Mae gan CNC ddyletswyddau cyffredinol sy'n cynnwys dyletswydd i hyrwyddo buddiannau coedwigaeth, datblygu coedwigo a chynhyrchu a chyflenwi pren a mathau eraill o gynhyrchion coedwig, ac mae hynny'n cynnwys hyrwyddo sefydlu a chynnal cronfeydd wrth gefn digonol o goed sy'n tyfu¹¹.

Yn ogystal, cyn belled ag y bo hynny'n gyson â chyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd briodol, mae'n rhaid i CNC geisio sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng, ar y naill law, datblygu coedwigo, rheoli coedwigoedd a chynhyrchu a chyflenwi pren ac, ar y llaw arall, cadwraeth a gwella harddwch naturiol a chadwraeth fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffigol nodweddion arbennig¹². Cyfeirir at hyn fel y "ddyletswydd cydbwysu" gan amlaf.

¹⁰ Fel y'i diwygiwyd gan adran 5 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

¹¹ Adran 1(2) and (3) o Ddeddf Coedwigaeth 1967.

¹² Adran 1(3A) o Ddeddf Coedwigaeth 1967 a fewnosodwyd gan adran 4 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (Diwygio) 1985.

Pŵer CNC i ddirprwyo ei swyddogaethau o dan y Ddeddf Coedwigaeth

Mae gan CNC bwerau dirprwyo cyffredinol a ddarparwyd yn ei Orchymyn Sefydlu¹³, ond nid yw'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yng ngeiriad y Ddeddf Coedwigaeth ac mae hyn yn creu anhawster posibl a allai fod yn rhwystr i gynnwys eraill yn y gwaith o reoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru.

Mae CNC yn gallu ymrwymo i gytundebau lle mae'n rhoi rhan i eraill yn y gwaith o reoli cyfleusterau hamdden ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Gall hefyd gyflogi eraill i ddarparu gwasanaethau dan gontract, ond nid yw'r Ddeddf Coedwigaeth yn darparu pŵer datganedig sy'n caniatáu i bobl eraill wneud penderfyniadau rheoli allweddol am faterion coedwigaeth ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru.

Gofynion sy'n ymwneud â thrwyddedau cwmpo coed

Yn gyffredinol, mae angen trwydded cwmpo coed oddi wrth CNC i dorri nifer o goed sy'n tyfu¹⁴. Rhaid i CNC ganiatáu trwydded ddiamod ac eithrio lle mae'n ymddangos y byddai'n fuddiol naill ai osod amodau ar drwydded neu ei gwrthod er budd:

- Coedwigaeth dda;
- Amaethyddiaeth;
- Amwynderau'r ardal, neu
- Sefydlu a chynnal cronfeydd wrth gefn digonol o goed sy'n tyfu.

Mae amodau y gellir eu gosod ar drwydded cwmpo coed yn ymwneud ag ailstocio'r tir a chynnal a chadw coed wedi'u hailstocio yn unol â rheolau ac arferion coedwigaeth dda am gyfnod nad yw'n fwy na deng mlynedd.

Ar hyn o bryd nid oes gan CNC unrhyw bŵer i ddiddymu trwydded ar ôl ei rhoi, nac i ddiwygio unrhyw amodau ar ôl eu gosod.

Llywodraethu

Mae'n ofynnol i CNC gynnal Pwyllgor Cyngori Rhanbarthol ("PCRh") i'w gynghori mewn perthynas â'i ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo sefydlu a chynnal cronfeydd digonol o goed sy'n tyfu, a'i swyddogaethau'n ymwneud â thrwyddedau cwmpo coed¹⁵.

Coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth

Cymru yw un o'r gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop, gyda choetir yn gorchuddio 14% o arwynebedd y tir yn unig, o gymharu â chyfartaledd yr UE o 37%. Amcangyfrifwyd bod yna ryw 15 miliwn o goed eraill yng Nghymru heblaw am y rheini mewn coetiroedd, sy'n cyfrannu at economi Cymru, at dirweddau gwledig a threfol ac at ansawdd bywyd pobl a chymunedau¹⁶. Mae tystiolaeth fwy diweddar yn dangos bod 93,000ha o goetiroedd bach,

¹³ Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012

¹⁴ Adran 9 o Ddeddf Coedwigaeth 1967.

¹⁵ Adran 37 o Ddeddf Coedwigaeth 1967

¹⁶ "Coetiroedd i Gymru strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed" ar dudalen 11.

grwpiau o goed a choed unigol yng Nghymru.¹⁷ Yn y dirwedd wledig, mae coed yn darparu strwythur ysgerbydol sylfaenol, boed ar ffurf coetir, gwrychoedd neu goed unigol. Mae coed yn un mor bwysig i dirweddau trefol fel strwythurau mewn gerddi, parciau¹⁸ a mannau agored, ac maent, yn aml, yn gallu cyfrannu at leoliad adeiladau. Gallant fod o bwysigrwydd hanesyddol, gan gysylltu pobl a chymunedau â lle, amgylchedd a diwylliant¹⁹. Maent yn darparu parhad o ran cynefin i rai cennau, mwsoglau a ffyngau cynyddol brin hefyd²⁰ ac maent yn ffocws ar gyfer bioamrywiaeth. Yn y bôn, mae llawer o dirweddau mwyaf apelgar Cymru a gwerth y tirweddau hynny o ran bioamrywiaeth yn dibynnu ar y coed a'r coetiroedd sydd ynddynt i greu eu cymeriad nodedig²¹.

Mae'n amlwg bod rhai coed yn fwy arwyddocaol, neu'n fwy gwerthfawr nag eraill, ar sail nodweddion y goeden dan sylw a'i gwerth cymharol. Bydd oedran coeden ynghyd â'i maint a nodweddion ffisegol nodedig eraill o'u cymharu â'r safon ar gyfer rhywogaeth y goeden yn arwydd o arwyddocâd coeden, yn yr un modd â'i gwerth o safbwynt amwynder a thirwedd a'i gwerth hanesyddol ac economaidd. Gall coeden sy'n cael effaith weledol eithriadol ac sy'n nodwedd arwyddocaol yn y dirwedd, er enghraifft, gael ei hystyried yn un sydd â gwerth amwynder a thirwedd sylweddol²². Byddai'n briodol categoreiddio coeden o'r fath yn goeden werthfawr, gan ddangos yr egwyddor na ellir ystyried bod yr un gwerth i bob coeden.

Er y gall coed unigol gael eu gwerthfawrogi mewn llawer o achosion, nid yw'r gwerth y gellir ei briodoli'n arbennig i goed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth yn hawdd ei fynegi mewn termau ariannol. Yn ddi-os, mae gan goed o'r fath werth ecosystem ar draws sbectrwm eang o fathau o ddefnydd tir. Pan ganiateir iddynt gwblhau eu cylch bywyd naturiol mae gwerth coed hynafol a choed hynod o ran bioamrywiaeth yn cynyddu gan eu bod yn sylfaen ar gyfer datblygu cynefinoedd sy'n cynnal amrywiaeth o rywogaethau. Felly, mae angen cydbwysu presenoldeb coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth yn y dirwedd, gan gydnabod y manteision niferus y gallant eu cynnig fel "henebion gwyrdd" wrth i batrymau defnydd tir newid dros amser. Yn hanesyddol, mae'r gyfraith wedi datblygu i ddarparu ar gyfer diogelu coed gwerthfawr, gan gynnwys coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth, ond yn rhy aml, mae coed o'r fath yn cael eu hystyried yn broblem yn hytrach nag yn ased, ac nid ydynt yn cael y gofal priodol²³.

¹⁷ "Tree cover outside woodland in Great Britain" Adroddiad NFI 12 Ebrill 2017.

¹⁸ Mae Parc Bute yng Nghaerdydd yn enghraifft o barc trefol sy'n cynnwys rhywogaethau amrywiol o goed aeddfed.

¹⁹ Amcangyfrifir bod yr ywen yn Eglwys Sant Dygain, Llangernyw, Conwy dros 4,000 o flynyddoedd oed. Mae gan Eglwys Sant Brynach, Nanhyfer, Sir Benfro, ddwy res o goed yr amcangyfrifir eu bod dros 700 o flynyddoedd oed, gan gynnwys y "goeden ywen enwog sy'n gwaedu" ac mae chwedlau amrywiol am y goeden honno.

²⁰ "Coetiroedd i Gymru strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed" ar dudalen 49.

²¹ "Coetiroedd i Gymru strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed" ar dudalen 48.

²² Gweler er enghraifft "Derwen Powis", Castell Powis, Y Trallwng, Powys, derwen bedynclaid yr amcangyfrifir ei bod dros 350 o flynyddoedd oed:

http://www.monumentaltrees.com/en/gbr/wales/powys/2394_powiscastle/4715/

²³ "Coetiroedd i Gymru strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed" ar dudalen 49.

Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?

Dyletswyddau cyffredinol CNC o dan y Ddeddf Coedwigaeth

Rydym o'r farn bod dyletswydd gyffredinol CNC i hyrwyddo buddiannau coedwigaeth ac i sefydlu a chynnal cronfeydd wrth gefn digonol o goed sy'n tyfu yr un mor bwysig heddiw ag y bu erioed. Mae coedwigoedd sy'n fasnachol hyfyw yn cyfrannu at les Cymru ac yn darparu'r adnodd naturiol cynaliadwy i gynnal y gwasanaethau ecosystemau amrywiol y gall coedwigoedd eu cynnig.

Mae'r "ddyletswydd cydbwysu" wedi gweithio'n dda i sicrhau bod CNC yn taro cydbwysedd rhesymol rhwng coedwigaeth a gwarchod natur.

Fel y nodwyd, mae'n rhaid i CNC, wrth iddo arfer ei swyddogaethau, geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chymhwyso'r egwyddorion sy'n ategu hynny. Mae CNC yn cymhwyso egwyddorion Safon Goedwigaeth y DU ("yr UKFS") wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio a rheoli coedwigoedd. Mae'r UKFS yn nodi'r safon ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy ledled y Deyrnas Unedig ac yn diffinio'r safonau, y gofynion a'r sail ar gyfer rheoli'r adnodd coedwig yn gynaliadwy a'i reoleiddio. Mae rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy yn gyfystyr i raddau helaeth â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, felly mae cryn gysondeb eisoes rhwng dyletswyddau cyffredinol CNC o dan y Ddeddf Coedwigaeth a'i ddiben cyffredinol.

Rydym o'r farn y gellir mireinio dyletswyddau cyffredinol CNC o dan y Ddeddf Coedwigaeth er mwyn eu cysoni'n fwy clir â diben cyffredinol CNC i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel y'i diffinnir gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)²⁴ gan helpu i fanteisio i'r eithaf ar fanteision lluosog ein coedwigoedd.

Cynnig 1

Diwygio dyletswyddau cyffredinol CNC o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 i gyd-fynd yn llawnach â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Pŵer CNC i ddirprwyo ei swyddogaethau o dan y Ddeddf Coedwigaeth

Wrth gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy²⁵ rydym o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol estyn y pwerau presennol sydd gan CNC o dan y Ddeddf Goedwigaeth i roi mwy o ran i eraill wrth wneud penderfyniadau ynghylch rheoli coetiroedd ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Nid ydym yn credu y dylai'r pwerau gael eu hestyn yn y modd hwn yn ddilyffethair. Dylid diogelu'r budd sydd gan y cyhoedd yn y gwaith o reoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru.

Gallai pŵer o'r fath ganiatáu i CNC wneud trefniadau gyda chymunedau sy'n rhoi llawer mwy o reolaeth i bobl leol dros yr hyn sy'n digwydd mewn coedwigoedd ar Ystad Llywodraeth Cymru. Credwn y byddai hyn yn eu galluogi i fanteisio ar gefnogaeth neu wneud trefniadau ariannol sy'n gofyn am ddeiliadaeth tymor hirach nad yw cytundebau rheoli tymor byr yn eu cynnig.

²⁴ Adranau 3 a 4, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

²⁵ Adran 4 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cynnig 2

Rydym yn ystyried estyn pwerau CNC i ddirprwyo rhai swyddogaethau o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 fel y bo modd cydweithio mwy â chymunedau a phobl leol a rhoi mwy o ran iddynt.

Gofynion sy'n ymwneud â thrwyddedau cwmpo coed

Mae angen trwydded cwmpo coed er mwyn torri nifer o goed sy'n tyfu²⁶. Yn hytrach na bod yn rhaid gwneud cais am drwydded cwmpo coed mewn achosion priodol, byddai modd galluogi rheolwr/perchennog coedwig i gytuno ar gynllun rheoli coedwigoedd tymor hir gyda CNC. Byddai'r cynllun, a fyddai'n cwmpasu cyfnod o bump neu ddeng mlynedd, yn nodi amodau i reoleiddio'r gwaith o gwmpo coed, ailblannu a rheoli coed ar y tir y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef. Ar ôl cytuno, gallai'r rheolwr/perchennog reoli'r gwaith cwmpo coed yn unol â'r cynllun rheoli y cytunwyd arno heb yr angen i wneud cais i CNC am drwydded benodol i awdurdodi gwaith cwmpo coed unigol. Rydym yn ystyried bod hon yn ffordd gallach a mwy hyblyg o reoleiddio ac awdurdodi gwaith cwmpo coed ar gyfer rheolwyr/perchennogion coedwigoedd sy'n gweithredu ar raddfa fwy.

Credwn y dylid diwygio'r rhesymau i CNC wrthod neu roi trwydded cwmpo coed amodol, ynghyd â diwygio'r amodau y gall CNC eu gosod ar hyn o bryd, i gyd-fynd â'r egwyddorion a'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Dylai hyn fod yn berthnasol i drwyddedau cwmpo coed a chynlluniau rheoli coedwigoedd tymor hir.

Yn aml, bydd yna amgylchiadau pan fydd cynlluniau perchennog neu reolwr yn newid, neu pan ddaw gwybodaeth newydd i'r amlwg yn ystod gwaith cwmpo coed fel nad yw'r amodau ailblannu a osodwyd mewn trwydded yn gwneud synnwyr bellach. Darparwyd ar gyfer hyn yn y gorffennol, er enghraifft, drwy osod amodau eang iawn yn unig, y mae'n llai tebygol y bydd angen eu diwygio'n fanwl, neu, o dan rai amgylchiadau, drwy roi trwydded newydd ar ben yr hen un. Fodd bynnag, er mwyn osgoi amwysedd, ac fel y bo modd gosod amrywiaeth ehangach o amodau, fel yr ydym yn ei awgrymu, rydym o'r farn y dylai CNC, mewn amgylchiadau priodol, allu dirymu a/neu ddiwygio trwydded cwmpo coed, neu gynllun rheoli, gan gynnwys unrhyw amodau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun neu'r drwydded.

Byddai hynny'n ategu'r rhesymau a'r amodau presennol. Er enghraifft, yn ogystal â rhoi trwydded cwmpo coed amodol ar y sail y byddai gwneud hynny'n fuddiol er mwyn sefydlu a chynnal cronfeydd digonol o goed sy'n tyfu, gall hefyd, neu fel dewis arall, fod yn fuddiol gwneud hynny er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gallai hynny gynnwys materion megis gwarchod neu wella fflora, ffawna neu harddwch naturiol ac amwynder unrhyw dir. Enghraifft bellach fyddai er mwyn cyfrannu at gyflawni cyllidebau carbon (mae fframwaith ar gyfer gwneud hynny yn Rhan 2 o Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016), neu i gefnogi prosiectau cod carbon coetiroedd fel na ddylai trwydded cwmpo coed gael ei rhoi fel arfer ar gyfer prosiect carbon coetiroedd [neu God Carbon Coetiroedd] cymeradwy os nad yw hynny'n rhan o'r cynllun rheoli coedwigoedd y cytunwyd arno.

²⁶ Mae adran 9 (3) o Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn eithrio cyfansymiau o goed nad ydynt yn fwy na 5 metr ciwbig mewn unrhyw chwarter lle nad oes mwy na 2 fetr ciwbig yn cael eu gwerthu, rhag y gofyniad cyffredinol am drwydded cwmpo coed.

Cynnig 3

Rydym yn ystyried dulliau newydd o ymdrin â gofynion trwyddedau cwmpo coed, gan gynnwys cyfleoedd i gyflwyno dulliau amgen (drwy gynlluniau rheoli) a sicrhau bod amodau'n cyd-fynd â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac â'r egwyddorion y mae'n seiliedig arnynt.

Llywodraethu

Mae'r gofyniad i sefydlu Pwyllgor Cyngori Rhanbarthol (PCRh) yn ymwneud â dyletswydd gyffredinol CNC i hyrwyddo sefydlu a chynnal cronfeydd wrth gefn digonol o goed sy'n tyfu, a'i swyddogaethau o ran y trefniadau ar gyfer trwyddedau cwmpo coed. Ond mae gan CNC gasgliad llawer ehangach ac amrywiol o gyfrifoldebau na'r hyn a ragwelwyd pan osodwyd y gofyniad i sefydlu PCRh ar y Comisiynwyr Coedwigaeth yn wreiddiol gan y Ddeddf Coedwigaeth. Rydym o'r farn bod y rôl unigryw sydd gan CNC fel prif gynghorydd a rheoleiddiwr amgylcheddol Cymru yn golygu nad oes unrhyw ddiben ymarferol i'r gofyniad llywodraethu hwn bellach. Ein barn ni yw bod fforymau eraill, sy'n cael eu sefydlu gan randdeiliaid, ar gael i CNC ymgynghori â nhw a chael cyngor ganddynt, megis Fforwm Rheoli Tir Cymru. Nid ydym yn bwriadu rhoi'r fforymau hyn ar sail statudol, ac eithrio'r cyfrifoldebau sydd ar CNC a chyrff cyhoeddus eraill ar hyn o bryd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol i gydweithio a chynnwys pobl eraill er mwyn cyflawni eu diben cyffredinol a'u dyletswyddau penodol.

Cynnig 4

Rydym yn ystyried diwygio'r gofyniad llywodraethu i sefydlu Pwyllgor Cyngori Rhanbarthol oherwydd nad yw'n berthnasol bellach ac oherwydd bod fforymau rhanddeiliaid eraill yn gallu darparu cymorth ymgynghori a chynghori.

Coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth

Mae'r fframwaith a sefydlwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu'r modd i fonitro gwaith rheoli coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth yn gynaliadwy a'r cyfle iddynt ymateb i flaenoriaethau a heriau lleol. Dros amser bydd y fframwaith hwnnw'n dangos a oes tueddiadau anghynaliadwy yn y gwaith o reoli coed o'r fath sy'n dangos bod angen myrraeth bellach.

Mae fframweithiau statudol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn gwarchod coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth ond gellir mireinio'r trefniadau hynny er mwyn eu gwarchod yn well. Er enghraifft, o ran trefniadau gorchmynion cadw coed ("GCC")²⁷:

- (a) Y rhesymau dros wneud GCC, sef os yw'n ymddangos i awdurdod cynllunio lleol ("ACLI") ei bod yn "... fanteisiol er lles amwynder i wneud darpariaeth ar gyfer cadwraeth coed neu goetiroedd ...".²⁸ Mae asesiad o "amwynder" yn cyfuno rhinweddau gweledol gyda gwelededd cyhoeddus, a rhaid iddo fod yn "fuddiol" gwarchod coeden arbennig oherwydd y perygl iddi gael ei thorri neu ei thocio ac ati – ni fyddai'n fuddiol gwarchod coeden sydd, er enghraifft, yn cael ei rheoli'n dda o ran

²⁷ Adran 198(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

²⁸ Adran 198(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

coedyddiaet²⁹. Nid yw'r prawf "amwynder", er enghraifft, yn ystyried gwerth ehangach coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth, yn enwedig y gwerth sylweddol sydd ganddynt yn aml o ran bioamrywiaeth.

- (b) Mae nifer o esemptiadau ac eithriadau i'r gofyniad i gael caniatâd ACLI cyn gwneud unrhyw waith ar goeden sy'n cael ei gwarchod. Mae hynny'n cynnwys torri i lawr neu wneud gwaith ar goed sy'n marw neu wedi marw, neu sy'n beryglus³⁰. Mae'r rhain yn nodweddion sydd i'w gweld yn aml mewn coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth. Er y gallai fod yn ddoeth hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol, nid oes rhwymedigaeth i roi gwybod iddo am waith a wneir drwy ddibynnu ar esemptiad neu eithriad. Mae hyn yn arwain at broblemau wrth gynnal erlyniadau llwyddiannus os yw tystiolaeth am gyflwr coeden wedi'i dileu ac yn lleihau effeithiolrwydd y GCC o ran gwarchod coed gwerthfawr.
- (c) Gall esemptiadau ac eithriadau i'r gwaharddiad cyffredinol ar waith ar goed a warchodir gael eu geirio'n fwy caeth fel y bo modd gwarchod coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth yn well. Gallai'r eithriad ar gyfer coed sydd bellach yn beryglus gael ei eirio i gyfeirio at y gwaith sydd ei angen i'r graddau ei fod yn "...urgently necessary to remove an immediate risk of serious harm"³¹. Mae gan goed hynafol a choed hynod nodweddion megis difrod a dirywiad sy'n golygu eu bod, yn aml, yn dod o fewn cwrmpas yr esemptiadau a'r eithriadau presennol. Mae hynny'n golygu y gellid gwneud gwaith anghydnaws arnynt, gan gynnwys eu cwmpo, hyd yn oed os ydynt yn cael eu gwarchod gan Orchymyn Cadw Coed.
- (d) Er bod y trefniadau GCC yn gwarchod coed penodol rhag cael eu cwmpo heb awdurdod neu rhag mathau eraill o waith, nid yw'r trefniadau'n gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cynnal a chadw coed a warchodir er mwyn eu helpu i oroesi. Heb waith cynnal a chadw ystyriol, bydd coed hynafol a choed hynod yn wynebu trafferthion dros amser. Felly, byddai modd ystyried i ba raddau y gellid gosod rhyw fath o rwymedigaeth neu ddyletswydd cynnal a chadw mewn perthynas â choeden a warchodir.
- (e) Gellid adolygu tramgwyddau a chosbau am dorri GCC er mwyn sicrhau eu bod yn rhwystr digonol, gan gydnabod bod coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth yn unigryw yn y dirwedd. Byddai gofyniad i hysbysu (is-baragraff (b) uchod) yn darparu tystiolaethol ategol ar gyfer erlyniadau llwyddiannus hefyd.

Cynnig 5

Rydym yn ystyried mireinio'r fframweithiau statudol presennol ar gyfer coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth fel y bo modd eu gwarchod yn well.

²⁹ Canllawiau Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 10 "Gorchmynion Cadw Coed" ym mharagraff 15 ac 16.

³⁰ Adran 198(6) (a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

³¹ Gweler rheoliad 14(1) (c) o'r Town and Country Planning (Tree Preservation) (England) Regulations 2012.

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gysoni dyletswyddau cyffredinol CNC (gan gynnwys y ddyletswydd cydbwysu) o dan y Ddeddf Coedwigaeth â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno y dylai CNC allu dirprwyo ei gyfrifoldebau dros reoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru i eraill? Nodwch a ydych yn ystyried y dylai fod unrhyw gyfyngiadau ar CNC o ran dirprwyo'r swyddogaethau hyn.

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno y gallai cynllun rheoli coedwigoedd tymor hir sy'n seiliedig ar gytundeb rhwng rheolwr/perchennog coedwig a CNC fod yn ffordd briodol o reoleiddio ac awdurdodi cwmpo unrhyw coed?

Cwestiwn 7

Ydych chi'n cytuno y dylai amodau mewn trwydded cwmpo coed amodol neu gynllun rheoli coedwigoedd tymor hir gyd-fynd â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Cwestiwn 8

Ydych chi'n cytuno y dylai CNC allu dirymu neu ddiwygio trwyddedau cwmpo coed neu gymeradwyaethau cynlluniau rheoli coedwigoedd? Nodwch os ydych yn rhagweld unrhyw anawsterau y gallai diwygio neu ddirymu eu hachosi.

Cwestiwn 9

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig sy'n ymwneud â diddymu'r gofyniad i sefydlu Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol?

Cwestiwn 10

Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i warchod coed hynafol a threftadaeth gwerthfawr yn well drwy fireinio'r fframweithiau statudol presennol, yn bennaf y drefn gorchmynion cadw coed.

Pennod 3: Tirweddau Dynodedig

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r cynigion canlynol sy'n ymwneud â thirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol):

- Sicrhau bod swyddogaethau statudol y dynodiadau'n cyd-fynd yn gliriach â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- Rhoi mwy o bwys wrth wneud penderfyniadau ar y nodweddion arbennig a nodwyd yn yr ardaloedd, y mae angen iddynt adlewyrchu dealltwriaeth eang o bwysigrwydd yr ardaloedd hyn;
- Galluogi trefniadau llywodraethu i esblygu i adlewyrchu amgylchiadau lleol;
- Diwygio'r modd y gellir rhoi cydnabyddiaeth i ardaloedd newydd am eu nodweddion arbennig ac oherwydd eu bod yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

Pa faterion sy'n cael eu hystyried?

Mae peth o'n treftadaeth naturiol orau ac eiconig i'w gweld yn y tirweddau sydd wedi'u dynodi'n Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yng Nghymru. Cafodd y ddeddfwriaeth a sefydlodd y broses o gydnabod gwerth y tirweddau hyn drwy roi dynodiad ffurfiol iddynt ei chyflwyno gyntaf bron saith deg mlynedd yn ôl.

Pwrpas y dynodiad yw gwarchod a gwella tirwedd yr ardaloedd dan sylw, ac yn achos y Parciau Cenedlaethol, hyrwyddo mwynhad o'u nodweddion arbennig. Ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth wreiddiol, mae wedi'i diwygio o bryd i'w gilydd i adnewyddu'r diben a'r trefniadau gweinyddu.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod y y dynodiadau hyn yn gallu esblygu a pharhau i fod yn ffyrdd perthnasol o wireddu dyheadau cymdeithas ar gyfer y tirweddau y maent yn eu cwmparu.

Datblygwyd a chytunwyd ar y weledigaeth ganlynol ar gyfer y tirweddau dynodedig gan holl arweinwyr y tirweddau dynodedig a chan gasgliad eang o randdeiliaid fel rhan o raglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru:

*"Mae Cymru, fel cenedl, yn gwerthfawrogi ei thirweddau am yr hyn y gallant ei ddarparu i bobl yng Nghymru a thu hwnt. Mae tirweddau dynodedig Cymru yn gweithredu y tu mewn i'w ffiniau, a'r tu allan iddynt, i wella eu hadnoddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol; gan sicrhau'r buddion mwyaf posibl o ran llesiant i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol a mynd ati ar yr un pryd i wella'r union nodweddion sy'n eu gwneud yn nodedig ac yn annwyl."*³²

³² Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru <http://gov.wales/docs/desh/publications/170508-future-landscapes-delivering-for-wales-cy.pdf>

Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i wella'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer dynodiadau a all helpu i gyflawni potensial yr ardaloedd hynny a ddynodwyd yn barod ac i ddarparu ffyrdd diwygiedig i ardaloedd sydd y tu allan i'r ardaloedd dynodedig ar hyn o bryd gael eu cydnabod neu eu gwobrwyo. Gall helpu i lywio barn y cyhoedd hefyd drwy ddangos bod yr ardaloedd hyn yn ddeinamig, yn gynhyrchiol, ac yn cefnogi naratif sy'n amlwg yn gyfoes.

Y Sefyllfa Bresennol

Dechreuodd yr adolygiad annibynnol i ddiben a dulliau llywodraethu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Terry Marsden, Cyfarwyddwr y Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy ym Mhrifysgol Caerdydd, ar ei waith yn ystod hydref 2014. Pwrpas yr adolygiad oedd ystyried sut mae'r ardal ddatganoledig o dirweddau dynodedig yn cyd-fynd â blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru ac yn cyflawni yn unol â'r blaenoriaethau hynny, gan gynnwys twf gwyrdd a rheoli adnoddau naturiol. Mae Adroddiad Marsden³³ yn galw am agwedd newydd at ddibenion ac at lywodraethu ac yn ceisio rhoi rôl i dirweddau dynodedig a all helpu i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol cynyddol gymhleth, anghydraddoldebau o ran llesiant ac iechyd, a sicrhau cymunedau gwledig mwy ffyniannus.

Yn hytrach nag ymateb i'r adroddiad, sefydlodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar y pryd, Carl Sargeant, raglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC i archwilio'r argymhellion hyn a'r achos dros ddiwygio mewn proses gydweithredol ac yng ngoleuni'r fframwaith cyfreithiol newydd a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?

Mae'r cynigion, o ran sut i fynd ati yn y dyfodol, wedi deillio o broses gydweithredol rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr y Parciau Cenedlaethol, yr AHNE, CNC, sefydliadau yn y trydydd sector a buddiannau cyhoeddus a phreifat eraill. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i edrych yn fwy manwl ar yr agweddau penodol hyn ar gynnig Tirweddau Dyfodol Cymru, sy'n awgrymu bod angen newid deddfwriaeth, fel rhan o'r dasg o ddatblygu gwaith y rhaglen honno a llywio rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig y cyfle i Lywodraeth Cymru gasglu barn ar gynnigion Tirweddau'r Dyfodol Cymru a all olygu bod angen newidiadau i ddeddfwriaeth.

³³Tirweddau Cenedlaethol: Gwireddu eu Potensial Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru, Yr Athro Terry Marsden et al, Gorffennaf 2015

Mae pedwar maes allweddol cydgysylltiedig i'w hystyried:

1. Sicrhau bod swyddogaethau statudol y dynodiadau yn cyd-fynd yn gliriach â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
2. Rhoi mwy o bwys wrth wneud penderfyniadau ar y nodweddion arbennig a nodwyd yn yr ardaloedd, y mae angen iddynt adlewyrchu dealltwriaeth eang o bwysigrwydd yr ardaloedd hynny;
3. Galluogi trefniadau llywodraethu i esblygu er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol;
4. Diwygio'r ffordd y gellir rhoi cydnabyddiaeth i ardaloedd newydd am eu nodweddion arbennig ac oherwydd eu bod yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

Sicrhau bod swyddogaethau statudol y dynodiadau'n cyd-fynd yn gliriach â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Yn y bôn gellir crynhoi'r newid a argymhellir gan Adroddiad Marsden fel 'hyrwyddo' dyletswydd gyfredol y Parciau Cenedlaethol³⁴ i roi ystyriaeth i les economaidd-gymdeithasol yr ardal a'i throi'n un o'u dibenion, ac i gymhwyso'r un dibenion i AHNE. Yn y fframwaith deddfwriaethol presennol roedd y dehongliad cyfredol o hynny'n cynnig swyddogaeth ehangach i Barciau Cenedlaethol ac AHNE yn y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, o fewn cyd-destun egwyddor datblygu cynaliadwy³⁵, gyda pherthynas ffurfiol â nodweddion arbennig yr ardal.

Mae Tirweddau'r Dyfodol Cymru yn awgrymu bod angen ymchwilio ymhellach i'r angen i sicrhau bod nod dynodi yn cyd-fynd â'r ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel y'i nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Byddai hynny'n gwneud cydnerthedd ecosystemau ac amryfal fanteision cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yr ecosystemau hynny i'n llesiant yn nod canolog.

Mae 'Egwyddor Sandford' yn ymwneud â dwy ddyletswydd bresennol y Parciau Cenedlaethol sef i) gwarchod a gwella harddwch naturiol, a ii) hyrwyddo mwynhad o'r ardal.

Pan aeth y Parchedig Arglwydd Sandford ati i gynnal adolygiad o'r Parciau Cenedlaethol ym 1974 ystyriwyd mai'r bygythiad i Barciau Cenedlaethol oedd ymwelwyr ac y gallai hynny arwain at erydu, effaith weledol, gormod o bobl a thagfeydd, ac aflonyddu ar natur. Yn y cyd-destun hwn, roedd y ddau ddiben yn cael eu hystyried yn gyfres o ddyletswyddau a allai gystadlu â'i gilydd. Dywedodd y Parchedig Arglwydd Sandford mai dibenion cadwraeth fyddai'n cael y flaenoriaeth dros hyrwyddo mwynhad pe byddai unrhyw wrthdaro na ellid ei ddatrys. Daeth yr Egwyddor hon yn rhan annatod o ddeddfwriaeth yn Neddf yr Amgylchedd 1995.

Caiff yr Egwyddor ei chamddeall yn aml, gan dybio ei bod yn golygu mai cadwraeth yw *prif* bwrpas Parciau Cenedlaethol a bod yr Egwyddor yn ystyriaeth ym mhob penderfyniad. Nid yw hynny'n wir. Mae'r Egwyddor a'i ffurf mewn statud yn gyfyngedig i gasgliad cul iawn o amgylchiadau'n unig, ac anaml y byddant yn codi.

³⁴ Fel y darperir gan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949

³⁵ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 adran 3.

Mae diben canolog Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sicrhau ein bod yn defnyddio ac yn rheoli'n hadnoddau naturiol mewn ffordd sy'n cynnal ac yn gwella gallu ein hecosystemau i barhau i allu darparu'r amryfal fanteision y maent yn eu cynnig i lesiant pobl Cymru yn y tymor hir. Law yn llaw ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, mae'n darparu dull integredig o weithredu. Barn Llywodraeth Cymru yw y byddai sicrhau bod diben dynodi yn cyd-fynd â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn golygu na fyddai unrhyw ddyletswyddau yn cystadlu â'i gilydd ac felly na fyddai angen Egwyddor Sandford. Rhan annatod o'r dull hwn yw ymrwymiad parhaus i werth yr ardaloedd hyn, lle mae'r cynnig, isod, i gryfhau statws nodweddion arbennig wrth wneud penderfyniadau, yn golygu y byddai unrhyw fesurau diogelu angenrheidiol yn ehangach na chwmpas cyfyngedig Egwyddor bresennol Sandford.

Felly rydym yn gofyn ichi ystyried a ddylid datblygu dibenion sy'n adlewyrchu'n well y cyfrifoldebau hynny a'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r egwyddorion sy'n ategu hynny a sefydlwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Cynnig 6

Rydym yn ystyried sicrhau bod y swyddogaethau statudol o ddynodi tirweddau yn cyd-fynd yn gliriach â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Rhoi mwy o bwys wrth wneud penderfyniad ar y nodweddion arbennig a nodwyd yn yr ardaloedd, y mae angen iddynt adlewyrchu dealltwriaeth eang o bwysigrwydd yr ardaloedd hynny

Dynodwyd ardaloedd yn Barciau Cenedlaethol ac AHNE yn wreiddiol oherwydd ansawdd y dirwedd ac, yn achos y Parciau Cenedlaethol, y cyfleoedd hamdden yr oeddent yn eu darparu. Mae manteision y tirweddau dynodedig yn ehangach na'u gwerth gweledol ac amwynder ac yn cynnwys eu rôl hanfodol fel darparwr budd cyhoeddus a phreifat ehangach o fewn a thu hwnt i'w hardaloedd. Er bod dehongliad cyfoes o rinweddau tirwedd yn ymestyn y tu hwnt i'w amwynder gweledol, i gynnwys bioamrywiaeth, treftadaeth ddiwylliannol ac yn y blaen, nid yw hynny'n glir yn y dynodiad nac yn cael ei deall yn eang. Maent yn ardaloedd â phob math o nodweddion a gwasanaethau gwerthfawr, megis natur, cyflenwad dŵr, bwyd a'r gallu i storio carbon.

Felly rydym yn gofyn ichi ystyried y cynnig i sefydlu perthynas ffurfiol glir rhwng y nodweddion arbennig y nodwyd sydd gan ardal ddynodedig a'r partneriaethau, y pwerau a'r polisïau sy'n llywio'r gwaith o'i rheoli'n gynaliadwy.

Cynnig 7

Rydym yn ystyried sefydlu perthynas ffurfiol glir rhwng y nodweddion arbennig y nodwyd sydd gan ardal ddynodedig a'r partneriaethau, y pwerau a'r polisïau sy'n llywio'r gwaith o'i rheoli'n gynaliadwy.

Galluogi trefniadau llywodraethu i esblygu i adlewyrchu amgylchiadau lleol

Mae rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru wedi amlinellu cyfres o egwyddorion llywodraethu newydd y cytunwyd arnynt er mwyn darparu fframwaith i adolygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y tirweddau dynodedig presennol ac i ystyried y dulliau llywodraethu ar gyfer ardaloedd newydd.

Mae'r egwyddorion wedi'u seilio ar Egwyddorion Llywodraethu Da IUCN³⁶ ac yn adlewyrchu'r egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sydd i'w gweld yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Maent yn ymwneud â phum maes allweddol:

- Dilysrwydd, cyfranogiad a llais
- Datblygu a gweithredu gweledigaeth strategol ar gyfer yr ardal
- Rheoli perfformiad yn effeithiol
- Atebolrwydd a thryloywder
- Tegwch a hawliau

Er mwyn mynd ati mewn ffordd briodol i asesu a gweithredu newidiadau i gyrff sy'n gyfrifol am y dynodiadau tirwedd presennol a dynodiadau yn y dyfodol, dylid cydymffurfio â'r egwyddorion hyn wrth ystyried unrhyw ddiwygiadau deddfwriaethol yn ymwneud â llywodraethu.

Nodwyd nifer o feysydd lle'r oedd angen diwygiadau'n ymwneud â llywodraethu a allai olygu y byddai angen newidiadau i ddeddfwriaeth er mwyn bwrw ymlaen â'r diwygiadau hynny'n llawn.

Awgrymwyd ers peth amser y dylai cyfran o'r lleoedd ar fyrddau Awdurdod Parc Cenedlaethol gael eu llenwi drwy etholiadau uniongyrchol. Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn well canolbwyntio ymdrechion ar hyn o bryd ar sicrhau bod y byrddau presennol yn cynnig arweinyddiaeth effeithiol i Barciau Cenedlaethol yn hytrach na chynyddu cost a chymhlethdod gweinyddu Awdurdodau'r Parciau eu hunain.

Yn hyn o beth, dylai'r gwaith o oruchwylio rheoli perfformiad gael ei gryfhau drwy gyflwyno dull o fesur perfformiad sydd wedi'i deilwra i'r tirweddau dynodedig ac sy'n cynnig cysondeb ar draws yr holl ddynodiadau. Dylai fod yn ddigon hyblyg i gael ei deilwra i faint a statws y bartneriaeth neu'r sefydliad rheoli a'i fabwysiadu gan ardaloedd newydd.

Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith ar gyfer arweinyddiaeth leol, ymgynghorodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn ddiweddar ar gynigion i newid trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer 'Awdurdodau Gwella',³⁷ gan gynnwys tynnu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o gyfundrefn wella Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.³⁸ Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn oedd 11 Ebrill 2017. Bydd crynodeb o'r ymatebion ar gael maes o law a chânt eu hystyried law yn llaw â'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Os gwneir penderfyniad i ddiddymu Rhan 1 o'r Mesur efallai y bydd angen datblygu sylfaen statudol ar gyfer unrhyw drefniadau diwygiedig er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

³⁶ Yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur

³⁷ Yr Awdurdodau Gwella yw: Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub. Gweler – Ymgynghoriad, [Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad](#), 31 Ionawr 2017, gwefan Llywodraeth Cymru

³⁸ Rhan 1 o [Fesur Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2009](#), Legislation.gov.uk, Ebrill 2017.

O gofio'r egwyddorion llywodraethu a'r ffaith bod model perfformiad ac atebolrwydd cadarn yn cael ei ddatblygu, rydym yn gofyn ichi ystyried cyflwyno amrywiaeth ehangach o fodelau cyflenwi lleol, gan gynnwys ffurfio partneriaethau a rhannu neu ddirprwyo cyfrifoldebau. Dylai'r amryfal ddulliau gweithredu a phwerau sydd gan gorff arweiniol adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion lleol hefyd.

Cynnig 8

Rydym yn ystyried galluogi trefniadau llywodraethu i esblygu i adlewyrchu amgylchiadau lleol gan gynnwys amrywiaeth ehangach o fodelau cyflawni megis partneriaethau a rhannu neu ddirprwyo cyfrifoldebau.

Diwygio'r ffordd y gellir rhoi cydnabyddiaeth i ardaloedd newydd am eu nodweddion arbennig ac oherwydd eu bod yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

Mae galw cyson i ardaloedd heblaw'r tirweddau dynodedig presennol gael eu cydnabod drwy ryw fath o ddynodiad. Mae gwaith Tirweddau'r Dyfodol Cymru yn cydnabod gwerth pob tirwedd ac mae casgliadau'r gwaith hwnnw'n ein herio i ystyried sut y dylai'r gwerth hwnnw gael ei gydnabod yn ffurfiol, gydag awydd i adeiladu ar werth partneriaeth neu gorff arweiniol fel sbardun ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn ardal.

Ar hyn o bryd, dim ond CNC all wneud gorchymyn i ddynodi Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Un o'r profion statudol ar gyfer dynodi yw'r gofyniad mai CNC yw'r awdurdod sy'n penderfynu bod yr amddiffyniad a roddir gan ddynodiad yn angenrheidiol. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn pennu fframwaith eang y mae'n rhaid i CNC ei ddilyn er mwyn gwneud y gorchmynion hyn.

Mae yna fodel cymunedol a rhanbarthol ar gyfer dynodiadau yn Ffrainc ar gyfer Parciau Natur Rhanbarthol. Yno gwneir 'dynodiadau' drwy gyfrwng siarter: contract sy'n diffinio amcanion gwarchod a datblygu ar gyfer y rhanbarth. Pobl o gynghorau cymuned a thref, awdurdodau lleol, a chyrff eraill yw'r llofnodwyr, ac mae llofnodi'n ymrwymiad am ddeng mlynedd. Nid yw'r siarter yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ynddo'i hun, yn hytrach mae'n cyfarwyddo ac yn arwain gweithredoedd awdurdodau lleol a thirfeddianwyr preifat. Mae cydnabod ardal yn Barc Natur Rhanbarthol yn benllanw mentrau a sbardunir yn lleol er mwyn sicrhau bod ardal yn cael ei gwarchod, a'i bod yn datblygu'n economaidd ac yn gymdeithasol.

Y tu allan i'r maes statudol mae dulliau eraill o gydnabod gwerthoedd penodol ardaloedd a rhanbarthau, a hynny ar sail model achredu. Drwyddynt gall cymunedau wneud cais i'r corff achredu am gydnabyddiaeth i ardal a rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth eu bod yn bodloni safonau neu brofion diffiniedig er mwyn llwyddo. Mae rhaglenni UNESCO³⁹ ar gyfer Safleoedd Treftadaeth y Byd, Geoparciau a Gwarchodfeydd Biosffer yn enghreifftiau o ddulliau o'r fath sydd i'w gweld eisoes yng Nghymru.

³⁹ Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig

Mae'r ddau ddull yn gyson â'r dyhead i gyflwyno pwyntiau adolygu ffurfiol ar gyfer llywodraethu i sicrhau bod dulliau'n addas i'r diben a bod perfformiad yn foddhaol.

O fewn y dulliau hyn mae angen ystyried y diffiniad o "gymuned" ac a fyddai yna safon y cytunwyd arni ar gyfer lefel yr ymgynghori â'r gymuned a'r gynrychiolaeth o'r gymuned. Dylid ystyried hefyd pwy ddylai weithredu fel 'achredwr' neu ba fesurau diogelu a mecanweithiau eraill ddylai fodoli pe na bai modd cyrraedd consensws ar faterion yn lleol.

Felly rydym yn gofyn ichi ystyried a ddylid datblygu dull a gaiff ei arwain gan y gymuned o ddynodi ardaloedd oherwydd eu bod yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, i gyd-fynd â'r AHNE a'r Parciau Cenedlaethol presennol.

Cynnig 9

Rydym yn ystyried diwygio'r ffordd y gellir rhoi cydnabyddiaeth i ardaloedd newydd am eu nodweddion arbennig ac am eu bod yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, gan gynnwys a ddylai fod yna safon y cytunwyd arni ar gyfer y lefel o ymgynghori â'r gymuned a chynrychiolaeth o'r gymuned.

Cwestiynau

Cwestiwn 11

A ddylid sicrhau bod dibenion statudol AHNE a Pharciau Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Cwestiwn 12

Pan fo nodweddion arbennig pob ardal ddynodedig yn cael eu nodi, a ddylid rhoi mwy o bwys iddynt wrth wneud penderfyniadau? Wrth ystyried hyn, sut y dylid gwneud hynny er mwyn mynd ati yn y ffordd fwyaf effeithiol i ychwanegu gwerth at y modd y mae'r ardaloedd hynny'n cael eu llywodraethu a'r cysylltiad â chymunedau a busnesau lleol?

Cwestiwn 13

A ddylid cyflwyno deddfwriaeth i gydnabod amrywiaeth ehangach o ardaloedd a phartneriaethau sy'n gysylltiedig â llywio'r broses o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy? Pa ddulliau y dylid eu hystyried?

Cwestiwn 14

Oes unrhyw agweddau eraill ar adroddiad Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru lle'r ydych yn credu bod angen darpariaeth ddeddfwriaethol?¹ Os oes, eglurwch pa agweddau a pham.

Pennod 4: Mynediad i'r Awyr Agored

Crynodeb

Eir ati yn y bennod hon i amlinellu'r cynigion isod mewn perthynas â mynediad i gefn gwlad:

- Sicrhau cysondeb o ran y cyfleoedd sydd ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol ac o ran sut y cyfyngir ar weithgareddau a sut y cânt eu rheoleiddio;
- Symleiddio a chysoni gweithdrefnau ar gyfer dynodi a chofnodi mynediad cyhoeddus;
- Gwellu fforymau cynghori sy'n bodoli eisoes a sut y mae'r holl garfannau sydd â buddiant yn cael gwybod am hawliau a chyfrifoldebau o ran mynediad.

Pa faterion sy'n cael eu hystyried?

Mae'r system bresennol sy'n sail i fynediad i gefn gwlad yn rhy gymhleth a beichus. O'r herwydd, mae ar Gymru angen dull gwell a thecach o ymdrin â mynediad cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored, sy'n llai beichus i'w weinyddu, yn darparu ar gyfer ar gyfer yr holl weithgareddau amrywiol y mae pobl eisiau cymryd rhan ynddynt, gyda mesurau diogelu synhwyrol ar gyfer gweithgareddau rheoli tir. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu system gydlynol ar gyfer hamdden awyr agored, sy'n caniatáu ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden di-fodur ar lwybrau, yng nghefn gwlad agored ac ar ddyfroedd mewndirol.

Ar hyn o bryd mae diffyg cydlyniant yn y fframwaith deddfwriaethol, er enghraifft mae yna reolau a rheoliadau gwahanol ynglŷn â phwy all ddefnyddio llwybrau ac ardaloedd o dir mynediad, a pha weithgareddau a ganiateir. Yn aml, nid oes gan y rheolau hyn unrhyw gysylltiad â'r amodau gwirioneddol ar lawr gwlad.

Cymhlethir y mater ymhellach gan fod anghysondeb diangen yn y modd y mae llwybrau a mannau sy'n agored i'r cyhoedd yn cael eu cofnodi, eu newid, a'u cyfyngu ar hyn o bryd

Credwn fod angen i'r gyfraith adlewyrchu anghenion hamdden presennol a bod yn fwy hyblyg wrth ymateb i newidiadau o ran galw a chyfranogiad. Mae gwneud newidiadau i fynediad y cyhoedd, naill ai i'w gynyddu neu'i gyfyngu yn rhy anodd ar hyn o bryd.

Mae gennym gyfle i wneud Cymru yn fwy deniadol fel cyrchfan twristiaeth gweithgareddau, gartref a thramor. Yn ogystal, rydym am ddatblygu cyfleoedd ar gyfer mynediad i'r awyr agored at ddibenion hamdden yn agos at ble mae pobl yn byw, gan gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a hyrwyddo manteision ehangach bod yn yr awyr agored o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

Bydd gwelliannau i'r cyfleoedd ar gyfer mynediad cyhoeddus i'r awyr agored at ddibenion hamdden yn cyfrannu at y nodau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn ategu darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) a Deddf yr

Amgylchedd (Cymru). Mae llwyddiant Llwybr Arfordir Cymru wedi dangos eisoes sut y gall hamdden awyr agored helpu i gefnogi'r economi, gwella iechyd a meithrin ymdeimlad o falchder cenedlaethol.

Gallai gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth leihau rhwystrau sy'n llesteirio cynnydd ar hyn o bryd drwy ei gwneud yn anodd darparu gwell cyfleoedd mynediad sy'n caniatáu ar gyfer ymarfer iach, neu drwy gyfyngu ar botensial twristiaeth gweithgareddau.

Y Sefyllfa Bresennol

Yn dilyn adolygiad eang o'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer mynediad a hamdden awyr agored, gan gynnwys yr ymgynghoriad yn 2015 ar wella cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol⁴⁰, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella er mwyn darparu mynediad cyhoeddus ar gyfer hamdden awyr agored mewn ffordd well a thecach. Y nod yw datblygu trefn sy'n llai beichus i'w gweinyddu, sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau y gall pobl gymryd rhan ynddynt, gyda mesurau diogelu synhwyrol ar gyfer gweithgareddau rheoli tir a'r amgylcheddau diwylliannol a naturiol.

Nid diddymu neu leihau hawliau mynediad ar gyfer defnyddwyr presennol yw ein bwriad. Y nod yw cynyddu mynediad ar gyfer pob gweithgaredd di-fodur gan ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd synhwyrol wrth reoli tir a diogelwch.

Mae yna nifer fawr o statudau sy'n ffurfio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer mynediad a hawliau tramwy. Mae'r darnau allweddol o ddeddfwriaeth yn cynnwys

- **Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949** oedd y ddeddfwriaeth sylweddol cyntaf i sefydlu hawliau i ymweld â chefn gwlad;
- Mae **Deddf Cefn Gwlad 1968** yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â chamfeydd, gatiau ac arwyddion ar hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys arwyddbyst ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau, a reidio beiciau pedal ar lwybrau ceffylau;
- Mae **Deddf Priffyrdd 1980** yn cynnwys y prif bwerau a phrosesau ar gyfer creu, dargyfeirio a diddymu hawliau tramwy cyhoeddus;
- Mae **Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981** yn cynnwys dyletswydd i adolygu'r map a'r datganiad diffiniol yn barhaus ac yn darparu'r trefniadau cysylltiedig ar gyfer diweddarau'r cofnodion hyn;
- Mae **Deddf Llwybrau Beiciau 1984** yn rhoi pŵer i awdurdodau priffyrdd droi llwybrau troed yn llwybrau beiciau, naill ai ar gyfer beicio yn unig neu ar gyfer beicio a cherdded;
- Creodd **Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000** ["Deddf CroW"] hawliau mynediad ar droed i dir agored, a ddiffinnir fel mynydd-dir, gweundir, rhostir a thwyni. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i baratoi, ymgynghori

⁴⁰ [Gwella'r cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol](#), Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2015.

a chyhoeddi mapiau o unrhyw dir comin cofrestredig a thir agored; pŵer i reoli awdurdodau mynediad (awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol) er mwyn sicrhau modd cael mynediad i dir mynediad CROW; mae'n gwneud darpariaethau amrywiol mewn perthynas â hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy a gweithdrefnau newydd yn ymwneud â chael gwared ar rwystrau; a darpariaethau ar gyfer creu fforymau mynediad lleol.

Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?

Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru⁴¹, a gomisiynwyd gan CNC, yw'r arolwg mwyaf o gyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden awyr agored gan bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae'r heriau allweddol a amlygwyd yng nghrynodeb arolwg 2014/15 a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn ategu'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2015 ynghylch yr angen am fframwaith deddfwriaethol sy'n fwy addas i'r diben.

*"Mae newid yn newisiadau gweithgarwch yn aml yn weddol anrhagweladwy, ac yn gallu symud yn gyflym. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i'r ddarpariaeth hamdden fod yn hyblyg, a ble fo'n bosibl i ddarparu ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau ar garreg y drws."*⁴²

Roedd y rhan fwyaf o'r bron i 5800 o ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr, yn enwedig beicwyr ond hefyd farchogion a pharagleidwyr ymhlith eraill.

Byddai agwedd gyson at fynediad ar dir a dŵr yn cefnogi darpariaeth hyblyg ar gyfer gwahanol weithgareddau, ac yn caniatáu camau diogelu synhwyrol o ran rheoli tir a bywyd gwyllt.

*"Mae hamdden awyr agored yn cynnig buddion i'r iechyd a'r economi. Mae buddion iechyd wedi'u cysylltu'n benodol â chyfranogiad aml mewn gweithgareddau ar garreg y drws, tra bod buddion economaidd yn deillio mwy o wibdeithiau i'r gorau o blith arfordir a mynyddoedd eiconig Cymru. Her allweddol yw canfod y cydbwysedd cywir o gefnogaeth ar gyfer y gwahanol fathau hyn o hamdden."*⁴³

Gellir cyflawni'r nod o gydbwyso'r awydd i wella'r cynnig twristiaeth rhagorol a ddarperir gan Gymru gyda'r angen i wella cyfleoedd ar garreg y drws yn rhannol drwy ehangu'r math o ardaloedd sydd ar gael ar gyfer mynediad a sefydlu ffordd decach o ymdrin â'r mathau o weithgareddau hamdden y gall pobl gymryd rhan ynddynt.

Mae'r Arolwg yn nodi traethau (28%), mynyddoedd (16%) a'r arfordir (14%) fel yr ardaloedd y byddai pobl yn hoffi mynd iddynt fwyaf yn y dyfodol. Mae'r dyheadau hyn yn adlewyrchu apêl lleoliadau mwy eiconig Cymru, sy'n denu ymwelwyr i Gymru hefyd.

⁴¹ Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru Ffeithiau Allweddol ar gyfer Polisi ac Arfer: Adroddiad Cryno, Cyfoeth Naturiol Cymru, Rhagfyr 2016.

⁴² Her 4, t.21 Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru Ffeithiau Allweddol ar gyfer Polisi ac Arfer: Adroddiad Cryno, Cyfoeth Naturiol Cymru, Rhagfyr 2016.

⁴³ Her 5, t.21 Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru Ffeithiau Allweddol ar gyfer Polisi ac Arfer: Adroddiad Cryno, Cyfoeth Naturiol Cymru, Rhagfyr 2016.

Sicrhau cysondeb o ran y cyfleoedd sydd ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol ac o ran sut y cyfyngir ar weithgareddau a sut y cânt eu rheoleiddio;

Er mwyn helpu i wella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gweithgareddau a'r opsiynau sydd ar gael i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yn agos at ble maent yn byw mae angen newidiadau i'r hawliau sy'n gysylltiedig â rhwydweithiau llwybrau a thir mynediad presennol, yn ogystal â sefydlu hawliau mewn ardaloedd lle byddai'r cyhoedd yn cael y budd mwyaf.

Yn gysylltiedig â hyn mae'r angen i sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu rheoleiddio'n briodol er mwyn diogelu buddiannau defnyddwyr presennol, yr amgylcheddau naturiol a diwylliannol, a rheoli tir, gan gynnwys atebolrwydd a chyfrifoldeb.

Cynyddu amrywiaeth y gweithgareddau ar dir mynediad a hawliau tramwy cyhoeddus

O ran hyd yr hawliau tramwy fesul cilometr sgwâr, Cymru sydd â'r mwyaf (1.59km/sqkm) yn y Deyrnas Unedig ac yna Lloegr (1.46km/sqkm), yr Alban (0.19km/sqkm) a Gogledd Iwerddon (0.01km/sqkm).⁴⁴ Fodd bynnag, mae tua 79% o'r rhwydwaith yng Nghymru yn llwybrau troed, gyda'r 21% arall yn llwybrau ceffylau a chilffyrdd. Yn ogystal, mae tir mynediad a thir sydd wedi'i ddynodi o dan Ran 1 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ["Deddf CroW"] yn dir lle mae hawl i'r cyhoedd fynd ar fathau penodedig o dir ac aros arnynt "at ddibenion hamdden awyr agored". I bob pwrpas, mae'r cyfyngiadau sydd yn y Ddeddf yn cyfyngu'r hawliau hynny i bobl sydd ar droed (neu gerbyd symudedd) .

Er mwyn cynyddu gwerth y llwybrau a'r ardaloedd hyn fel asedau i hyrwyddo cyfranogiad a thwristiaeth, rydym yn gofyn am eich barn ar gyflwyno newidiadau i'r hawliau a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â hwy.

Cynnig 10

Galluogi seiclo a marchogaeth ar lwybrau troed o dan yr un amodau â'r rheini a ddarperir ar gyfer beicio ar lwybrau ceffylau o dan Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968. Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu ar gyfer beicio heb roi beichiau ychwanegol o ran cynnal a chadw ac o ran rhwymedigaethau ar yr awdurdod lleol; ac maent yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddwyr cyffredin y llwybrau hynny. Er na fyddai'n gosod rhwymedigaethau ychwanegol na beichiau ychwanegol o ran cynnal a chadw ar awdurdodau lleol, byddai'n eu galluogi i gynllunio a gweithredu gwelliannau i arwynebau a chelfi ar lwybrau a fyddai'n ychwanegu'r gwerth mwyaf i'r rhwydwaith hawliau tramwy. Byddai'n rhoi'r cyfrifoldeb o wirio addasrwydd llwybrau unigol ar ddefnyddwyr.

⁴⁴ Papur Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Mynediad i Gefn Gwlad yn y DU: adolygiad o bolisi a deddfwriaeth cysylltiedig*, Ebrill 2014

Cynnig 11

Diwygio neu ddirymu'r rhestr ganlynol o gyfyngiadau ar fynediad, a ddarperir yn Atodlen 2 (1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CroW) 2000:

- (b) sy'n defnyddio cwch neu hwylfwrdd ar unrhyw ddŵr di-lanw;
- (c) sydd ag unrhyw anifail heblaw ci gydag ef;
- (i) sy'n ymdrochi mewn unrhyw ddŵr di-lanw;
- (s) sy'n cymryd rhan mewn unrhyw gemau wedi'u trefnu, neu wersylla, barcuta neu baragleidio.

Cynnig 12

Caniatáu, gydag awdurdod priodol, i rasys beiciau gael eu trefnu ar lwybrau ceffylau fel y bo rheolau sy'n ymwneud â llwybrau ceffylau yn unol â'r rheini ar gyfer llwybrau troed.

Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau pellach ar gyfer newidiadau mewn perthynas â cyfyngiadau anghyson neu afresymol ar hawliau tramwy cyhoeddus.

Estyn tir mynediad i'r arfordir a chlogwyni

O dan adran 3 o Ddeddf CROW mae darpariaeth i estyn tir mynediad i'r arfordir. Rydym yn gofyn eich barn ar weithredu'r ddarpariaeth hon fel y bo modd gwell mynediad ar gyfer defnyddwyr; lleihau atebolrwydd ar reolwyr tir; a gwarchod bywyd gwyllt morol yn well, gan gynnwys adar sy'n nythu ar y clogwyni a morloi â lloi.

Cynnig 13

Estyn tir mynediad Deddf CROW i'r arfordir a chlogwyni.

Sefydlu mynediad ar ddyfroedd mewndirol

Mae yna anghydfod parhaus ynghylch hawliau'r bobl hynny sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden dŵr ar afonydd a llynnoedd. Drwy weithredu deddfwriaeth gymesur a theg i sicrhau eglurder ynghylch hawliau tramwy yn ogystal â sicrhau mwy o gysondeb ag ardaloedd a gweithgareddau mynediad eraill, rydym yn credu y bydd yn helpu i leihau achosion o fynediad dilyffethair sy'n achosi gwrthdaro rhwng defnyddwyr hamdden ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn gwella cyfleoedd hamdden ar ddŵr ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr.

Er mwyn sicrhau bod buddiannau defnyddwyr eraill, rheolwyr tir a'r amgylcheddau naturiol a diwylliannol yn cael eu gwella a'u diogelu wrth sefydlu hawliau mynediad i ddyfroedd mewndirol, rydym yn gofyn eich barn ar ein cynigion i estyn darpariaethau Rhan 1 o Ddeddf CROW i bob afon a dyfroedd mewndirol eraill.

Ni fyddai hawl gyffredinol i gael mynediad at ddŵr o dir ger y dŵr. Byddai angen i awdurdod statudol nodi a mapio pwyntiau mynediad ac ymadael. Dim ond mewn argyfwng neu gyda chaniatâd y tirfeddiannwr y byddai mynediad neu ymadael yn cael ei ganiatáu yn unrhyw le arall ar lan y dŵr. Gallai lefel is o atebolrwydd, yn debyg i'r hyn sydd eisoes ar waith ar dir mynediad o dan adrannau 12 a 13 o Ddeddf CROW gael ei gymhwyso i reolwyr tir â phwyntiau mynediad ac ymadael ar eu tir ac i'r awdurdod sy'n gyfrifol am fynediad at ddŵr.

Cynnig 14

Estyn y darpariaethau yn Rhan 1 o Ddeddf CROW sy'n ymwneud â thir mynediad i afonydd a dyfroedd mewndirol eraill.

Cynnig 15

Sefydlu mai CNC yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am:

- nodi pwyntiau mynediad ac ymadael priodol;
- gweithredu mesurau i hyrwyddo defnydd cyfrifol, gan gynnwys y defnydd o ddangosyddion ar lefel afonydd;
- cyfryngu rhwng buddiannau gwahanol ddefnyddwyr er mwyn hwyluso cytundebau mynediad i ddefnyddwyr.

Cyflwyno gofyniad statudol ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol sy'n cwmpasu tir mynediad, hawliau tramwy cyhoeddus a dŵr

Rydym o'r farn y gall Cymru ddysgu o'r hyn a wnaed yn yr Alban mewn perthynas â gosod y cyfrifoldeb ar ddefnyddwyr i barchu a gwarchod yr ardaloedd y mae ganddynt fynediad iddynt. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r dyletswyddau statudol a osodwyd ar reolwyr tir eisoes i sicrhau bod ardaloedd mynediad yn agored ac yn hawdd i'w defnyddio.

Er mwyn gwarchod yr amgylcheddau naturiol ac adeiledig, bydd hawliau mynediad ar draws tir mynediad a hawliau tramwy cyhoeddus CROW yn dibynnu ar y defnyddiwr yn ymddwyn yn gyfrifol wrth wneud gweithgareddau hamdden, a bydd methiant i wneud hynny'n arwain at ddiddymu'r hawliau. Rydym yn gofyn eich barn hefyd ar ganllawiau ar ymddygiad cyfrifol fel rhan o'r cynnig ar gyfer cod mynediad statudol (gweler tudalen 46 isod o dan Cod Statudol ar gyfer Mynediad yng Nghymru).

Cynnig 16

Sefydlu cafeat statudol ar ddefnyddwyr i ymddwyn yn gyfrifol wrth arfer eu hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden ar dir mynediad, dyfroedd mewndirol ac ar hawliau tramwy cyhoeddus.

Sefydlu trefniadau er mwyn cyfyngu mynediad

Mae yna amgylchiadau lle na fydd dibynnu ar ymddygiad cyfrifol gan ddefnyddwyr yn ddigon i sicrhau bod buddiannau o ran rheoli tir, a buddiannau defnyddwyr a bywyd gwyllt yn cael eu gwarchod. O dan Ran 1 o Ddeddf CROW gellir gosod cyfyngiadau ar fynediad o dan amgylchiadau arbennig, sef, am resymau'n ymwneud â rheoli tir; at ddibenion gwarchod natur neu gadwraeth treftadaeth neu; er mwyn osgoi'r risg o dân; ac er mwyn osgoi perygl i'r cyhoedd.⁴⁵ Mae cyfyngiadau'n para am gyfnodau sy'n amrywio o ychydig ddyddiau i gyfnodau hwy. Gallant ddefnyddio cyfyngiadau amrywiol, gan gynnwys lle y gall pobl fynd a dod o dir mynediad a chyfyngu mynediad gyda chŵn yn ystod y tymor wyna. Gellir eu defnyddio hefyd i wahardd unrhyw ymweliadau ag ardal. Rydym yn credu y byddai'n fuddiol estyn y cyfyngiadau hyn a'u haddasu fel eu bod yn gymwys i hawliau tramwy cyhoeddus a dŵr.

Dangosodd ymatebion i ymgynghoriad 2015 yr angen i dynhau cyfyngiadau ar gŵn yng nghefn gwlad. Mynd â chŵn am dro yw un o'r prif resymau y mae llawer ohonom yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Dengys tystiolaeth a gasglwyd gan Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru mai pobl â chŵn sy'n gwneud tua 39% o ymweliadau â'r awyr agored; a bod pobl sy'n mynd â chŵn am dro bron ddwywaith yn fwy tebygol o ymweld yn fynych na phobl heb gŵn.⁴⁶ Fodd bynnag, heb reolaeth ddigonol, gall cŵn fod yn fygythiad sylweddol i dda byw, yn enwedig defaid cyfoen a'r rheini ag ŵyn. Felly, rydym yn credu ei bod yn synhwyrol i'w gwneud yn ofynnol i gerddwyr cŵn roi eu hanifeiliaid ar dennyn yng nghyffiniau da byw. Mae angen arweiniad gofalus ac addysg ystyrlon hefyd i annog ymddygiad cyfrifol, gan gynnwys rhoi baw ci mewn bag ac mewn bin.

Cynnig 17

Galluogi'r defnydd o wyriadau a gwaharddiadau dros dro ar unrhyw dir hygyrch a dŵr pan fo amgylchiadau'n golygu bod eu hangen ac ar ôl ystyried diogelwch a hwylustod y cyhoedd.

Cynnig 18

Cadw cŵn ar dennyn byr o hyd penodol yng nghyffiniau da byw unrhyw adeg o'r flwyddyn. Ym mhob sefyllfa arall rhaid iddynt fod o dan "reolaeth effeithiol", term wedi'i ddiffinio'n gyfreithiol a ddefnyddir eisoes yn Lloegr o dan Atodlen 2 paragraff 6A o Ddeddf CROW. Bydd amgylchiadau eithriadol yn ymwneud â diogelwch a gwarchod natur yn cael eu nodi a bydd y cod mynediad yn cynnig arweiniad.

⁴⁵ Gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru, "Cyfyngiadau ar Dir Mynediad" Ebrill 2017.

⁴⁶ Tudalennau 4 a 3 yn y drefn honno yn Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru Ffeithiau Allweddol ar gyfer Polisi ac Arfer: Adroddiad Cryno, Cyfoeth Naturiol Cymru, Rhagfyr 2016

Symleiddio a chysoni gweithdrefnau ar gyfer dynodi a chofnodi mynediad cyhoeddus.

Map digidol mynediad Cymru Gyfan

Mae yna nifer o fapiau statudol yn dangos ardaloedd mynediad ar hyn o bryd. Copïau caled yw'r rhain yn aml, fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, a rhaid iddynt fod ar gael i'r cyhoedd ar adegau rhesymol yn swyddfeydd yr awdurdod perthnasol (e.e. swyddfeydd Awdurdod Lleol neu CNC).

Yn unol â'r ymrwymiad yn Symud Cymru Ymlaen i "fynd yn ddigidol o ran ein darpariaeth o wasanaethau llywodraethol" rydym o'r farn y dylai gwybodaeth am ardaloedd hygyrch fod ar gael yn fwy eang i'r cyhoedd. Byddai hynny o fudd i bobl leol drwy ddangos beth sydd ar gael ar garreg eu drws ac i dwristiaid wrth ystyried ble i fynd a beth i'w wneud.

Dylai un map electronig gyda gwybodaeth am bob ardal hygyrch, gan gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad, ddisodli'r mapiau statudol presennol. Bydd hynny'n arwain at fwy o eglurder ynghylch lle gall pobl fynd a beth y gallant ei wneud. Yn y tymor canolig i hir, bydd yn lleihau'r baich ar awdurdodau lleol a chyrff cyfrifol eraill hefyd (e.e. Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a CNC) o ran eu dyletswyddau i gofnodi mynediad cyhoeddus.

Cynnig 19

Galluogi'r gwaith o ddatblygu un map statudol o ardaloedd hygyrch a seilwaith gwyrdd. Yn y lle cyntaf byddai haenau mapio'n cynnwys tir mynediad CRoW (gan gynnwys dŵr), hawliau tramwy cyhoeddus a dynodiadau, gan gynnwys Llwybrau Cenedlaethol. Byddai angen deddfwriaeth i ganiatáu i haenau pellach gael eu nodi a'u hychwanegu.

Lleihau beichiau gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad

Un o'r meysydd allweddol o ddeddfwriaeth mynediad y mae angen ei wella yw hwnnw sy'n ymwneud â chofnodi a newid y rhwydwaith hawliau tramwy. Mae cryn bosibiliadau ar gyfer newid yn hyn o beth ond mae canfyddiadau allweddol mewn gwaith blaenorol, gan gynnwys ymgynghoriad 2015, wedi amlygu'r canlynol:

- Galluogi awdurdodau lleol i greu neu ddargyfeirio llwybrau drwy gytundeb ar draws tir cyhoeddus, ac ar dir preifat lle bo hynny'n ymarferol a chyda chydysyniad rheolwyr tir
- Diwygio'r gofynion sy'n ymwneud â hysbysu am orchmynion, er enghraifft, diweddarau'r gofynion o ran hysbysiadau i'r wasg fel eu bod yn cynnwys hysbysiadau electronig
- Diwygio darpariaethau'n ymwneud ag iawndal i dirfeddianwyr er mwyn lleihau ansicrwydd ac annhegwch
- Ei gwneud yn haws i Awdurdodau Lleol a rheolwyr tir gael gwared ar fesurau rheoli stoc diangen, gan gynnwys camfeydd a gatiau.

Mae Deddf Dadreoleiddio 2015 yn gwneud nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth yn Lloegr i leihau'r baich sydd ar awdurdodau a rheolwyr tir lleol mewn perthynas â hawliau tramwy. Rydym yn credu y gallai fod yn ddefnyddiol cymhwyso rhai o'r darpariaethau hynny sy'n ymwneud â Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol a Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus yng Nghymru.

Ar hyn o bryd mae Adran 10 o Ddeddf CROW yn ei gwneud yn ofynnol i fapiau statudol o dir mynediad yng Nghymru gael eu hadolygu gan CNC bob deng mlynedd. Cynhaliwyd yr adolygiad cyntaf yn 2015. Yn ei adroddiad gwerthuso am broses a chanlyniadau'r adolygiad cychwynnol, cyngorodd CNC Lywodraeth Cymru y byddai system o adolygu parhaus yn fwy effeithlon ac yn llai dwys o ran adnoddau. Rydym yn cytuno â'r farn hon ac yn credu y byddai hynny'n cynnig y gwasanaeth gorau i bobl drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ynghylch ble y gallant gael mynediad i dir yn gyfreithlon. Byddai'r cynnig i ddigido mapiau'n lleihau'r baich ar CNC ymhellach ac yn arwain at ffyrdd gwell o roi gwybod i bobl am unrhyw newidiadau.

Cynnig 20

Diwygio darpariaethau technegol yn ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer creu, dargyfeirio a dileu hawliau tramwy cyhoeddus; a chofnodi newidiadau i'r map a'r datganiad diffiniol.

Cynnig 21

Cyflwyno darpariaethau i ganiatáu hyblygrwydd o ran mesurau rheoli stoc ar hawliau tramwy cyhoeddus.

Cynnig 22

Diwygio'r gofyniad i gynnal adolygiad o fapiau mynediad bob deng mlynedd, gan gyflwyno proses o adolygu parhaus yn lle hynny.

Estyn Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy i gynnwys tir mynediad a dŵr ac integreiddio â darpariaethau Teithio Llesol

Amlygodd ymatebion i ymgynghoriad 2015 ar fynediad werth Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy fel modd i awdurdodau lleol nodi, cynllunio a blaenoriaethu eu rhwydwaith hawliau tramwy. Mae gwerthusiadau o ddatblygiad, cynnwys a gweithredu'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy cyntaf (2007 - 2017) wedi tynnu sylw at eu cryfderau a'r manteision sydd wedi deillio ohonynt.

Mae Adran 60 o Ddeddf CROW yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddatblygu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ac i'w hadolygu bob deng mlynedd. Mae awdurdodau lleol wrthi'n cynnal yr adolygiad cyntaf ar hyn o bryd.

O gofio'r pwysau ariannol presennol, mae hyd yn oed fwy o angen bellach am gynlluniau sy'n seiliedig ar dystiolaeth glir fel y bo modd targedu adnoddau prin, gan ddarparu'r budd mwyaf i'r cyhoedd drwy ddarparu ar draws sawl maes polisi ac integreiddio gyda gwasanaethau eraill.

O dan y darpariaethau sydd eisoes yn bodoli, gall awdurdodau ddewis estyn cwmplas eu cynlluniau i gynnwys tir mynediad a darpariaethau mynediad eraill sy'n bwysig yn eu hardal. Rydym yn credu bod lle i ddatblygu cynlluniau mwy integredig sy'n gofyn am drosolwg mwy cadarn o gyfleoedd mynediad ar draws awdurdodau lleol, er enghraifft, rheoli parciau a gerddi a choridau gwyrdd ar gyfer bywyd gwyllt a theithio llesol.

Cynnig 23

Creu gofyniad i awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddatblygu cynlluniau mynediad integredig a fydd yn dod i rym ar unrhyw adeg hyd at ddyddiad yr adolygiad nesaf yn 2027.

Diddymiaidau

Yn ystod yr adolygiad o ddeddfwriaeth mynediad nodwyd bod nifer o ddarpariaethau statudol yn anaddas neu'n anfanteisiol ar gyfer cyfleoedd hamdden awyr agored yng Nghymru.

O dan Ddeddf Llwybrau Beiciau 1984, gall awdurdodau lleol wneud gorchymyn i droi llwybr troed yn llwybr beicio. Mae'r broses yn golygu nad yw llwybrau perthnasol yn cael eu cofnodi ar y map diffiniol mwyach. Maent yn parhau i orfod cael eu cynnal a'u cadw ar draul y cyhoedd ond mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu eu bod yn cael eu hesgeuluso weithiau pan nad ydynt bellach yn cael eu cynnwys ar y map diffiniol nac yn rhan o gyfrifoldeb timau hawliau tramwy cyhoeddus.

Ers 2001, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithredu darpariaethau o dan Ddeddf CROW. Mae yna nifer o ddarpariaethau sydd heb eu rhoi ar waith o hyd, nad ydynt yn berthnasol bellach neu nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynediad. Maent yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn angenrheidiol mwyach neu sy'n defnyddio llawer o adnoddau awdurdodau lleol.

Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys caniatáu i Weinidogion Cymru ddynodi ardaloedd lle gellir cau llwybrau er mwyn atal neu leihau troseddau; a darpariaethau sy'n pennu dyddiad cau terfynol (1 Ionawr, 2026) ar gyfer cofnodi'n gyfreithiol unrhyw hawliau tramwy hanesyddol sydd heb eu cofnodi, neu byddant yn cael eu colli. Byddai gweithredu'r darpariaethau hyn yn rhoi baich drud ar awdurdodau lleol a byddai risg o golli nifer o lwybrau a ddefnyddir gan y cyhoedd ar hyn o bryd, sy'n helpu i hyrwyddo llesiant economaidd, iechyd a llesiant cymunedol.

Cynnig 24

Diddymu Deddf Llwybrau Beiciau 1984. Wrth wneud hyn, creu math newydd o hawl tramwy cyhoeddus, 'llwybrau beicio', gan roi blaenoriaeth i feicio a cherdded (ac yn amodol ar gynig 1 uchod) i'w cofnodi ar y map a'r datganiad diffiniol. Byddai'r holl llwybrau beicio presennol sydd wedi'u dynodi o dan Ddeddf 1984 yn cael eu cofnodi fel llwybrau beicio.

Cynnig 25

Diddymu'r darpariaethau diangen yn Neddf CroW, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â dyddiad cau terfynol 2026 ar gyfer llwybrau hanesyddol o dan adrannau 53-56 o Ddeddf CroW.

Gwella fforymau cynghori sy'n bodoli eisoes a sut y mae'r holl garfannau sydd â buddiant yn cael gwybod am hawliau a chyfrifoldebau o ran mynediad

Cod Statudol ar gyfer Mynediad yng Nghymru

Roedd consensws cyffredinol ymhlith llawer o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol ynghylch manteision posibl cod statudol cynhwysfawr ar gyfer mynediad a hamdden awyr agored. Rydym yn credu y bydd cod statudol ynghyd â rhaglen barhaus o addysg a gwaith hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn helpu i hyrwyddo mynediad tecach, gwell a mwy cyfrifol i'r awyr agored gan ddefnyddwyr a hefyd ddulliau tecach, gwell a mwy cyfrifol gan awdurdodau lleol a rheolwyr tir o reoli'r ddarpariaeth.

Er mwyn sicrhau bod y cod yn deg ac ymarferol rydym o'r farn y dylid ei ddatblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a thrwy broses ymgynghori cyhoeddus cyn ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w ystyried.

Cynnig 26

Datblygu cod statudol ar gyfer mynediad i'r awyr agored ar gyfer hamdden sy'n debyg i'r hyn sydd eisoes ar waith yn yr Alban o dan y Land Reform (Scotland) Act 2003⁴⁷.

⁴⁷ Scottish Outdoor Access Code - <http://www.outdooraccess-scotland.com/the-act-and-the-code/introduction>

Fforymau Mynediad Lleol

Gyda'r cyfyngiadau presennol ar gyllid a phwysigrwydd cynyddol cael dull gweithredu cydgysylltiedig o ran llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, mae fforymau mynediad lleol yn parhau i fod yn adnodd pwysig er mwyn gwella cyfleoedd i gel mynediad hamdden i'r awyr agored.

Roedd yr ymatebion yn ymwneud â fforymau mynediad lleol yn ymgynghoriad 2015 yn canolbwyntio ar eu haelodaeth a'u cylch gorchwyl. Rydym wedi ystyried y cynigion yn yr ymatebion yn ofalus ac rydym o'r farn y gellir mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd drwy wneud newidiadau i'r rheoliadau⁴⁸ yn hytrach na thrwy ddiwygio Rhan 5 o Ddeddf CROW ei hun, a thrwy ddiweddarau'r canllawiau a ddarparwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru fel yr oedd ar y pryd.

Mae'r newidiadau a nodwyd yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Newidiadau i alluogi dirprwyon i gynrychioli aelodau sy'n methu mynd i gyfarfodydd Fforymau Mynediad Lleol;
- Camau i annog amrywiaeth mwy cynrychioliadol o aelodau, megis, canllawiau ynghylch pryd a ble i gynnal cyfarfodydd er mwyn caniatáu ar gyfer y bobl hynny sy'n gweithio a/neu sydd â chyfrifoldebau gofalu;
- Hysbysebu am aelodau ar y rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol – gallai hynny hefyd helpu i leihau'r gost o ailsefydlu Fforymau Mynediad Lleol;
- Canllawiau ar sut i hyrwyddo rolau a chyfrifoldebau Fforymau Mynediad Lleol i gyrff cyhoeddus eraill. Mae hyn yn cynnwys sut y gall Fforymau ymgysylltu'n fwyaf effeithiol gyda'u Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Cynyddu tymor Fforwm Mynediad Lleol o dair i bedair blynedd.

Nid ydym o'r farn bod angen newidiadau statudol i nifer y Fforymau Mynediad Lleol nac i'w statws statudol nac i'r cyfarfod cysylltiedig o gadeiryddion a dirprwy gadeiryddion Fforymau a gynhelir ar lefel genedlaethol.

Cynnig 27

Adolygu'r rheoliadau a'r canllawiau sy'n ymwneud â fforymau mynediad lleol gyda'r bwriad o ddiweddarau ac egluro eu rôl a'u haelodaeth.

⁴⁸ Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 (OS 2001/4002)

Cwestiynau

Cwestiwn 15

A fydd y cynigion hyn yn sicrhau cysondeb o ran y cyfleoedd sydd ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol ac a fyddant yn darparu mesurau diogelu effeithiol ar gyfer rheoli tir a'r amgylchedd naturiol?

Cwestiwn 16

A fydd y cynigion hyn yn darparu system fwy integredig a chyfoes ar gyfer nodi, dynodi a chofnodi ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd?

Cwestiwn 17

A fydd y cynigion hyn yn rhoi eglurhad sylweddol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd, rheolwyr tir ac eraill yn glir ynghylch eu hawliau, eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau mewn perthynas â mynediad i'r awyr agored?

Pennod 5: Y Môr a Physgodfeydd

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r cynigion isod yn ymwneud â'r môr a physgodfeydd.

Y Môr:

- Diwygio Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 i ddarparu pwerau datganedig i Weinidogion Cymru greu cynlluniau morol rhanbarthol.

Pysgodfeydd:

- Rhoi mwy o hyblygrwydd gweinyddol wrth reoli pysgodfeydd;
- Cyflwyno trefn trwyddedu dyframaethu sy'n fwy addas i'r diben; a
- Gwella'r drefn ar gyfer prynwyr a gwerthwyr er mwyn cynnwys pysgod cregyn a gesglir o ardaloedd rhwng penllanw a thrai.

Y Môr

Pa faterion sy'n cael eu hystyried?

Mae cynllunio morol yn cynnig fframwaith inni ar gyfer rheoli'n moroedd. O dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Deddf 2009), rhennir y Deyrnas Unedig (DU) yn rhanbarthau cynllunio morol, bob un â'i awdurdod cynllunio. Unwaith y caiff Datganiad Polisi Morol (DPM) ar gyfer y DU ei lunio o dan Ddeddf 2009, bydd yr awdurdodau cynllunio morol yn cael paratoi cynllun morol ar gyfer eu hardaloedd. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, y Gweinidogion yw'r awdurdodau cynllunio, ac yn Lloegr, y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) yw'r awdurdod cynllunio.

Mae Deddf 2009 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru baratoi cynlluniau morol ar gyfer rhanbarth y glannau (hyd at 12 milltir forol o'r tir) a rhanbarth y môr mawr (dros 12 milltir forol). Yn ôl Deddf 2009, rhaid i'r cynlluniau morol ymdrin â'r ardal forol gyfan y mae'r awdurdod cynllunio morol yn gyfrifol am baratoi cynllun morol ar ei chyfer. Nid oes gofyn paratoi cynlluniau ar lefel is na'r cynlluniau a baratoir ar lefel genedlaethol.

Mae moroedd Cymru yn helaeth a chynhelir amrywiaeth eang o weithgareddau arnynt, gan gynnwys dyframaethu, cloddio am agregau a datblygiadau ynni adnewyddadwy, porthladdoedd, morgludiant, twristiaeth a hamddena a physgota. Mae ein moroedd yn amrywio, gyda phroblemau a nodweddion penodol i bob ardal. Er mwyn gallu cynllunio ar gyfer y nodweddion penodol hyn mewn ffordd ystyrlon, efallai fod angen cyflwyno haenen is o gynlluniau morol, yn seiliedig ar y DPM a chynlluniau morol cenedlaethol Cymru, ond a all fynd i'r afael â phynciau a blaenoriaethau lleol.

Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r system cynllunio morol wrthi'n cael ei sefydlu ledled y DU ac ar draws yr Undeb Ewropeaidd hefyd a thu hwnt. Mae cynlluniau morol glannau a môr mawr Cymru a Lloegr yn cael eu paratoi o dan Ddeddf 2009 ac yn seiliedig ar DPM y DU sy'n golygu mai'r un drefn a ddilynir ym mhob rhan o'r DU. Cafodd y DPM ei fabwysiadu yn 2011.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n paratoi'r cynlluniau morol cyntaf o dan Ddeddf 2009 ar gyfer glannau a môr mawr Cymru, a hynny fel un ddogfen, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (Cynllun Cymru). Ein nod yw ymgynghori ar Gynllun Cymru yn haf 2017 cyn ei fabwysiadu a'i roi ar waith.

Ar ôl i'r cynllun gael ei fabwysiadu, bydd awdurdodau cyhoeddus yn troi ato wrth wneud penderfyniadau a allai effeithio ar y môr.

Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?

Mae gan weinyddiaethau cynllunio morol eraill y DU fodelau tebyg ond ar wahân ar gyfer paratoi cynlluniau morol.

Mae'r MMO yn cynllunio ar gyfer dyfroedd o gwmpas Lloegr sydd wedi'u rhannu'n un ar ddeg o ardaloedd cynllunio morol rhanbarthol⁴⁹, sy'n cael eu paratoi ar gyfer yr ardaloedd hyn bob yn un. Mae cynlluniau glannau a môr mawr Dwyrain Lloegr eisoes wedi'u mabwysiadu ac mae cynlluniau glannau a môr mawr De Lloegr wrthi'n cael eu paratoi. Nid yw ardaloedd eraill wedi dechrau ar eu cynlluniau nhw eto.

Yn yr Alban, mae'r Marine Scotland Act (2010) yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cynlluniau rhanbarthol sy'n is-gynlluniau i Gynllun Morol Cenedlaethol yr Alban. Mae 11 o [Ranbarthau Morol](#) wedi'u creu yn yr Alban, ar gyfer hyd at 12 milltir forol o'r tir. Caiff y Cynlluniau Morol Rhanbarthol eu datblygu gan [Bartneriaethau Cynllunio Morol](#), er mwyn sicrhau eu bod yn perthyn i'r fro a bod pobl leol yn cael penderfynu ar faterion lleol.⁵⁰

Yn ystod yr ymgynghoriad⁵¹ ar gynllunio morol yng Nghymru, gofynnodd Llywodraeth Cymru a oedd angen cynlluniau morol ar lefel is na'r genedlaethol. Clywyd amrywiaeth eang o safbwyntiau gan gynnwys ei bod yn rhy gynnar i fod yn siŵr gan nad oedd y gwaith ar lefel genedlaethol wedi dechrau eto.

Mae'r gwaith ar gynllunio morol yn mynd rhagddo ac mae'n amlwg erbyn hyn ei bod yn anodd i gynllun cenedlaethol fynd i'r afael yn ddigonol â materion lleol. Mewn ardaloedd cymhleth lle mae llawer o weithgareddau a llawer o ospiynau ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol, fel Aberdaugleddau, Aber Afon Hafren ac Arfordir y Gogledd, mae'n bosibl y byddai mwy o gynllunio ar y lefel leol yn briodol.

Mae angen tystiolaeth fanylach a mwy o ymwneud â'r bobl leol er mwyn cynhyrchu cynlluniau sy'n cynnig lefel briodol o arweiniad i bobl leol allu gwneud penderfyniadau. Nid yw ymgynghori a chasglu tystiolaeth o'r fath fel rhan o broses genedlaethol yn gweddu'n

⁴⁹ <https://www.gov.uk/government/cyhoeddiadau/marine-plan-areas-in-england>

⁵⁰ <http://www.gov.scot/Topics/marine/seamanagement/regional>

⁵¹ <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/datblygu-cynaliadwy-ar-gyfer-moroedd-cymru-ein-dull-o-ymdrin-chynllunio-morol-yng>

dda â natur strategol proses cynllunio cenedlaethol, yn enwedig pan fydd materion gwahanol yn codi ar adegau gwahanol ac ar raddfeydd gwahanol ar lefel fwy lleol.

Mae nifer o randdeiliaid wedi parhau i ddadlau bod angen cynlluniau morol lleol i ystyried materion lleol ar raddfa leol briodol.

Y cynnig yw diwygio Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 i roi'r pwerau i Weinidogion Cymru baratoi cynlluniau morol rhanbarthol yn rhanbarthau cynllun morol Cymru

- Pa newidiadau penodol sy'n cael eu cynnig?

Diwygio'r rhannau hynny o Ddeddf 2009 sy'n ymwneud â rhanbarth glannau Cymru er mwyn rhoi pwerau datganedig i Weinidogion Cymru bennu rhanbarthau cynllun morol glannau Cymru a pharatoi cynlluniau morol ar gyfer y rhanbarthau cynllun morol hynny sy'n gyson â DPM y DU ac sy'n ategu'r cynllun cenedlaethol

- Pa opsiynau sy'n cael eu hystyried?

Yn lle paratoi cynlluniau sy'n is na'r lefel genedlaethol, rydym yn ystyried rhinweddau:

- Rhannu moroedd Cymru yn ardaloedd a pharatoi cynlluniau ar gyfer pob un o'r ardaloedd hynny a fyddai, gyda'i gilydd, yn cwmpasu rhanbarthau cynllunio morol Cymru (sef y dull a fabwysiadwyd yn Lloegr);
- Yr angen i'w gwneud yn ofynnol i gynlluniau morol rhanbarthol gwmpasu holl rhanbarthau cynllunio morol Cymru neu a ddylid ond eu paratoi pan geir tystiolaeth glir bod angen cynllun rhanbarthol i fynd i'r afael â phwnc neu flaenoriaeth polisi penodol;
- Cynnwys polisi lleol penodol fel rhan o gynllun genedlaethol – ar gyfer unrhyw ardal sy'n teilyngu'r fath sylw. Byddai cadw cysylltiad mor gryf rhwng y cynllun cenedlaethol ac unrhyw bolisi lleol penodol yn golygu y byddai'r cynllun cenedlaethol yn gorfod bod yn rhan o broses unigol fwy cymhleth a phellgyrhaeddol a fyddai'n cynnwys ystyried a datblygu polisiau lleol yr un pryd ag ystyried ffactorau cenedlaethol. Yn ymarferol, ni fyddai hynny'n debygol o fod yn ddewis ymarferol o'i gymharu â phroses gam wrth gam o lunio cynllun cenedlaethol gyda chynlluniau mwy lleol i ddilyn;
- Dull yr Alban o weithredu, lle mae cynlluniau morol rhanbarthol yn cael eu paratoi ar y cyd a lle mae gan Weinidogion yr Alban bwerau i ddirprwyo rhai swyddogaethau sy'n ymwneud â pharatoi cynlluniau morol rhanbarthol i awdurdodau cyhoeddus penodol. Efallai y gallai trefn debyg fod yn addas i Gymru.

Cynnig 28

Diwygio Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 i roi pwerau datganedig i Weinidogion Cymru baratoi cynlluniau morol rhanbarthol oddi mewn i ranbarthau cynllun morol Cymru

Pa ganlyniadau rydym yn eu rhagweld?

Byddai paratoi cynlluniau morol Rhanbarthol yng Nghymru yn esgor ar fframwaith cynllunio mwy hyblyg sy'n berthnasol i'r ardal ac yn fwy abl i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau lleol. Drwy roi'r gallu i Weinidogion Cymru baratoi cynlluniau morol Rhanbarthol, rydym yn rhagweld y canlyniadau canlynol:

- Byddai cynllun morol cenedlaethol yn creu fframwaith polisi addas ar gyfer gwneud penderfyniadau ond byddai'n cydnabod mai dim ond ar y lefel genedlaethol y dylid mynd i'r afael â rhai materion a thystiolaeth.
- Proses gynllunio mwy ailadroddus a haws ei addasu, gyda'r cynlluniau morol rhanbarthol yn ystyried yr opsiynau i ddefnyddio gofod morol gan fwy nag un defnyddiwr a chefnogi datblygu cynaliadwy drwy annog defnydd ar raddfa briodol yn y dyfodol.
- Perthynas agosach rhwng cynllunio morol a chynllunio lleol ar dir, yn ogystal ag adlewyrchu ac ymwneud ag unrhyw ddatganiadau ardal a gynhyrchir gan CNC, gan gryfhau'r cysylltiad rhwng tir a môr a rhoi ffocws clir ar anghenion cymunedau glan-môr.
- Cynlluniau manylach, mwy perthnasol i'r ardal, â sail tystiolaeth briodol yn gefn iddynt a fyddai'n gallu ystyried polisi cenedlaethol ar y raddfa ranbarthol.

Cwestiynau

Cwestiwn 18

Ydych chi'n cefnogi'r angen am bwerau newydd i bennu rhanbarthau cynllun morol Cymru ac i baratoi cynlluniau morol ar gyfer y rhanbarthau hynny?

Cwestiwn 19

Os nad ydych yn cefnogi cynlluniau morol rhanbarthol, nodwch sut rydych yn awgrymu y dylid mynd i'r afael â materion lleol o fewn y fframwaith cyfredol a beth fyddai effaith benodol y cynigion ar eich buddiannau chi?

Pysgodfeydd

Pa faterion sy'n cael eu hystyried?

Rydym yn ystyried y cyfleoedd posibl i wella tri maes deddfwriaeth pysgodfeydd, sef:

- a) Rhoi mwy o hyblygrwydd gweinyddol wrth reoli pysgodfeydd;
- b) Cyflwyno trefn trwyddedu dyframaethu sy'n fwy addas i'r diben; a
- c) Gwella'r drefn ar gyfer prynwyr a gwerthwyr er mwyn cynnwys pysgod cregyn a gesglir o ardaloedd rhwng penllanw a thrai.

Ar hyn o bryd, mae yna gyfyngiadau o ran effeithiolrwydd y meysydd hyn.

Y Sefyllfa Bresennol

Hyblygrwydd gweinyddol

Mae gan Weinidogion Cymru amrywiaeth o bwerau i wneud is-ddeddfau sy'n ymwneud â rheoli pysgodfeydd yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes yr un o'r pwerau hynny'n rhoi hyblygrwydd gweinyddol er mwyn gallu addasu trefniadau rheoli'n gyflym i ymateb i natur ddeinamig a chyfnewidiol amgylchedd y môr. O ganlyniad, nid yw'n bosibl newid Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir (TAC), yr ymdrech bysgota (a fynegir fel arfer fel Dyddiau ar y Môr), y Maint Cyfeirio Lleiaf a chyfyngiadau o ran tymor neu ardal (ymhlith amodau eraill) ar fyr rybudd (h.y. heb orfod gwneud is-ddeddfwriaeth ac arafwch annatod hynny). Byddai pŵer i wneud hynny yn caniatáu hyblygrwydd amser real wrth reoli'n hadnoddau morol yng Nghymru.

Trwyddedu dyframaethu

O ran yr ail gynnig, nid oes gennym siop-un-stop ar gyfer trwyddedu dyframaethu yng Nghymru ar hyn o bryd. Dim ond dau bŵer trwyddedu sydd gennym ar hyn o bryd, sef adran 189 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a'r hawl i wneud Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio o dan Ddeddf Pysgodfeydd (Pysgod Cregyn) 1967.

Mae Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol (a wneir o dan Ddeddf 1967) yn rhoi'r hawl i unigolion gymryd a magu pysgod cregyn penodol o fewn ardal benodol am gyfnod penodol o amser. Maen nhw hefyd yn cynnig mesurau eraill sy'n amddiffyn ffermwyr pysgod cregyn. Mae Gorchmynion Rheoleiddio Pysgodfeydd Cregyn yn caniatáu i drydydd parti (y Grantî) reoli pysgodfeydd cregyn a enwir yn y Gorchmyn. Mae'r trefniadau ar gyfer gwneud Gorchmyn Unigol neu Rheoleiddio o dan Ddeddf 1967 yn feichus ac wedi dyddio ac o gofio'r pwerau sydd bellach ar gael o dan adran 189 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (sy'n caniatáu cyflwyno trefniadau trwyddedu er mwyn defnyddio adnoddau pysgodfeydd môr (sy'n ehangach o lawer na physgod cregyn yn unig), nid Gorchmynion Rheoleiddio ac Unigol o dan Ddeddf 1967 yw'r arfau rheoli mwyaf addas bellach.

Trefn ‘prynwyr a gwerthwyr’ ar gyfer pysgod cregyn o ardaloedd rhwng penllanw a thrai

O ran y trydydd cynnig, cynllun sy'n dod o Ewrop o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yw'r drefn bresennol ar gyfer Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr. Mae'r cynllun yn cynnig ffordd effeithiol hefyd o olrhain pysgod sy'n cael eu dal o gychod yn unig. Fodd bynnag, nid yw'r CFP yn delio ag olrhain pysgod a physgod cregyn a ddelir neu a gesglir ar y tir (h.y. pysgodfeydd cocos) ac o'r herwydd, ar hyn o bryd, nid oes darpariaethau deddfwriaethol ar gael i roi trefn fel hon ar waith mewn cysylltiad â'r cynhyrchion hynny.

Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig

Rhoi mwy o hyblygrwydd gweinyddol wrth reoli pysgodfeydd

Ein cynnig cyntaf yw rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru fod yn hyblyg wrth reoli pysgodfeydd (drwy fesurau gweinyddol). Mae yna adegau lle byddai'n fuddiol i allu newid rhai ffactorau rheoli pysgodfeydd heb fod angen llunio is-ddeddfwriaeth ar gyfer pob newid.

Dull amgen posibl fyddai defnyddio amodau trwyddedu hyblyg i reoli'r ffactorau rheoli pysgodfeydd perthnasol (er enghraifft, bydd pa bysgod y caniateir eu cymryd o bysgodfa yn dibynnu ar y data diweddaraf sydd ar gael am iechyd y stoc ac efallai y bydd angen ei newid ar fyr rybudd). Byddai mecanwaith o'r fath yn osgoi'r angen i nodi manylion penodol o'r fath ar flaen yr offerynnau deddfwriaethol a fyddai, pe bai'r amodau'n newid o flwyddyn i flwyddyn (neu o fewn blwyddyn), yn golygu y byddai angen diwygiadau pellach i'r ddeddfwriaeth. Nid oes modd gwneud diwygiadau o'r fath ar fyr rybudd ar hyn o bryd ac mae'n gallu bod yn drwm ar adnoddau.

Mae angen inni hefyd allu atal gweithgarwch penodol mewn pysgodfeydd ar fyr rybudd. Mae Gweinidogion Cymru yn cael gwneud hyn mewn cysylltiad â rhai gweithgareddau pysgodfeydd gan ddefnyddio pwerau o dan is-ddeddfau'r hen Bwyllgorau Pysgodfeydd Môr⁵². Fodd bynnag, nid oes gennym fecanwaith ar gyfer cau rhai o bysgodfeydd Cymru pe bai angen cymryd camau ar fyrder. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967, drwy is-ddeddfwriaeth, i wahardd a rheoleiddio gweithgareddau pysgota, ond nid yw'r dull hwn yn galluogi rheoli pysgodfeydd mewn amser real gan fod angen amser i gyflwyno is-ddeddfwriaeth.

Cynnig 29

Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru reoli pysgodfeydd yn hyblyg. Gallai hyn gynnwys newid rhai o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â rheoli pysgodfeydd heb yr angen i lunio is-ddeddfwriaeth ar gyfer pob newid.

⁵² Sydd wedi'u cadw ac sydd bellach â grym fel pe baent wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru drwy rinwedd Gorchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, a Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 O.S. 2010/630 (C.42)).

Pa opsiynau sy'n cael eu hystyried?

Gellid datrys y problemau a ddisgrifir pe bai Gweinidogion Cymru yn cael y pwerau i allu rheoli pysgodfeydd yng Nghymru o ddydd i ddydd ar sail weinyddol. Byddai'r pŵer hwnnw'n galluogi Gweinidogion Cymru, drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth, i newid amodau trwyddedau ac agor/cau pysgodfeydd ar fyr rybudd, er enghraifft i addasu i amodau amgylcheddol.

Gellid cyfyngu ar y trefniadau gweinyddol, er enghraifft drwy ddarparu mesurau sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn neu o dymor i dymor (er enghraifft, y gallu i newid y ffordd y rheolir pysgodfa yn ôl y data diweddaraf am stociau). Byddai hynny'n galluogi Gweinidogion i reoli pysgodfeydd yn ôl anghenion rhywogaeth, drwy amodau penodol a thrwy reoli'r stoc yn unol â'r amodau sylfaenol. Gallai hyn gynnwys cyflwyno a newid Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir (TACs) (drwy eu cynyddu neu eu gostwng yn ôl y gofyn), agor/cau pysgodfeydd, cyfyngiadau ar sail ardal a thymor (a'u newid) a defnyddio mesurau addas i reoli'r ymdrech bysgota, fel dyddiau ar y môr.

Caiff y mesurau technegol ar gyfer rheoli pysgodfa, fel cyfyngiadau ar y gêr, eu nodi fel arfer ar wyneb y ddeddfwriaeth. Nid yw'r mesurau hyn yn tueddu i newid o flwyddyn i flwyddyn, ac ni fyddant yn cael eu newid fel arfer oni bai bod newid sylweddol wedi digwydd yn sgil datblygiad yn y gêr neu'r dechnoleg. Nid ydym yn rhagweld felly bod angen ystyried cynnwys cyfyngiadau technegol (na darpariaethau tebyg eraill) yng nghwmpas y pwerau rheoli hyblyg newydd hyn.

Y bwriad, o ran sut i fynd ati, yw y bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno offerynnau statudol sy'n ymdrin â rhywogaethau penodol ar gyfer pob prif bysgodfa. Byddai'r rhain hefyd yn nodi'r diffiniadau a'r cyfyngiadau technegol (ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau eraill na fyddai angen eu newid yn y tymor byr er mwyn gallu rheoli'r bysgodfa'n effeithiol). Hefyd, cynigir bod pŵer i Weinidogion Cymru allu rheoli'n hyblyg drwy fesurau gweinyddol yr elfennau hynny o'r bysgodfa berthnasol sydd angen eu newid yng ngoleuni materion amgylcheddol a stocio sy'n codi o bryd i'w gilydd (h.y. drwy newid amodau'r drwydded).

Dyma'r materion y gellid eu rheoli'n hyblyg drwy system weinyddol o'r fath:

- Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir (TAC);
- Yr Ymdrech Bysgota (h.y. dyddiau ar y môr);
- Agor/Cau ardal gan gynnwys pwerau atal.

Cyflwyno trefn drwyddedu dyframaethu sy'n addas i'r diben

O ran yr ail gynnig, mae pysgodfeydd pysgod cregyn yn cael eu cwmpasu ar hyn o bryd gan Orchmynion (Gorchmynion Rheoleiddio a/neu Orchmynion Unigol) o dan Ddeddf 1967. I wneud y Gorchmynion hyn, rhaid dilyn y trefniadau beichus sydd wedi dyddio a amlinellir yn Neddf 1967 a dim ond ychydig o drosolwg sydd gan Weinidogion Cymru arnynt. Rydym yn cydnabod gwerth Gorchmynion Unigol (yn enwedig) a'r sicrwydd a roddant i weithredwyr ac nid ydym yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau i'r Gorchmynion cyfredol ar ddyddiad y cytunir arno (h.y. byddai Deddf 1967 fel y mae yn awr yn dal i lywio pob Gorchmynion Rheoleiddio a Gorchmynion Unigol sydd eisoes wedi'u creu).

Fodd bynnag, mae'r weithdrefn bresennol yn un feichus o ran y gwaith gweinyddu, ac nid yw'r broses gwneud cais (o dan y ddeddfwriaeth gyfredol) yn gymesur i'r manteision ehangach o roi'r Gorchmynion hyn. Gall gymryd misoedd lawer os nad blynyddoedd i benderfynu ar geisiadau. Nid yw'n wasanaeth derbyniol i'r diwydiant gan ei fod yn gadael gweithredwyr mewn ansicrwydd am flynyddoedd lawer ac nid yw ychwaith yn ddefnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus. Nid yw'r broses fel y mae yn hwyluso twf yn y sector.

Cynnig 30

Cyflwyno gwell trefn drwyddedu ar gyfer dyframaethu.

Y cynnig yw creu system trwyddedu dyframaethu morol sy'n ateb y diben. Y bwriad yw rheoli'r gweithgareddau dyframaethu hyn drwy drwyddedau sy'n golygu na fyddai angen is-ddeddfwriaeth mwyach i sefydlu gweithgareddau dyframaethu o'r fath. Byddai hynny'n creu trefn fyddai'n gyson â gweithgareddau morol eraill fel y rheini a reolir drwy drefniadau trwyddedu morol (a sefydlwyd yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009) a physgota masnachol sydd hefyd yn weithgarwch a drwyddedir.

Byddai'r trwyddedau hyn yn caniatáu rheolaeth hyblyg gydag amodau trwydded y gallai Gweinidogion Cymru eu newid yn ôl yr angen. Byddai hynny'n caniatáu i weithredwr addasu ei arferion i adlewyrchu'r newidiadau i'r amgylchedd, neu er enghraifft, cynyddu cynhyrchiant ar safle pe bai tystiolaeth neu anghenion busnes newydd yn awgrymu y dylid gwneud hynny.

Dylai'r drwydded:

- Hwyluso twf yn y sector a bod modd ei rheoli'n hyblyg;
- Gallu cael ei newid gan Weinidogion Cymru
- Cynnwys amodau a bennir gan Weinidogion Cymru;
- Diogelu gweithredwyr rhag gweithgareddau eraill, yn union fel y gwna Gorchmynion Unigol;
- Bod yn benodol o ran lleoliad, rhywogaeth a dull;
- Caniatáu codi tâl i dalu am gostau gweinyddol;
- Darparu'r pŵer i ganslo trwydded os yw'r amodau'n cael eu torri. (Dylai cosbau eraill hefyd fod ar gael, fel dirwyon);
- Ei gwneud yn drosedd, er enghraifft i unrhyw un heb drwydded neu sydd heb ei gymeradwyo gan berchennog y drwydded, gymryd unrhyw rai o'r rhywogaethau a amaethwyd o'r ardal drwyddedig;
- Ei gwneud yn drosedd i unrhyw un amharu ar yr hawliau a roddir gan y drwydded;
- Y pŵer i roi trwydded am ba gyfnod a ystyrir yn briodol, gan gynnal adolygiadau rheolaidd yn ôl y gofyn.

Rydym yn cynnig bod y drefn drwyddedu newydd hon yn cymryd lle'r Gorchmynion 'Pysgodfeydd Unigol' a roddir o dan Ddeddf 1967. Bydd angen newid Deddf 1967 felly yng Nghymru i ddileu gallu Gweinidogion Cymru i roi Gorchmynion ar gyfer pysgodfeydd unigol. Mae gan Weinidogion Cymru'r pwerau i greu cynlluniau trwyddedu sydd i bob pwrpas yn atgynhyrchu Gorchmynion Rheoleiddio. Fodd bynnag, bydd angen i Weinidogion Cymru gael cadw'r pŵer i wneud Gorchmynion Rheoleiddio (ar y cyd â Gweinidogion Defra) er mwyn i bysgodfeydd trawsffiniol allu parhau a lle bo cyrff cyflawni yn gyfrifol am eu rheoli.

Pa ganlyniadau rydym ni'n eu rhagweld?

Rydym yn rhagweld y byddai'r drefn drwyddedu newydd hon yn llwybr cyflymach i helpu dyframaethu i ddatblygu yng Nghymru, gan roi system newydd ar gyfer dyframaethu rhywogaethau heblaw pysgod cregyn, ond gan roi hefyd ffordd gyflymach i ffermwyr pysgod cregyn ddechrau ffermio. Byddai natur hyblyg y drefn yn codi llawer o'r ansicrwydd sy'n dod o roi Gorchmynion Unigol am gyfnodau hir. Bydd modd gorfodi Cynlluniau Rheoli fel amod o'r drwydded gan ganiatáu hyblygrwydd.

Bydd y ffordd y rhoddir trwyddedau yn golygu bod man rheoli gan Weinidogion Cymru i ystyried effaith amgylcheddol y gweithgarwch dan sylw a'r amcanion ehangach ar gyfer yr ardal forol yn unol â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru a deddfwriaethau eraill fel y Gyfarwydddeb Gynefinoedd, yn ôl y gofyn.

Gwella'r drefn ar gyfer prynwyr a gwerthwyr er mwyn cynnwys pysgod cregyn a gesglir o ardaloedd rhwng penllanw a thrai

Seilir y cynllun prynwyr a gwerthwyr presennol ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Mae o'r herwydd yn ymdrin â physgota o gwch. Nid oes gan Weinidogion Cymru y pŵer ar hyn o bryd i ehangu'r system er mwyn cynnwys holl bysgodfeydd Cymru (h.y. gan gynnwys y rheini na ddefnyddir cwch ar eu cyfer) ac yn benodol y pysgod cregyn rhynglanw lle bo olrhain a gweithgarwch heb drwydded yn parhau'n broblem.

Felly, rydym yn cynnig rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ehangu Cofrestr y Cynllun Prynwyr a Gwerthwyr i gynnwys pob pysgodfa ddomestig bwysig, sut bynnag y cânt eu dal h.y. o gwch neu o'r lan. Drwy gyflwyno'r drefn hon i bysgodfeydd eraill, gallwn wneud stociau'r glannau'n fwy cynaliadwy a gwella iechyd y cyhoedd drwy sicrhau bod pysgod cregyn yn dod o ffynonellau cyfreithiol.

Cynnig 31

Gwella'r drefn prynwyr a gwerthwyr i gynnwys pysgod cregyn mewn ardaloedd rhwng penllanw a thrai.

Cwestiynau

Cwestiwn 20

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i reoli pysgodfeydd mewn ffordd hyblyg? A allwch roi enghraifft lle byddai rheolaeth hyblyg yn fantais i'ch busnes?

Cwestiwn 21

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno trefn drwyddedu sy'n addas i'r diben yng Nghymru ar gyfer trwyddedu dyframaethu? A oes swyddogaethau eraill a ddylai ddod o dan y drwydded, yn eich barn chi?

Cwestiwn 22

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ehangu cwmpas y Gofrestr Prynwyr a Gwerthwyr. Beth fydd effaith y cynigion ar eich busnes?

Pennod 6 - Dŵr

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn cyflwyno cynigion yn ymwneud â chodi dŵr yng Nghymru a rhai mân newidiadau i ddraenio

Diwigio Codi Dŵr

Pa faterion sy'n cael eu hystyried?

Codi neu dynnu dŵr yw'r broses o godi dŵr o ffynonellau naturiol fel afonydd / llynnoedd / dyfrhaenau, a'r brif ffordd o ddiwallu'r angen am ddŵr yng Nghymru. Heblaw am y dŵr a godir ar gyfer y sector ynni h.y. ynni dŵr, lle mae'r dŵr yn cael mynd yn ôl yn syth i'r amgylchedd, mae'r rhan fwyaf o ddŵr a godir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyflenwi dŵr i'r cyhoedd. Mae'r dŵr a godir ar gyfer diwydiant hefyd yn bwysig i'r economi.

Diwygio'r system drwyddedu

Rheoleiddir y rhan fwyaf o'r gwaith o godi dŵr drwy system o drwyddedau a gyhoeddir gan y rheoleiddiwr, CNC. Cafodd y drefn drwyddedu ei chreu gan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1963 i ddiogelu hawliau'r rheini sy'n codi dŵr ymhellach i lawr yr afon. Ond nid yw'r drefn drwyddedu bresennol yn caniatáu digon o hyblygrwydd i ddelio â hinsawdd sy'n newid, y twf yn y galw na'r angen i ddiogelu'r amgylchedd naturiol. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol wedi'i diwygio droeon yn yr hanner canrif diwethaf gan esgor ar amrywiaeth o wahanol drwyddedau. Mae'r trwyddedau hyn yn gallu bod yn anghyson, yn annheg ac yn anodd eu newid oherwydd darpariaethau statudol sy'n ymwneud â thalu iawndal.

Byddai diwygio'r drefn codi dŵr yn helpu hefyd i gyflawni sbardunau polisi a sbardunau statudol sy'n unigryw i Gymru. Byddai'n helpu i gyflawni dibenion Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i reoli'n adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sy'n cyfrannu at fodloni'r amcanion sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig amcan 2 "Cymru gydnerth" drwy wella amgylchedd naturiol bioamrywiol sydd ag ecosystemau iach sy'n gweithio ac sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol.

Yn ei Strategaeth Ddŵr i Gymru, a gyhoeddwyd yn 2015, dywed Llywodraeth Cymru fod ymrwymiad clir "*i ddiwygio'r system trwyddedau tynnu dŵr er mwyn llywio ein polisïau yn y dyfodol a sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau dŵr*". Mae'r ymrwymiad hwn yn adeiladu ar yr ymgynghoriadau cyhoeddus a oedd yn cynnig diwygio'r polisi a'r gyfraith hanesyddol fu'n sail i'r system trwyddedau codi dŵr.

I grynhoi felly, ein nod wrth ddiwygio'r rheolaethau ar godi dŵr yw sicrhau bod gennym adnoddau dŵr cadarn a chydnerth drwy sefydlu trefn deg a chyffredin ar gyfer pawb sy'n codi dŵr, gan gynnwys y rheolaethau ar godi dŵr yn fframwaith y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Y Sefyllfa Bresennol

Yn 2013, lansiwyd 'Manteisio i'r eithaf ar bob diferyn', sef ymgynghoriad ar y cyd a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, CNC, Defra ac Asiantaeth yr Amgylchedd.⁵³ Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad yn 2016⁵⁴.

Ers hynny, rydym wedi gweithio gyda Defra i weld a oedd angen deddfwriaeth sylfaenol newydd ar gyfer Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n annhebygol y bydd unrhyw gyfleoedd i gyflwyno Bil ar y cyd.

Rydym yn gofyn am sylwadau ynghylch a ddylid cymhwyso'r diwygiadau codi dŵr yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn yr ymgynghoriad 'Manteisio i'r eithaf ar bob diferyn' ar sail Cymru yn unig. Mae amcanion y polisi wedi bod yn destun ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid yng Nghymru, ac mae manylion y polisi hwnnw i'w gweld yn y ddogfen ymgynghori a'r ymatebion a gyhoeddwyd⁵⁵.

Rydym yn bwriadu parhau i weithio gyda CNC, Defra, ac Asiantaeth yr Amgylchedd i ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Dŵr 2014 i gynnwys gweithgareddau codi dŵr yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, fodd bynnag, ni fydd hyn yn mynd i'r afael â'r holl faterion ac efallai y bydd angen inni ystyried mecanweithiau deddfwriaethol eraill er mwyn darparu'r ffordd fwyaf effeithiol i CNC reoli ein hadnoddau dŵr.

⁵³ [Manteisio i'r eithaf ar bob Diferyn – Ymgynghoriad ar Ddiwygio'r System Rheoli Tynnu Dŵr, Crynodeb o Ymatebion](#)

⁵⁴ [Ymgynghoriad Manteisio i'r eithaf ar bob Diferyn Diwygio'r System Rheoli Tynnu Dŵr yng Nghymru](#)

⁵⁵ <https://www.gov.uk/government/consultations/reforming-the-water-abstraction-management-system-making-the-most-of-every-drop>

Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?

Trafodwyd hyn yn ymgynghoriad 2013/14 ac mewn tystiolaeth ategol gan CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn "Yr Achos o Blaid Newid"⁵⁶.

Amlygodd y ddogfen hon fod nifer o ddalgylchoedd eisoes heb unrhyw ddŵr dros ben y gellir ei ddyrannu pan fo angen codi rhagor o ddŵr i'w ddefnyddio oherwydd yr angen i warchod yr amgylchedd. Pwysleisiodd hefyd fod argaeledd adnoddau dŵr yn y dyfodol yn ansicr. Roedd yn cynnwys sawl amcanestyniad posibl ar gyfer y dyfodol, yn seiliedig ar senarios newid yn yr hinsawdd, senarios amgylcheddol a senarios economaidd-gymdeithasol gwahanol. Roedd yn dangos bod effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a'r cynnydd yn y boblogaeth yn golygu bod risgiau sylweddol y bydd llai o ddŵr ar gael yn y dyfodol na heddiw. Rhagwelir y bydd dalgylchoedd ledled Cymru yn gweld galw sylweddol am ddŵr na fydd modd ei ddiwallu o dan lawer o'r cyfuniadau o senarios.

Rydym yn cynnig nifer o ddiwygiadau bach i'r ddeddfwriaeth bresennol fel y bo modd cyflwyno system ddiwygiedig ar gyfer codi dŵr yn unol â'n hymgynghoriad a'r ymatebion a gawsom. I grynhoi, rydym yn credu y bydd y newidiadau hyn yn:

- Cynyddu faint o ddŵr y gellir ei ddefnyddio drwy gysylltu mynediad at ddŵr i argaeledd dŵr mewn ffordd systematig;
- Rhoi cymhellion i'r rheini sy'n codi dŵr i reoli dŵr yn effeithlon;
- Helpu'r rheini sy'n codi dŵr i fasnachu'r dŵr sydd ar gael yn effeithiol, gan sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau o'n dŵr ac nad ydym yn gwastraffu dŵr y gellid ei ddefnyddio;
- Sicrhau bod gennym broses fwy effeithiol i adolygu trwyddedau, gan sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng darparu sicrwydd rheoleiddiol ar gyfer y rheini sy'n codi dŵr a rheoli risg amgylcheddol;
- Rhoi cymhellion i'r rheini sy'n codi dŵr i reoli'r risgiau yn sgil pwysau ar adnoddau dŵr yn y dyfodol, gan wella eu cydnerthedd eu hunain a chydnerthedd dalgylchoedd afonydd.

Cynnig 32

Rydym yn credu bod y newidiadau deddfwriaethol allweddol sydd eu hangen i gyflawni'r newidiadau hyn yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol er mwyn:

- Gwneud y diffiniad o godi dŵr yn fwy eglur;
- Cael gwared ar drwyddedu tymhorol;
- Cael gwared ar gyfyngiadau amser ar drwyddedau;
- Cael gwared ar iawndal ar gyfer newid i drwyddedau;
- Darparu fframwaith ar gyfer hwyluso masnachu dŵr.

⁵⁶ <http://www.ukrma.org/wp-content/uploads/2015/01/06A-C4C-Addendum.pdf>

Cwestiwn

Cwestiwn 23

Ydych chi'n cytuno â'r dull rydym yn ei gynnig, sef diwygio codi dŵr ar sail Cymru yn unig?

Diwygiadau Draenio

Pa faterion sy'n cael eu hystyried?

Mae asedau draenio a charthffosiaeth yn hollbwysig ond yn cael eu diystyru yn aml. Mae'r fframwaith cyfreithiol sy'n eu rheoli wedi datblygu dros gyfnod o ganrifoedd, ac o ganlyniad mae unigolion a sefydliadau amrywiol yn berchen ar ac yn gyfrifol am yr asedau. Hefyd, mae system berchnogaeth asedau gymhleth wedi datblygu sy'n seiliedig ar strwythur trefniadol tameidiog.

Mae Strategaeth Ddŵr i Gymru⁵⁷ Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymadau i adolygu deddfwriaeth ar ddraenio a deddfwriaeth gysylltiedig arall, nodi unrhyw fylchau o ran tystiolaeth, data neu brosesau rheoleiddio ac ystyried sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain er mwyn sicrhau bod gan ymgymeryddwyr carthffosiaeth, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill yr adnoddau priodol i'w helpu i reoli ein systemau carthffosiaeth a draenio.

Rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ac wedi comisiynu gwaith ymchwil yn ymwneud â'r fframwaith deddfwriaethol a rheoleidiol presennol sy'n rheoli carthffosiaeth a draenio, ac mae'n amlwg bod angen newidiadau sylweddol. Roedd yr adolygiad yn argymhell bod angen deddf ddraenio a charthffosiaeth unedig newydd yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion Cymru.

Yn y cyfamser, nodwyd y newidiadau canlynol i wella'r drefn bresennol yn gymharol gyflym a hawdd drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol. Hefyd, maent yn cynnwys ambell newid i symleiddio'r broses statudol ar gyfer paratoi Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr.

Y Sefyllfa Bresennol

Nid yw'r sefyllfa ddigyswllt bresennol o safbwynt perchnogaeth a chyfrifoldebau am asedau carthffosiaeth a draenio yn gweddu i natur gysylltiedig yr asedau. Nid yw hawliau mynediad yn cyd-fynd bob amser â gofynion i gynnal ac atgyweirio'r asedau a lleihau'r perygl o ddifrod amgylcheddol.

Rydym wedi nodi'r problemau canlynol:

- Mae ar ymgymeryddwyr carthffosiaeth angen caniatâd CNC a pherchnogion cyrsiau dŵr i ollwng dŵr wyneb i gyrsiau dŵr fel llynnoedd ac afonydd. Gall hyn arwain at berchnogion cyrsiau dŵr yn cymryd mantais ar ymgymeryddwyr dŵr drwy ofyn am daliadau mawr am ganiatâd i ollwng dŵr i gyrsiau dŵr neu rannau o gyrsiau dŵr ar eu tir. O ganlyniad, gall dŵr wyneb gael ei ollwng i'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus, gan orlwytho'r rhwydwaith a rhyddhau carthion gwanhaedig.
- Mae adran 21 o Ddeddf Dŵr 2014 wedi mewnosod adran 114A yn Neddf y Diwydiant Dŵr, gan ganiatáu i ymgymeryddwyr carthffosiaeth adeiladu systemau draenio at ddibenion gwaredu dŵr wyneb o'r rhwydwaith carthffosiaeth, neu leihau faint sy'n mynd i mewn i'r rhwydwaith. Mae hyn yn hwyluso'r broses o greu systemau draenio cynaliadwy ar gyfer dŵr wyneb. Fodd bynnag, ni wnaed diwygiadau canlyniadol i'r Ddeddf Dŵr i alluogi ymgymeryddwyr carthffosiaeth adeiladu a chynnal a chadw'r systemau hyn i'r un graddau ag y maent yn gallu ei wneud ar gyfer systemau carthffosiaeth.

⁵⁷ <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/water-strategy/?skip=1&lang=cy>

- Er bod gan ymgymeryddwyr carthffosiaeth bwerau i atgyweirio carthffosydd mewn argyfwng, nid oes ganddynt bwerau tebyg i osod pibell newydd at ddibenion argyfwng.
- Mae rhwystrau a diffyg gwaith cynnal a chadw i gyrsiau dŵr a chwlffertau, fel siltio neu blanhigion yn gordyfu, yn gallu atal dŵr wyneb rhag llifo drwy'r rhwydwaith draenio cyhoeddus, gan greu risg o lifogydd. I fynd i'r afael â hyn, mae ymgymeryddwyr carthffosiaeth yn dibynnu ar eraill, fel awdurdodau lleol, i arfer eu pwerau o dan Ddeddf Draenio Tir 1991, sy'n gallu achosi oedi ac arwain at gostau.
- Ar hyn o bryd, mae adran 106B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn nodi bod yr hawl i gysylltu â'r rhwydwaith carthffos gyhoeddus yn hawl amodol. Fodd bynnag, pan ddaw gychwynnir Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i rym, bydd adran 106A yn cael ei chynnwys yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991, a fydd yn lleihau rheolaeth bresennol ymgymeryddwyr carthffosiaeth yng Nghymru dros gysylltiadau dŵr wyneb, a chysylltiadau llifoedd o fannau nad ydynt yn dod o doeau neu fuarthau.

Mae Adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn rhoi hawl i berchnogion eiddo gael cysylltiad â'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus ac mae'n cyflwyno fframwaith iddynt wneud cais am gysylltiad o'r fath. Mae ymgymeryddwyr carthffosiaeth wedi mynegi pryderon y gall y gost o ddarparu cysylltiad fod yn drech na'r manteision os, er enghraifft, dim ond nifer fach o eiddo cymwys mewn ardal sy'n dewis cysylltu â'r gwasanaeth carthffosiaeth cyhoeddus. Hefyd, mae yna ansicrwydd a yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgymeryddwr gysylltu eiddo yn ffisegol â'r prif rwydwaith carthffosydd cyhoeddus, neu ddarparu gwasanaeth carthffosiaeth ar eu cyfer yn lleol, heb gysylltu â'r prif rwydwaith.

Mae angen caniatâd i reoleiddio a chyfyngu ar gyfaint mathau penodol o elifion masnach sy'n cael eu gollwng i'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus er mwyn atal llygredd. Os oes gan eiddo ganiatâd ond nid yw'n cael ei ddefnyddio, mae rhai pobl o dan gamargraff bod y caniatâd yn ased y gellir ei fasnachu neu ei werthu gyda'r eiddo. Drwy gadw caniatâd nad oes mo'i angen arnynt, mae perchnogion eiddo yn atal eraill rhag cael caniatâd.

Mae yna ofyniad cyfreithiol i gofrestru tanciau carthion neu waith trin wedi'i becynnu (h.y. systemau carthffosiaeth preifat sy'n gollwng dŵr) gyda CNC. Nid oes angen cofrestru carthbyllau (systemau â sêl sy'n casglu carthffosiaeth). Mae carthbyllau is-safonol neu garthbyllau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n wael yn berygl difrifol posibl i'r amgylchedd.

Mae'r broses o baratoi ac ymgynghori ar gynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder drafft yn un gymhleth, ac mae'n arwain at Lywodraeth Cymru yn cyflawni swyddogaethau sy'n fwy addas i'r ymgymeryddwr dŵr eu cyflawni. Os yw'r ymgymeryddwr yn credu bod unrhyw wybodaeth yn y cynllun yn gyfrinachol fasnachol, neu y gall fod yn gyfrinachol fasnachol (o'i safbwynt ei hun neu berson arall), mae'n hysbysu Llywodraeth Cymru, sy'n cysylltu â'r person i roi gwybod iddo am ei hawl i wrthwynebu. Caiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu hanfon i Lywodraeth Cymru sy'n eu hanfon ymlaen at yr ymgymeryddwr.

Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ag ymgymeryddwyr dŵr a charthffosiaeth, CNC, datblygwyr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac awdurdodau lleol, gan eu hannog i gynnig diwygiadau cymharol syml i ddeddfwriaeth i wella'r broses o reoleiddio carthffosiaeth a draenio, ac i symleiddio'r system cynllunio adnoddau dŵr. Mae'r cynigion canlynol wedi'u datblygu yn dilyn yr ymgysylltu hwn.

Cynnig 33 Diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 er mwyn gwella'r cysylltiad rhwng hawliau mynediad i asedau a seilwaith dŵr a draenio, fel bod ymgymerywyr yn gallu eu cynnal a'u cadw a'u hatgyweirio, a lleihau'r perygl o ddifrod amgylcheddol.
Cynnig 34 Rhoi'r hawl i ymgymerywyr carthffosiaeth ollwng dŵr i gyrsiau dŵr. Dylai hyn gynnwys popeth ac eithrio carthion budr (er mwyn cynnwys systemau draenio tir a draenio priffyrdd sydd wedi'u datgysylltu o'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus). Dylai'r hawl hon fod yn un barhaol fel rhan o fusnes arferol, a dylai gynnwys hawl dros dro yn ystod gwaith. Ni fyddai hyn yn disodli'r caniatâd o ran cyfaint sydd ei angen oddi wrth yr awdurdod perthnasol.
Cynnig 35 Cyflwyno rheolau tebyg ar gyfer cysylltu, cynnal a chadw a chael mynediad i ddraeniau a adeiladwyd o dan adran 114a i'r rheini a ddefnyddir i reoli asedau carthffosiaeth, er enghraifft drwy ddiwygio adrannau 109, 113, 115, a 116 i gynnwys darpariaeth ar gyfer systemau draenio o dan adran 114A.
Cynnig 36 Cyflwyno pwerau newydd (yn debyg i'r rhai yn adran 158 ac adran 159) i osod elfennau systemau adran 114A nad ydynt wedi'u peipio.
Cynnig 37 Cyflwyno pwerau priodol, gan gynnwys pwerau mynediad, ar gyfer ymgymerywyr at ddibenion lleihau'r effaith ar berfformiad asedau carthffosiaeth. Byddai'r pwerau hyn yn cynnwys y gallu i glirio cyrsiau dŵr, ac atgyweirio cyrsiau dŵr (yn amodol ar ganiatâd amgylcheddol perthnasol). Byddai'r pwerau hyn yn cyfateb i'r pwerau deddfwriaethol, a byddent yn cynnwys pŵer i godi tâl ar berchennog glannau'r afon os oes angen. Mae Deddf Draenio Tir 1991 eisoes yn cynnwys pwerau, sef pwerau mynediad a'r gallu i atgyweirio cyrsiau dŵr o dan adran 14, a phwerau i glirio rhwystrau i'r llif o dan adran 25. Dylai unrhyw bwerau newydd ar gyfer ymgymerywyr ategu'r pwerau hyn, ac ni ddylent gael eu hystyried yn bwerau sy'n disodli pwerau gorfodi'r Awdurdod Draenio Tir.
Cynnig 38 Rhoi pwerau i ymgymerywyr carthffosiaeth gyhoeddi hysbysiad gorfodi ar gyfer eiddo, a fyddai'n weladwy ar chwiliadau eiddo. Wedyn, dylai'r ymgymerwr gael yr hawl i fynd i mewn i'r eiddo i gywiro camgysylltiadau, ac os oes angen, codi tâl ar berchennog yr eiddo am y gwaith sydd wedi'i wneud ac am adfer y cyflenwad, gan wneud darpariaeth i erlyn y perchennog os yw'n methu talu unrhyw gostau. Gallai hyn fod yn debyg i hysbysiad gwastraff ar gyfer gollyngiadau dŵr glân.
Cynnig 39 Cyflwyno pwerau i'r ymgymerwr osod pibell newydd mewn argyfwng, gan hepgor yr angen am rybudd 3 mis.

Cynnig 40 Diwygio adran 106A (rhan o Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010) er mwyn dileu'r hawl i gael cysylltiad. Ar gyfer dŵr wyneb, os oes SAB ar waith, dylai'r ymgymwrwr barhau i fod â chyfrifoldeb cyffredinol am gysylltiadau â'r rhwydwaith cyhoeddus, gan gynnwys ffynhonnell y llifoedd dŵr wyneb.
Cynnig 41 Deddfu i'w gwneud yn ofynnol i berchnogion eiddo gysylltu â systemau carthffosiaeth a ddarperir o dan adran 101A, ac i'r ymgymwrwr wneud y gwaith hwn am ddim. Ni fydd costau cysylltu yn cael eu cynnwys yn y costau o benderfynu a yw darpariaeth adran 101a yn gosteffeithiol. Diwygio geiriad adran 101A(1) o "carthffos gyhoeddus" i "system garthffosiaeth", gyda'r posibilrwydd o ganiatáu i'r ymgymwrwr ddarparu gwasanaeth carthffosiaeth nad yw wedi'i gysylltu â'r rhwydwaith cyhoeddus.
Cynnig 42 Rhoi pŵer i'r ymgymwrwr carthffosiaeth ddirymu caniatâd elifion masnach, yn ogystal â'i amrywio, fel bod busnesau gweithredol yn gallu defnyddio capasiti'r rhwydwaith yn effeithiol.
Cynnig 43 Deddfu i'w gwneud yn ofynnol i gofrestru carthbyllau.
Cynnig 44 Diwygio adran 37 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr er mwyn symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer paratoi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a Chynllun Sychder drafft fel bod ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hanfon yn uniongyrchol at yr ymgymwrwr, a'i bod yn ofynnol wedyn i'r ymgymwrwr gyhoeddi crynodeb o ymatebion gyda'r Datganiad Ymateb, gan anfon yr ymatebion i Lywodraeth Cymru, Gweinidogion Cymru a CNC. Os yw'n ymddangos i'r ymgymwrwr bod unrhyw wybodaeth yn y cynllun yn fasnachol gyfrinachol, neu y gall fod yn fasnachol gyfrinachol (o'i safbwynt ei hun neu berson arall), dylid nodi mai'r ymgymwrwr, nid Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am roi'r hawl i'r person hwnnw wrthwynebu cyhoeddi'r wybodaeth, ac adrodd ar unrhyw wybodaeth sydd wedi'i pharatoi ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Cwestiynau

Cwestiwn 24

A ydych chi'n cytuno â chynigion Llywodraeth Cymru?

A fyddai unrhyw un o'r cynigion newydd yn creu effaith/anghysondeb newydd neu annisgwyl?

Cwestiwn 25

A ydych chi'n credu y gallai unrhyw gynigion ychwanegol eraill wella'r sefyllfa ddeddfwriaethol / rheoleiddiol yn y tymor byr?

A oes angen unrhyw ddiwygiadau posibl eraill yng Nghymru, y bydd angen eu gweithredu yn fwy hirdymor o bosibl?

Pennod 7 - Gwastraff ac Ansawdd yr Amgylchedd Lleol

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn nodi cynigion sy'n ymwneud â:

Gwastraff:

- Diwygio adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i ddileu'r gofyniad i ddarparu rhybudd cyn mynd i mewn i eiddo preswyl ac ehangu'r cwmplas o ran casglu tystiolaeth;
- Diwygio adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i alluogi awdurdodau lleol i roi hysbysiad cosb benodedig am beidio â chydymffurfio â rhybudd i breswylwyr, a'r hysbysiad hwnnw'n ei gwneud yn ofynnol iddynt roi deunyddiau penodedig mewn cynwysyddion penodedig.

Yr Amgylchedd Lleol:

Galluogi awdurdodau lleol i roi cosb ariannol i geidwaid cofrestredig cerbyd os credir bod unigolyn/ion y tu mewn i'r cerbyd wedi cyflawni trosedd drwy daflu sbwriel.

Gwastraff – Pwerau Mynediad yn adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

Pa faterion sy'n cael eu hystyried?

Mae Adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (y Ddeddf) yn darparu'r pwerau gorfodi cyffredinol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae Atodlen 18 o'r Ddeddf yn darparu darpariaethau atodol. Er bod y pwerau'n helaeth mae ganddynt rai cyfyngiadau penodol. Er enghraifft, mae'r gofyniad i roi 7 diwrnod o rybudd cyn mynd i mewn i eiddo a ddefnyddir at ddibenion preswyl yn gwanhau'r gallu i fynd i mewn i'r eiddo hwn i gasglu tystiolaeth. Mae'r cyfyngiad ar gasglu gwybodaeth am gofnodion y mae'n ofynnol eu cadw o dan ddeddfiadau rheoli llygredd yn atal tystiolaeth rhag cael ei chasglu am fudd ariannol sydd wedi cronni neu sy'n debygol o gronni. Mae'r ddarpariaeth gyfredol yn ei gwneud yn anodd hefyd i atafaelu dogfennau a gwybodaeth sydd wedi'u storio'n electronig lle maent yn gymysg â, neu wedi'u harbed gyda gwybodaeth arall, nad yw'n ymwneud â rheoli llygredd. Mae telerau a.108 yn wahanol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Felly mae'r pwerau fel y'u darperir ar hyn o bryd heb fod yn ddigon eang neu'n addas i'r diben i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol cyfoes. Rydym yn chwilio am gyfleoedd i wella'r ddarpariaeth yng Nghymru ac i ddarparu pwerau tebyg i CNC i'r rhai sydd ar gael yn yr Alban.

Y Sefyllfa Bresennol

Fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd, mae adran 108 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr (ac eithrio mewn argyfwng) roi 7 diwrnod o rybudd ei fod yn bwriadu mynd i mewn i eiddo preswyl, ac i gael naill ai gydsyniad y person sy'n meddiannu'r safle neu awdurdod dan warant a gyhoeddwyd gan ynad heddwch. Nododd CNC y gall yr angen i roi 7 diwrnod o rybudd ymlaen llaw danseilio'r gwaith o gasglu tystiolaeth gan ei fod yn rhoi cyfle i unrhyw wybodaeth berthnasol gael ei symud o eiddo preswyl. Y cynnig yw dileu'r angen i roi 7 diwrnod o rybudd i'r person sy'n meddiannu'r eiddo, ond i gadw'r angen am warant.

Mae ail ran y cynnig yn ymwneud â chofnodion dogfennol neu gyfrifiadurol a'r pŵer i fynd â thystiolaeth ymaith. Ar hyn o bryd, mae'r pŵer i atafaelu tystiolaeth yn gyfyngedig i'r cofnodion hynny y mae'n ofynnol eu cadw o dan y deddfiadau rheoli llygredd, neu y mae'n angenrheidiol i'r rheoleiddiwr eu gweld at ddibenion ymchwilio neu archwilio. Mae'r pwerau'n gyfyngedig i baratoi neu ddarparu detholiadau, arolygu a chopio; nid ydynt yn caniatáu symud a chadw cofnodion er mwyn eu dadansoddi. Mae datblygiadau mewn technoleg yn golygu y gall gwybodaeth gael ei chynnwys mewn amrywiaeth o fformatau ffisegol neu electronig bellach. Mae unrhyw wybodaeth yn debygol o gael ei storio gyda deunydd amherthnasol arall hefyd, neu gyda deunydd sy'n destun mesurau diogelu eraill megis braint gyfreithiol, sy'n ei gwneud yn anodd cynnal dadansoddiad cyfreithlon priodol.

Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?

Rydym yn ystyried nad yw adran 108 bellach yn addas i'r diben mewn fframwaith rheoleiddio cyfoes gan fod y ddarpariaeth ynghylch rhoi rhybudd ymlaen llaw yn gwanhau gallu'r rheoleiddwyr i fynd i mewn i eiddo i gasglu tystiolaeth. Mae'r pwerau'n cyfyngu ar yr wybodaeth y gellir ei chasglu i'r hyn a gedwir at ddibenion deddfiadau rheoli llygredd neu berygl o lifogydd, fodd bynnag, oherwydd y symiau mawr o arian sy'n gysylltiedig â throeddau gwastraff, mae'n ddefnyddiol gallu cael mynediad at wybodaeth arall, er enghraifft, gwybodaeth ar drafodion ariannol, wrth gasglu tystiolaeth. Mae'r pwerau presennol yn cyfyngu hefyd ar ddarparu gwybodaeth o gofnodion cyfrifiadurol i ddetholiadau sy'n angenrheidiol at ddibenion archwilio neu ymchwilio. Nid yw'n darparu pwerau i atafaelu dogfennau a'u cadw, nac i atafaelu cyfrifiaduron i'w dadansoddi. Yn yr oes ddigidol hon, mae'n debyg bod ffynonellau tystiolaeth yn debygol o gael eu cadw ar gyfrifiadur neu ar ffurf ddigidol.

Mae troseddau sy'n ymwneud â gwastraff yn droseddau meddiangar: elw ariannol yw'r cymhelliant. Mae cudd-wybodaeth yn awgrymu mai'r prif ddull o weithredu yw i droseddwyr gwastraff gam-ddisgrifio gwastraff sy'n cael ei waredu mewn modd twyllodrus, maent yn codi tâl ar sail cyfradd y farchnad am gasglu ac yna'n newid disgrifiad y gwastraff ar bapur wrth ei symud ymlaen a'i waredu, gan elwa'n ariannol ar y gwahaniaeth. Mae hyn yn digwydd gyda gwastraff peryglus sy'n cael ei gam-ddisgrifio er mwyn osgoi triniaeth ddrud.

Mewn achosion lle mae angen i'r rheoleiddiwr archwilio eiddo preswyl, ar yr un pryd ag eiddo busnes weithiau, nid yw swyddogion CNC yn gallu archwilio'r eiddo preswyl heb roi rhybudd. Gall hynny danseilio'r bwriad, oherwydd ei bod yn bosibl y bydd unrhyw dystiolaeth yn cael ei gwaredu. Ar ôl rhoi 7 diwrnod o rybudd, mae'n rhaid i CNC wedyn gael cydsyniad y person sydd yn meddiannu'r eiddo neu fynd i mewn iddo o dan awdurdod gwarant. Ar hyn o bryd, ar gyfer eiddo preswyl lle mae risg y gall tystiolaeth gael ei dinistrio, mae CNC wedi bod yn cysylltu â heddluoedd i gael gwarantau chwilio dan bwerau'r heddlu. Gall olygu gwaith sylweddol gan yr heddlu i baratoi a chael gwarantau chwilio a threfnu adnoddau ar gyfer arestiadau, sy'n rhoi pwysau ar adnoddau'r heddlu ac yn achosi oedi. Mewn rhai achosion, gall oedi olygu nad yw gweithgareddau anghyfreithlon yn cael eu hatal yn gynt a bod gwastraff ychwanegol yn parhau i gyrraedd y safle gan gynyddu'r costau glanhau yn y pen draw. Mae pwerau Adran 108 yn anffafriol i'r rheoleiddiwr, yr amgylchedd a'r pwrs cyhoeddus ac mae angen eu diwygio i'w gwneud yn addas i'r diben ac i adlewyrchu'r newidiadau technolegol a'r naddiadau o ran arferion gweithredu.

Cynnig 45

Y cynnig yw dileu'r angen i roi 7 diwrnod o rybudd i'r sawl sy'n meddiannu'r eiddo preswyl, ond cadw'r angen am warant a darparu'r gallu i gasglu amrywiaeth ehangach o wybodaeth a mynd â deunydd oddi yno (a'i gadw) at ddibenion archwilio, gan gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i storio'n electronig.

Pa ganlyniadau rydym yn eu rhagweld?

Rydym am ddarparu cyfleoedd i ddatblygu'r economai mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy, sy'n gynhwysol yn gymdeithasol ac sy'n creu cymunedau mwy diogel, glanach a mwy cydnherth. Mae mynd i'r afael â throseddau gwastraff yn helpu i sicrhau bod busnesau cyfreithlon yn cael eu trin yn yr un modd ac mae'n lleihau cystadleuaeth annheg gan weithredwyr diegwyddor. Credwn fod angen y mesurau hyn er mwyn sicrhau nad yw troseddwyr yn llygru'r amgylchedd, yn peryglu iechyd pobl nac yn cael effaith andwyol ar gymunedau lleol.

Mae'n gynyddol anodd trefnu adnoddau'r heddlu a phan fo'n rhaid i CNC atafaelu dogfennau ei hun, rhaid iddo wneud hynny'n gyflym ac yn ddiogel er mwyn osgoi cael ei herio. Disgwylir y bydd y newidiadau i adran 108 yn arbed arian i bwrs y wlad o ran adnoddau CNC a'r heddlu.

Mae'n newid generig i bwerau mynediad ac atafaelu tystiolaeth a fydd ar gael i CNC i'w defnyddio mewn meysydd polisi eraill.

Bydd CNC yn parhau i orfod cydymffurfio â'i Bolisi Gorfodi ac Erlyn a Chod y Rheoleiddwyr, a bydd hynny'n helpu i sicrhau y bydd y pwerau ychwanegol yn cael eu defnyddio'n deg a chymesur.

Cwestiynau

Cwestiwn 26

Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel ei bod yn:

- cael gwared ar yr angen i roi 7 diwrnod o rybudd i'r person sy'n meddiannu'r eiddo;
- cadw'r angen am warant;
- ehangu'r disgrifiad o'r wybodaeth y gellir ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei darparu;
- darparu'r gallu i symud deunydd o'r eiddo (a'i gadw) i'w archwilio, gan gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i storio'n electronig?

Gwastraff - Sanctsiynau o dan Adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (DDA).

Pa faterion sy'n cael eu hystyried?

Pennwyd targedau adennill statudol (ailgylchu, paratoi ar gyfer aildddefnyddio a chompostio) ar gyfer awdurdodau lleol o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010. Mae'r rhain yn dilyn targedau anstatudol a bennwyd mewn strategaethau gwastraff cenedlaethol olynol ar gyfer Cymru.

Mae'r targedau hyn wedi sbarduno gwelliant enfawr mewn cyfraddau ailgylchu trefol, gydag awdurdodau lleol yn cyflwyno casgliadau ar wahân o ddeunyddiau ailgylchadwy a gesglir, gan gynnwys bwyd, er mwyn cyrraedd y targedau. Mae'r cynnydd mewn ailgylchu wedi arwain at arbedion ariannol sylweddol i awdurdodau lleol drwy osgoi costau gwaredu a mwy o incwm o werthu deunyddiau.

Er gwaethaf hyn, mae bron hanner y deunydd sy'n cael ei roi mewn cynwysyddion gwastraff gweddilliol (biniau olwynion neu sachau) yn ddeunydd y gellir ei ailgylchu'n hawdd. Mae annog deiliaid tai i ailgylchu'r deunydd hwn yn hytrach na'i roi mewn cynwysyddion gwastraff gweddilliol yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol, er mwyn cyrraedd targedau a lleihau costau gwaredu. Er bod ymdrechion parhaus i godi ymwybyddiaeth ac addysgu deiliaid tai, mae llawer o awdurdodau lleol yn ystyried gorfodi fel y prif fodd o gael pobl i ddargyfeirio deunyddiau ailgylchadwy o'r gwastraff gweddilliol.

Mae gan awdurdodau lleol bwerau o dan adran 46(4) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i gyflwyno hysbysiadau i ddeiliaid tai yn dweud wrthynt i roi deunyddiau penodol mewn cynwysyddion penodol. Mae'r pwerau hyn yn galluogi awdurdodau lleol i gyflwyno hysbysiad hefyd i ddweud pa ddeunyddiau na ddylid eu rhoi mewn cynwysyddion gwastraff gweddilliol:

Adran 46(4)(d) "the substances or articles which may or may not be put into the receptacles or compartments of receptacles of any description and the precautions to be taken where particular substances or articles are put into them"

Mae swyddogion rhai awdurdodau lleol wedi mynegi pryderon ynghylch pa mor ddefnyddiol yw adran 46 o safbwynt gweithredol oherwydd cymhlethdod y broses sy'n ymwneud â gosod sanctsiynau troseddol ar ddeiliaid tai nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion hysbysiad.

Y Sefyllfa Bresennol

Os nad yw deiliad tŷ'n cydymffurfio â darpariaethau adran 46 gall awdurdod lleol ei erlyn drwy'r llysoedd, ac os yw'n cael ei ddyfarnu'n euog gall gael ei ddirwyo.

Adran 46(6) "A person who fails, without reasonable excuse, to comply with any requirements imposed under subsection (1), 1A), (3)(c) or (d) or (4) above shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale"

Mae swyddogion rhai awdurdodau lleol wedi dadlau y gallai pwerau adran 46 gael eu defnyddio'n fwy helaeth pe na bai'r broses o ymdrin â diffyg cydymffurfio yn cael ei chyfyngu i erlyn yn unig.

Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno sancsiynau sifil am beidio â chydymffurfio ag adran 46, gan alluogi awdurdodau lleol i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig i ddeiliaid tai nad ydynt yn cydymffurfio â rhybuddion yn hytrach na'u herlyn drwy'r llysoedd. Cynigir y bydd awdurdodau lleol yn cadw pwerau i erlyn deiliaid tai drwy'r llysoedd.

Cynnig 46

Diwygio adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i alluogi awdurdodau lleol i gyhoeddi hysbysiad cosb benodedig am fethu â chydymffurfio â hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid tai roi deunyddiau penodedig mewn cynhwysyddion penodedig.

Pa ganlyniadau rydym yn eu rhagweld?

Disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn cynyddu lefelau gorfodi mewn perthynas â hysbysiadau adran 46 gan y bydd cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig yn ddewis cyflymach a symlach nag erlyn drwy'r llysoedd. Bydd hynny'n arwain at fwy o ddeunydd ailgylchadwy'n cael ei ddargyfeirio o wastraff gweddilliol, a bydd hynny, yn ei dro, yn gwella perfformiad o ran ailgylchu ac yn arwain at fwy o arbedion i awdurdodau lleol.

Cwestiynnau

Cwestiwn 27

Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 fel ei bod yn cynnwys y dewis i Awdurdodau Lleol gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig am beidio â chydymffurfio â hysbysiadau yn hytrach na gorfod erlyn drwy'r llysoedd?

Yr Amgylchedd – Taflu sbwriel o gerbydau

Pa faterion sy'n cael eu hystyried?

Mae sbwriel ar ochr y ffordd yn anodd ei symud ac yn beryglus i'w symud yn aml ac mae'n golygu cost sylweddol i'r trethdalwr. Mae adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus⁵⁸ yn amcangyfrif bod casglu a gwaredu sbwriel ar ochr y ffordd yng Nghymru yn costio tua £3.5 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi nad yw'r ffigur hwn yn cynnwys effaith economaidd ychwanegol cau ffyrdd a thagfeydd traffig – y naill a'r llall yn ganlyniadau anochel i geisio glanhau'r ardaloedd hyn.

Er mwyn helpu i fonitro lefelau sbwriel yng Nghymru, mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnal arolwg blynyddol o lendid strydoedd yn ardal pob awdurdod lleol, ac ar gyfer 2016/17 fe wnaethant adrodd bod 95.5% o'r strydoedd a arolygwyd yn radd B ac uwch (strydoedd yw'r rhain a ystyrir yn dderbyniol o ran glendid i aelodau'r cyhoedd)⁵⁹. Fodd bynnag, er bod yr arolygon hyn yn cynnig cipolwg defnyddiol o dueddiadau o ran sbwriel ledled Cymru, nid ydynt yn cynnwys priffyrdd na chylchfannau mawr, oherwydd y risgiau diogelwch a'r costau cysylltiedig. Mae cyfyngiadau ac anawsterau tebyg yn golygu hefyd nad yw awdurdodau lleol yn casglu data'n gyson wrth glirio sbwriel ar ochr y ffordd; felly nid oes llawer o dystiolaeth gadarn, wyddonol i helpu i bwyso a mesur natur a maint y broblem. Fodd bynnag, nid yw'r heriau hyn yn unigryw i Gymru ac oherwydd natur gymhleth sbwriel ar ochr y ffordd, mae cael un dull costeffeithiol o gasglu'r wybodaeth angenrheidiol yn anodd.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn o ran data mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r pryder cynyddol ymhlith y cyhoedd am sbwriel ar ochr y ffordd a'i effaith ar ansawdd eu hamgylchedd lleol. Nid yw'r pryderon yn gyfyngedig i'r effeithiau andwyol posibl ar fywyd gwyllt ond maent yn ymwneud hefyd â'r effaith ehangach ar les pobl mewn cymunedau ledled Cymru ac ar eu heconomiâu lleol, yn enwedig y rheini sy'n dibynnu ar dwristiaeth.

Gorfodi yng Nghymru

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol i sicrhau bod priffyrdd, llwybrau cerdded cyhoeddus ac ardaloedd hamdden yn cael eu cadw'n glir o sbwriel. Mae taflu sbwriel, gan gynnwys o gerbyd, yn drosedd o dan adran 87 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (DDA 1990)⁶⁰ a gall arwain at erlyniad a dirwy o hyd at £2,500. O dan adran 88 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, os oes gan swyddog awdurdodedig awdurdod lleol reswm dros gredu bod rhywun wedi cyflawni tramgwydd o dan adran 87, gellir rhoi cyfle i'r person hwnnw gael ei ryddhau o'r atebolrwydd drwy dalu Hysbysiad Cosb Benodedig (HCB). Os nad yw'r HCB yn cael ei dalu gall y troseddwr gael ei erlyn drwy'r llysoedd troseddol ac, o'i gael yn euog, byddai'n rhaid iddo dalu dirwy fwy sylweddol na'r HCB. Byddai'n golygu y byddai ganddo gofnod troseddol hefyd.

Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol wedi dweud bod gweld, adnabod a phrofi'r drosedd o daflu sbwriel o gerbydau yn anodd, yn enwedig pan fyddant yn symud⁶¹. Gall hon fod yn

⁵⁸ Cadwch Gymru'n Daclus, "Tackling Litter On Our Roads", Mawrth 2015

⁵⁹ Cadwch Gymru'n Daclus, "How Clean Are Our Streets?: The All Wales Local Environmental Audit and Management System Report 2016-17"

⁶⁰ Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Adran 87 (Offence of leaving litter) ac Adran 88 (Fixed Penalty Notices for Leaving Litter)

⁶¹ Cadwch Gymru'n Daclus, "Tackling Litter On Our Roads", Mawrth 2015

fwy o broblem lle mae teithiwr (neu deithwyr) yn y cerbyd ac nad yw'r swyddog yn gallu gweld pwy'n union sydd wedi cyflawni'r drosedd. Gan nad oes rheidrwydd cyfreithiol ar geidwad cofrestredig i ddatgelu pwy daflodd y sbwriel o'r cerbyd, gall cymryd camau gorfodi pellach fod yn anodd. Rhwystyr ychwanegol a gaiff ei grybwyll yn aml yw'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i gasglu digon o dystiolaeth i gymryd camau gorfodi⁶². O ganlyniad, y sefyllfa, yn aml, yw nad yw'r pwerau presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio ddigon ac nad oes llawer o gamau gorfodi'n cael eu cymryd mewn perthynas â thafu sbwriel o gerbydau.

Dyna'r rhesymau pam y mae Llywodraeth Cymru bellach yn ystyried a oes angen pwerau deddfwriaethol newydd i helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thafu sbwriel o gerbydau.

Y Sefyllfa Bresennol

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod tafu sbwriel yn fater y dylid ei gymryd o ddifrif a'i phrif nod yw ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae ein camau gweithredu i fynd i'r afael â'r broblem yn seiliedig ar ddulliau cydweithredol, gan weithio gyda sefydliadau partner allweddol i helpu i newid agweddau ac ymddygiad y cyhoedd drwy addysg a thrwy gynnwys y gymuned. Credwn y bydd annog pobl i ymfalchio yn eu hamgylchedd lleol, ac i weithredu eu hunain, yn arwain at welliannau a fydd yn para'n hirach. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod hefyd fod trefn orfodi effeithiol yn angenrheidiol i atal yr unigolion hynny sy'n benderfynol o dorri'r gyfraith ac i gymell eraill i beidio â gwneud hynny.

Fel y nodwyd eisoes gellir rhoi Hysbysiadau Cosb Benodedig i'r bobl hynny sy'n cael eu dal yn tafu sbwriel o gerbydau, fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o bryderon ynghylch y rhwystrau a'r cyfyngiadau posibl sy'n gysylltiedig â'r dull gorfodi hwn. Yn Llundain, mae pwerau ar gael o dan Adran 24 o'r London Local Authorities Act 2007⁶³ (diwygiwyd yn 2012) sy'n galluogi Cyngorau Llundain i gyflwyno Hysbysiadau Tâl Cosb (PCNs) i geidwad cofrestredig cerbyd pan fo gan swyddog gorfodi reswm dros gredu bod sbwriel wedi'i daflu o'r cerbyd yn groes i adran 87 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Yn y bôn, perchennog cofrestredig y cerbyd sy'n gyfrifol am weithredoedd pawb yn y cerbyd.

Dirwy sifil yw Hysbysiad Tâl Cosb ac, yn wahanol i gosb droseddol megis HCB, nid yw'n arwain at risg o erlyniad troseddol. Os bydd y ceidwad cofrestredig yn teimlo nad yw'n atebol gall apelio i'r Fwrdeistref ac, os yw'r apêl yn cael ei gwrthod, gall gyflwyno apêl i ddyfarnwr traffig. Os nad yw'r tâl a godir yn cael ei dalu, gall y Fwrdeistref ei adennill fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys sirol⁶⁴.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu estyn y pwerau hyn i bob awdurdod lleol yn Lloegr drwy gyfrwng diwygiad i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, gan fewnosod adran 88A newydd, a wneir drwy adran 154 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014⁶⁵. Mae'r diwygiad hwn yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau, ac o dan y rheoliadau hynny, gellir cyflwyno gofyniad i geidwad cerbyd dalu Hysbysiad Tâl Cosb i awdurdod sbwriel os oes rheswm i gredu bod trosedd tafu sbwriel wedi'i chyflawni mewn perthynas â'r cerbyd (heb unrhyw angen i wybod pwy yw'r unigolyn a daflodd y sbwriel). Fodd bynnag, nid yw'r pwerau hyn wedi'u cychwyn hyd yma, ac ar hyn o bryd

⁶² [Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig "Scoping study to guide research into littering from vehicles - EQ0109"](#)

⁶³ [London Local Authorities Act 2007](#).

⁶⁴ [Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig "Scoping study to guide research into littering from vehicles - EQ0109"](#)

⁶⁵ [Anti-social Behaviour Crime and Policing Act 2014](#)

mae'r DU yn ymgynghori ar gynigion i gyflwyno is-ddeddfwriaeth a fyddai'n dod â'r pwerau hyn i rym ac yn gwneud darpariaethau manwl mewn perthynas â Hysbysiadau Tâl Cosb dan amgylchiadau o'r fath. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yn awr a ddylai pwerau tebyg fod ar gael yng Nghymru.

Mae taflu sbwriel yn drosedd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd, ac os yw person yn euog o'r drosedd gellir rhoi hysbysiad cosb benodedig o £80 iddo, neu gallai gael ei erlyn gyda'r risg o ddirwy o hyd at £2,500. Nid oes unrhyw ddarpariaethau gorfodi ychwanegol yn y naill wlad na'r llall sy'n ymwneud yn benodol â thaflu sbwriel o gerbydau.

Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?

Fel y nodwyd eisoes, mae'n anodd cael data cywir ar lefel y sbwriel ar ochr y ffordd ar hyn o bryd, fodd bynnag mae yna dybiaeth gyffredinol ei fod ar gynnydd⁶⁶ a bod hyn yn cael effaith negyddol ar ein hamgylchedd lleol. Er bod gan awdurdodau lleol Cymru nifer o bwerau gorfodi y gallant eu defnyddio, maent wedi mynegi pryderon nad yw'r rhain yn effeithiol wrth geisio mynd i'r afael â thaflu sbwriel o gerbydau⁶⁷.

Er mwyn helpu i benderfynu ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r pryderon hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi bwrw golwg dros y newidiadau deddfwriaethol sydd wedi'u gwneud mewn rhannau eraill o'r DU, ac yn enwedig y pwerau sydd ar gael yn Llundain. Ar hyn o bryd, mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yn ymgynghori ar estyn pwerau hyn i weddill Lloegr a bydd Llywodraeth Cymru'n monitro canlyniad y broses honno⁶⁸.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n casglu tystiolaeth ar hyn o bryd er mwyn helpu i lunio ein polisiâu ar gyfer mynd i'r afael â thaflu sbwriel o gerbydau a byddai'n falch o gael clywed eich barn er mwyn iddi fedru penderfynu a ddylid dilyn trywydd tebyg i Loegr yng Nghymru, neu a oes angen ystyried dewisiadau eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno pwerau ychwanegol yng Nghymru a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol roi cosb ariannol i geidwad cofrestredig cerbyd os credir bod person(au) y tu mewn i'r cerbyd wedi cyflawni trosedd taflu sbwriel. Yn wahanol i achosion lle mae Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei roi am drosedd taflu sbwriel, ni fyddai angen cadarnhau pwy yw'r unigolyn a daflodd y sbwriel cyn rhoi cosb o'r fath. Byddai'n ddigon, at ddibenion rhoi cosb ariannol, i brofi'n unig fod y sbwriel wedi'i daflu o'r cerbyd dan sylw. Byddai hyn yn golygu bod ceidwad cofrestredig y cerbyd yn gyfreithiol gyfrifol am y sbwriel a daflwyd gan y person(au) a gallent gael eu dirwyo hyd yn oed os nad oeddent yn y cerbyd pan ddigwyddodd y drosedd taflu sbwriel.

Fodd bynnag, ein prif nod yw sicrhau bod yr adnoddau gorfodi mwyaf effeithlon ac effeithiol ar gael i awdurdodau lleol, ac felly byddem yn falch o gael clywed eich barn ynghylch a allai newidiadau deddfwriaethol eraill gael eu rhoi ar waith yng Nghymru.

⁶⁶ [Cadwch Gymru'n Daclus. "Tackling Litter On Our Roads", Mawrth 2015](#)

⁶⁷ [Cadwch Gymru'n Daclus. "Tackling Litter On Our Roads", Mawrth 2015](#)

⁶⁸ [Ymgynghoriad Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyflwyno Hysbysiadau Tâl Cosb am daflu sbwriel o gerbydau yn Lloegr.](#)

Cynnig 47

Galluogi awdurdodau lleol i roi cosb benodedig i geidwad cofrestredig y cerbyd os credir bod person(au) y tu mewn i'r cerbyd hwnnw wedi cyflawni trosedd taflu sbwriel.

Pa ganlyniadau rydym yn eu rhagweld?

Cynigir y byddai trefn orfodi newydd yn ffordd effeithlon o ddefnyddio adnoddau awdurdodau lleol, gan ddarparu “arf” ychwanegol iddynt fynd i'r afael â thaflu sbwriel. Byddai'n helpu i'w atal hefyd oherwydd y byddai awdurdodau lleol yn fwy tebygol o ymgymryd â gweithgarwch gorfodi, a gallai hynny, yn ei dro, arwain at lai o sbwriel yn cael ei daflu o gerbydau. Mantaïs ychwanegol gostyngiad o'r fath fyddai llai o gostau i awdurdodau lleol o ran trefnidadau clirio sbwriel a byddai'n helpu i wella amwynderau a diogelwch ar ochr y ffordd.

Cwestiynau

Cwestiwn 28

Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno pwerau yng Nghymru a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol allu rhoi cosb ariannol i geidwad cofrestredig cerbyd os yw sbwriel wedi cael ei daflu o'r cerbyd hwnnw, ni waeth a yw'n hysbys ai peidio pwy yw'r unigolyn a gyflawnodd y drosedd taflu sbwriel ?

A oes newidiadau deddfwriaethol amgen y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried i helpu i fynd i'r afael â thaflu sbwriel o gerbydau?

Pennod 8: Rheoleiddio Mwy Craff – Rôl Mesurau Sylfaenol

Pa faterion sy'n cael eu hystyried?

Mae arferion rheoli tir trefol a gwledig yn cael effeithiau mawr ar ein hamgylchedd. Un mater o'r fath yw llygredd gwasgaredig, sef llygryddion sy'n cael eu rhyddhau o ganlyniad i wahanol weithgareddau sydd, ar eu pennau eu hunain, yn annhebygol o gael effaith ar gydnerthedd ein hecosystemau neu'n hadnoddau naturiol ond sydd, gyda'i gilydd, yn gallu cael effaith sylweddol. Er enghraifft, gall effeithiau ar ddŵr arwain at gynnydd yng nghostau trin dŵr yfed.

Mae amaethyddiaeth yn ffynhonnell allweddol o lygredd gwasgaredig, ond mae tir trefol, coedwigaeth, gwaddodiad atmosfferig ac anheddau gwledig yn gallu bod yn ffynonellau pwysig hefyd. O ran ei natur, mae'r gwaith o reoli llygredd gwasgaredig yn gallu bod yn gymhleth, ac mae angen dadansoddi a deall y gwahanol brosesau naturiol a dynol yn ofalus.

Mae cymhlethdod ac amrywioldeb daearyddol dalgylchoedd ledled y wlad, er enghraifft, yn golygu na fydd un cyfres o fesurau yn briodol i bob achos. I fynd i'r afael ag effeithiau llygredd gwasgaredig, mae angen dulliau rheoleiddio newydd sy'n fwy craff ac yn gymesur.

Y Sefyllfa Bresennol

Mae mesurau sylfaenol yn darparu amodau uniongyrchol neu safonau gofynnol ar gyfer cynnal gweithgareddau risg isel penodol, ac ar gyfer sicrhau eu bod yn cael eu cynnal mewn ffordd briodol. Maent yn waelodlin statudol sy'n rhoi lefel gyffredinol o ddiogelwch amgylcheddol ac sy'n helpu i gynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau. Mewn gwirionedd, maent yn gallu sicrhau dull cyson o weithredu, a rhoi chwarae teg i fusnesau, ac maent yn helpu i gyflawni canlyniad amgylcheddol dymunol. Maent yn gallu egluro hefyd beth sy'n cael ei ganiatáu, ac nad yw'n cael ei ganiatáu, yn yr amgylchedd ffisegol.

Mae gweithgareddau risg isel yn digwydd yn amlach (fe'u cyflawnir gan nifer fawr o bobl/sefydliadau) ond, ar eu pennau eu hunain, ychydig iawn o effaith y maent yn ei chael ar ein hecosystemau a'n hadnoddau naturiol. Er hynny, maent, gyda'i gilydd, yn gallu cael effaith sylweddol.

Mae mesurau sylfaenol yn rhoi inni ddull lefel is o reoleiddio gweithgareddau, ac nid oes angen trwyddedau neu gydsyniadau ffurfiol ar rai ohonynt bob amser. Mae hon yn ffordd gymesur, gyson a phenodol o reoleiddio gweithgareddau risg isel, sy'n helpu i gyfrannu at reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru).

Mae gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig rai pwerau i wneud y rheolau hyn yn barod, er enghraifft, yn Neddf Adnoddau Dŵr 1991 neu o dan Gyfarwydddebau'r UE megis y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Fodd bynnag, efallai y bydd yna weithgareddau risg isel eraill y byddai'n briodol eu rheoleiddio drwy fesurau sylfaenol.

Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?

Rydym yn ystyried ymarferoldeb rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru fel y gallant, drwy is-ddeddfwriaeth, wneud darpariaeth ar gyfer mesurau sylfaenol mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Byddai'r pŵer galluogi yn cyfyngu ar gwmpas y pwerau hynny a byddai'n rhaid wrth offeryn statudol o hyd er mwyn pennu hyd a lled y mesurau hynny, felly byddai'n dal i fod yn destun proses ddeddfwriaethol.

Mae gwaith ymgysylltu â CNC a rhanddeiliaid eraill yn awgrymu y gallai mesurau sylfaenol helpu i leihau biwrocratiaeth, galluogi datblygiad a diogelu'r amgylchedd. Yn y rhan fwyaf o achosion, ychydig iawn o gamau, os o gwbl, y byddai angen i bobl a sefydliadau cyfrifol eu cymryd i gydymffurfio â'r rheolau, gan y byddent yn seiliedig ar arferion da cyffredin. Mae'n debygol y byddai'r rheini sy'n torri'r rheolau yn cael cosb sifil gymesur neu hysbysiadau cosb benodedig neu amrywiadwy.

Mae ein gwaith ymgysylltu wedi nodi rhai gweithgareddau lle gallai mesurau sylfaenol fod yn addas, gan gynnwys:

- Ansawdd dŵr a chyflwyno mesurau sylfaenol ar gyfer rheoli tir yng nghyd-destun lleihau llygredd amaethyddol, sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth ar gyfer mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig yn y Strategaeth Ddŵr;
- Gallai dull seiliedig ar risg sy'n galluogi hyblygrwydd o ran rheoli tir ac sydd, ar yr un pryd, yn sicrhau bod yr amgylchedd yn dal i gael ei ddiogelu, fod yn ddewis amgen o dan amgylchiadau penodol yn lle gofynion y gyfundrefn drwyddedu bresennol ar gyfer cwmpo coed, lle mae'n rhaid, ac eithrio o dan ychydig iawn o amgylchiadau, gael trwydded benodol i gwmpo coed sy'n tyfu
- Amaethyddiaeth, er mwyn diogelu ansawdd dŵr, aer a phridd.

Cwestiynau

Cwestiwn 29

A ddylid cyflwyno mesurau sylfaenol fel ffordd o reoleiddio gweithgareddau risg isel? Ystyriwch pa fath o weithgareddau fyddai'n elwa ar gael eu rheoleiddio drwy fesurau sylfaenol.

Pennod 9 - Amaethyddiaeth

Pa faterion sy'n cael eu hystyried?

Mae Llywodraeth Cymru yn holi barn ynghylch a ddylid ystyried estyn awdurdodaeth Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (TTA Cymru) i gynnwys anghydfodau y pennir ar hyn o bryd eu bod yn rhai y gellir eu cyfeirio i'w cymrodeddu o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 (DDA). O dan ddarpariaethau presennol y DDA, pennir mai Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) yw'r corff statudol sy'n darparu gwasanaethau cymrodeddu. Er mwyn galluogi TTA Cymru i ymgymryd â swyddogaethau ychwanegol sy'n destun cymrodeddu ar hyn o bryd, byddai angen diwygio'r DDA.

Y Sefyllfa Bresennol

Mae TTA Cymru, a sefydlwyd o dan Adran 73 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1947, yn penderfynu'n bennaf ar faterion sy'n deillio o gymhwyso'r DDA. Mae enghreifftiau o geisiadau i TTA Cymru yn cynnwys y rheini a wneir mewn perthynas ag achosion o anghydfod ynghylch olyniaeth tenantiaeth, cyflwyno tystysgrif hwsmonaeth wael i denant a chyflwyno gorchymyn i landlord atgyweirio neu ddarparu offer sefydlog. Yn ogystal, mae gan TTA Cymru yr awdurdod i wneud gorchmynion yn ymwneud â draenio tir o dan Ddeddf Draenio Tir 1991.

TTA Cymru:

- Mae ganddo awdurdodaeth dros ardal ddaearyddol Cymru fel y nodir yng Ngorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Ardaloedd) 1982 (OS 1982/97).
- Caiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ond mae ei aelodau a'i benderfyniadau yn annibynnol ar y Llywodraeth.
- Mae iddo ddwy ran; yr ysgrifenyddiaeth ac aelodau'r tribiwnlys. Mae'r naill a'r llall yn gweithio gyda'i gilydd, yn ystod y broses ymgeisio gan gyflawni swyddogaethau gwahanol. Rôl aelodau'r tribiwnlys yw gwrandao ar geisiadau a phenderfynu arnynt. Rôl yr ysgrifenyddiaeth yw cyflawni dyletswyddau gweinyddol sy'n cynnwys prosesu ceisiadau ac apelau.
- Penodir cadeirydd y tribiwnlys gan yr Arglwydd Ganghellor a rhaid iddo fod yn fargyfreithiwr neu'n gyfreithiwr ag o leiaf saith mlynedd o brofiad. Penodir aelodau'r panel gan yr Arglwydd Ganghellor hefyd.
- Rheolir gwrandawiadau tribiwnlysoedd gan y cadeirydd neu'r dirprwy gadeirydd, a rhaid bod ganddynt gymhwyster cyfreithiol hefyd. Byddant yn ysgrifennu penderfyniadau, yn cynghori ynghylch gohiriadau ac yn rhoi cyfarwyddiadau pan fo angen. Mae aelodau'r panel yn bresennol yn y gwrandawiadau hefyd.

Ar hyn o bryd, mae TTA Cymru⁶⁹ yn ystyried tua 20 o achosion y flwyddyn. Ni chodir tâl gweinyddol ar ymgeiswyr a chynigir gwasanaeth y Tribiwnlys am ddim i bawb. Gall TTA Cymru ystyried achosion drwy weithdrefn ysgrifenedig neu wrandawriad llafar.

Y broses gymrodeddu o dan y DDA

Cymrodeddu yw'r prif ddull o ddatrys anghydfod o dan y DDA. Mae darpariaethau Deddf Cymrodeddu 1996 yn berthnasol i unrhyw gymrodeddu a gynhelir o dan y DDA, yn amodol ar y gofynion a nodir yn y Ddeddf.

Gall y tenant a'r landlord wneud cais am gymrodeddu i RICS, y corff sy'n darparu gwasanaethau cymrodeddu o dan y DDA. Mae yna ffi weinyddol, sy'n £115 ar gyfer pob cais ar hyn o bryd. Caiff y cymrodeddwr ei benodi drwy gytundeb rhwng y partïon neu, os oes diffyg cytundeb, gan RICS.

Mae'r cymrodeddwr yn adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd, gan weithredu mewn rôl lled-farnwrol, ac yn gwneud y penderfyniad terfynol. Er nad yw cymrodeddu yn achos llys llawn, mae'r partïon yn debygol o benodi cynrychiolwyr cyfreithiol i gyflwyno eu hachos mewn gwrandawriad. Gall tystion arbenigol gael eu galw i roi tystiolaeth. Mae penderfyniadau cymrodeddu yn gyfrwymol, fodd bynnag, gall partïon ddod i gytundeb yn ystod unrhyw gam o'r broses.

Ar wahân i'r ffi am y cais cychwynnol, mae costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r broses, megis ffioedd y cymrodeddwr a ffioedd cyfreithiol. Gan ddibynnu ar yr anghydfod, gall y gost fod mor uchel â £25,000 mewn achosion eithafol. Mae cymrodeddu'n broses faith fel arfer, a gall barhau am ddwy i dair blynedd.

Penderfyniad gan Drydydd Parti

Cyflwynwyd penderfyniad gan drydydd parti, fel ffurf amgen o ddatrys anghydfod (h.y. yn ychwanegol at gymrodeddu), gan Ddeddf Dadreoleiddio 2015. Mae hyn yn caniatáu i faterion cymrodeddu gorfodol (gweler Atodiad IV) gael eu penderfynu gan drydydd parti, ar yr amod bod y landlord a'r tenant yn gallu cytuno ar bwy all gael ei benodi'n arbenigwr i ddatrys y problemau penodol rhyngddynt. Bwriad hyn yw moderneiddio'r gyfundrefn DDA ac arwain at ddatrys anghydfodau'n gyflymach ac mewn ffordd llai costus.

Tystiolaeth ar gyfer newid

Mae darpariaethau cymrodeddu'r DDA yn cael eu hystyried yn ffordd gostus ac araf o ddatrys anghydfodau sy'n codi rhwng landlord a thenant. Gall cost uchel a hyd disgwylledig cymrodeddu, ynghyd â'r gwrthdaro sy'n rhan o'r broses, olygu nad yw'r dull hwn o ddatrys anghydfodau yn un deniadol. Ar hyn o bryd, landlordiaid sy'n fwy tebygol o wneud cais i fater gael ei ddatrys drwy gymrodeddu, yn enwedig yn achos adolygiadau rhent a all gael effaith uniongyrchol ar eu hincwm. Mae tenantiaid, yn enwedig y rheini ar incwm isel, yn annhebygol o ddilyn y trywydd cymrodeddu.

⁶⁹ Mae rhagor o wybodaeth am gylch gwaith TTA Cymru ac am y ffordd y mae'n gweithio i'w gweld ar wefan y Tribiwnlys: <http://alt.gov.wales/?lang=cy>.

Mae sicrhau bod gan bob dinesydd yng Nghymru fynediad teg at gyfiawnder yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Byddai cael gwared ar y gofyniad neu'r opsiwn o gyfeirio at wasanaeth cymrodeddu a rhoi'r swyddogaeth hon i TTA Cymru yn caniatáu i safbwynt pob tenant a landlord gael ei glywed a'i ystyried yn llawn am gost is o lawer, a hynny am mai Llywodraeth Cymru sy'n ariannu gwaith TTA Cymru.

Mae TTA Cymru yn uchel ei barch yn y gymuned ffermio ac mae gan y Tribiwnlys yr arbenigedd a'r wybodaeth i ymdrin ag anghydfodau sy'n ymwneud â chytundebau tenantiaeth ysgrifenedig. Gallai newid deddfwriaethol sicrhau bod tenantiaid a landlordiaid yng Nghymru ar eu hennill mewn sawl ffordd. Yn benodol, byddai'n golygu y byddai modd datrys anghydfodau mewn ffordd fwy effeithlon, yn gynt ac am lai o bost mewn ffordd a fyddai'n hygyrch i bawb.

Yn hytrach na chael un cymrodeddwr yn penderfynu ar yr achos, caiff y Tribiwnlys ei sefydlu fel Panel o dri, gyda Chadeirydd â chymwysterau cyfreithiol a dau aelod sy'n cynrychioli'r sector amaethyddol. Yn hytrach na sefyllfa hynod ddadleugar a gelyniaethus, byddai TTA Cymru yn gweithredu mwy fel cyfryngwr, gan ystyried yr holl dystiolaeth sy'n berthnasol i'r anghydfod a dod i gonsensws rhwng aelodau'r panel.

Cynnig 48

Rydym yn holi barn i weld a fyddai'n fanteisiol estyn awdurdodaeth TTA Cymru i gynnwys materion sydd, ar hyn o bryd, yn rhai y mae'r DDA yn pennu y dylent fod yn destun cymrodeddu, ac i ddiwygio DDA 1986 er mwyn cyflawni hynny.

Rydym yn ystyried yr opsiynau canlynol:

- Newid cylch gwaith a swyddogaethau TTA Cymru yng Nghymru
- Cadw'r system bresennol sy'n caniatáu ar gyfer cymrodeddu o dan y Ddeddf Daliadau Amaethyddol a phenderfyniad gan drydydd parti, fel dewis amgen, er mwyn datrys anghydfodau tenantiaeth, o dan ddarpariaethau Deddf Dadreoleiddio 2015.

Credwn y bydd hyn yn cyflawni'r canlynol:

- System gyfiawnder decach a mwy hygyrch ar gyfer datrys anghydfodau sy'n gysylltiedig â thenantiaethau amaethyddol a wneir o dan y DDA.
- Datrys anghydfodau sy'n ymwneud â chytundebau tenantiaeth amaethyddol yn gynt.

Cwestiynau

Cwestiwn 30

A ddylid estyn awdurdodaeth Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru?

Pennod 10 - Bywyd Gwylt

Pa faterion sy'n cael eu hystyried?

Rydym yn ceisio barn ynghylch ac yw Cod Ymarfer presennol Llywodraeth Cymru yn ffordd effeithiol o reoli'r modd y mae maglau'n cael eu rheoleiddio. Rydym yn ceisio barn hefyd ynghylch a yw'r dulliau o ladd neu gymryd anifeiliaid gwylt y darperir ar eu cyfer yn Neddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, a'r gofynion penodol yn ymwneud â'r defnydd o faglau a osodir drwyddi, yn briodol.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu Cod Ymarfer i wella arferion defnyddwyr maglau wrth reoli llwynogod, rydym yn ystyried a oes angen camau rheoleiddio pellach ar ben y rheolaethau presennol sy'n ymwneud â'r defnydd o faglau, a hynny er mwyn gwella safonau lles anifeiliaid.

Y Sefyllfa Bresennol

Pan fo maglau'n cael eu defnyddio'n briodol, dylent ddarparu dull cyfreithlon ac ymarferol o reoli plâu. Maent yn ffordd o ddal anifeiliaid, megis llwynogod, yr ystyrir yn gyffredin eu bod yn rhywogaeth sy'n bla, a rhai fel cwningod, sy'n bla amaethyddol a hefyd yn ffynhonnell fwyd. O'u defnyddio'n briodol, gall maglau fod yn effeithiol ac maent yn cael eu defnyddio'n eang gan ffermwyr, ciperiaid a rheolwyr tir eraill. Mae'r fframwaith rheoleiddio sy'n gysylltiedig â maglau'n cynnwys:

Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (adran 11) – o dan y Ddeddf hon, mae'n drosedd gosod unrhyw fagl hunan-gloi sy'n fagl o fath a osodir yn y fath fodd fel mai ei nod yw achosi anaf corfforol i unrhyw anifail gwylt sy'n dod i gysylltiad â hi. Mae'n gwahardd defnyddio unrhyw fagl hunan-gloi er mwyn lladd neu ddal unrhyw anifail gwylt. Ar gyfer unrhyw anifail gwylt sydd wedi'i gynnwys yn Atodlen 6, mae'n anghyfreithlon gosod unrhyw fagl sydd â'r nod o achosi anaf corfforol neu y bwriedir ei defnyddio i ladd neu gymryd yr anifeiliaid hynny. Mae hefyd yn drosedd defnyddio unrhyw fagl sy'n fagl o fath a osodir yn y fath fodd fel mai ei nod yw achosi anaf corfforol i unrhyw anifail sy'n dod i gysylltiad â hi; a thra bo'r fagl yn parhau yn ei lle, mae'n drosedd peidio (heb esgus rhesymol) ei harchwilio unwaith bob dydd.

Deddf Lles Anifeiliaid 2006 – mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn ei gwneud yn drosedd i berson achosi dioddefaint diangen i anifail sydd dan eu rheolaeth (adran 4). Mae hyn yn berthnasol i anifail mewn magl. Mae Deddf 2006 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi codau ymarfer ar anghenion lles anifeiliaid. Nid yw methu â chydymffurfio â chod o'r fath yn drosedd ynddo'i hun. Fodd bynnag, gall methiant i gydymffurfio â darpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer gael ei ddefnyddio gan lys fel ymddygiad sy'n tueddu i gadarnhau atebolrwydd. Mae cod Llywodraeth Cymru, 'Cod ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid', yn god statudol a gyhoeddwyd o dan Adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

Deddf Ceirw 1991 – mae Adran 4 o Ddeddf Ceirw 1991 yn gwahardd defnyddio maglau i ddal, lladd neu achosi niwed corfforol i geirw.

Deddf Diogelu Mamaliaid Gwylt 1996 – mae adran 1 o'r ddeddf hon yn gwahardd gweithredoedd treisgar sydd â'r bwriad o achosi dioddefaint diangen i famaliaid gwylt.

Tystiolaeth ar gyfer newid

Comisiynodd DEFRA yr Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (FERA) i gynnal ymchwil ar y defnydd o faglau yng Nghymru a Lloegr. Cyhoeddwyd eu hadroddiad, 'Determining the Extent of Use and Humaneness of Snares in England and Wales'⁷⁰ yn 2012. Dangosodd y gwaith ymchwil hwn fod anifeiliaid sy'n cael eu dal mewn maglau yn dioddef yn ddiangen a thynnodd sylw at y ffaith nad yw pobl yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar ddefnyddio maglau i reoli llwynogod a chwingod a ddatblygwyd gan Weithgor Annibynnol ar faglau yn 2005. Cod anstatudol oedd hwn a oedd yn pennu arferion gorau. Roedd hefyd yn manylu ar y darpariaethau deddfwriaethol yn y maes hwn. Dangosodd ymchwil FERA nad oedd rhai gweithredwyr yn gwybod am y cod, neu nad oeddent yn cydymffurfio ag ef.

Ar ôl i'r gwaith ymchwil hwn gael ei gyhoeddi, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfres o grwpiau trafod gyda rhanddeiliaid. Yn gynnar yn y trafodaethau hyn daeth yn amlwg bod rhanddeiliaid o'r farn bod Cod Ymarfer 2005 yn anfoddhaol gan nad oedd gofynion cyfreithiol ac arferion gorau yn cael eu hegluro'n glir. O ganlyniad, datblygwyd cod newydd i Gymru sy'n rhoi cyngor clir ac ymarferol i'r rheini sy'n defnyddio maglau. Mae'r Cod yn cynghori defnyddwyr maglau sut i gydymffurfio â'r gyfraith o ran offer a dulliau gweithredu a dylai helpu i wella safonau lles anifeiliaid a lleihau achosion o ddal rhywogaethau nas targedir. Cyhoeddwyd 'Cod Llywodraeth Cymru ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid' yn 2015⁷¹.

Ers cyhoeddi Cod Llywodraeth Cymru mae nifer o sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r mater wedi bod wrthi'n hyrwyddo'r Cod ymhlith eu haelodau. Maent wedi cynnal digwyddiadau ymwybyddiaeth a hyfforddiant, gyda'r nod o wella arferion gweithredwyr a gwella safonau lles. Y gobaith yw y bydd y Cod newydd yn helpu i wella arferion gweithredwyr.

Datblygwyd y Cod i wella safonau lles anifeiliaid ac mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i adolygu'r Cod er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r gofyniad hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am dystiolaeth gan yr heddlu, cynrychiolwyr defnyddwyr maglau, grwpiau lles a chymdeithasau milfeddygol a byddem yn croesawu tystiolaeth ychwanegol ar effeithiolrwydd y Cod yng Nghymru.

Mae deddfwriaeth sy'n ymdrin â bywyd gwyllt wedi cael ei hystyried fel rhan o'r dadansoddiad yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio'r gyfraith sy'n ymdrin â bywyd gwyllt⁷². Mae Comisiwn y Gyfraith wedi argymhell y gallai rheoliadau ychwanegol fod o fudd yn y dyfodol mewn perthynas â defnyddio ac arolygu maglau.

Mae'r ffordd yr ydym yn trin ein hanifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o werthoedd ein cymdeithas ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wella safonau lles anifeiliaid yng Nghymru. Dylai maglau barhau i fod ar gael i reolwyr tir fel dull cyfreithlon o ymdrin â rhywogaethau sy'n blâu, a rhaid cael mesurau diogelu cadarn i reoli'r defnydd o faglau. Nid diben maglau yw lladd anifeiliaid ac ni ddylid eu defnyddio'n fwriadol i wneud hynny. Ni ddylid caniatáu i unrhyw anifail gael ei ddal mewn magl sydd wedi'i gosod mewn modd sy'n fwriadol greulon.

⁷⁰ http://randd.defra.gov.uk/Document.aspx?Document=9872_wm0315-humaneness-snares.pdf

⁷¹ <http://gov.wales/docs/desh/publications/150915-code-of-practice-snares-cy.pdf>

⁷² <http://www.lawcom.gov.uk/project/wildlife-law/>

Cynnig 49

Ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n gosod magl i'w harchwilio o leiaf unwaith bob 24 awr. Mae gosod magl hunan-gloi yn anghyfreithlon eisoes, gan ei bod yn ddyfais a gynlluniwyd neu a adeiladwyd yn y fath fodd ag i atal y ddolen a ffurfir gan y fagl rhag llacio'n awtomatig pan fydd y grym a ddefnyddir i dynhau'r ddolen yn cael ei lacio. Y canlyniad yw bod y ddolen yn tynhau'n barhaus ac ni ellir gwrthdroi'r broses hon, heb ymyrraeth gan barti allanol. Mae maglau (dolen weiar sy'n ymlacio pan fydd anifail yn stopio tynnu), yn hytrach na maglau hunan-gloi, yn fodd cyfreithiol o ddal nifer o anifeiliaid. Dylai'r defnydd o faglau dirwyn olygu y gall rhywogaethau nas targedir gael eu rhyddhau'n fyw, sy'n sicrhau bod unrhyw risg gyffredinol i fywyd gwyllt yn cael ei lleihau. Fodd bynnag, mae hynny'n dibynnu ar archwilio maglau o leiaf unwaith y dydd i sicrhau nad yw anifeiliaid sydd wedi'u dal yn dioddef yn ddiangen a bod rhywogaethau nas targedir yn cael eu rhyddhau'n brydlon. Mae archwilio'n ddyddiol yn ofyniad cyfreithiol eisoes sydd wedi'i ddatgan yn glir. Fodd bynnag, mae yna bryder y gallai rhai defnyddwyr maglau osgoi'r cyfrifoldeb hwn drwy beidio ag archwilio maglau o leiaf bob 24 awr. Ar sail "o leiaf unwaith bob dydd" mae'n bosibl y gallai magl gael ei gadael heb ei harchwilio am bron i 48 awr. Credwn y byddai egluro'r term "o leiaf unwaith bob dydd" yn fuddiol.

Cynnig 50

A ddylid cyflwyno gofyniad bod unrhyw anifail a gaiff ei ddal mewn magl – boed yn fyw neu'n farw, yn cael ei dynnu o'r fagl pa fydd yn cael ei harchwilio. Gall anifeiliaid sy'n cael eu gadael heb eu harchwilio mewn maglau farw naill ai o newyn, neu ddiffyg hylif. Mewn achosion o'r fath, mae'n aml yn amhosibl profi nad yw maglau'n cael eu harchwilio bob 24 awr. Ar hyn o bryd nid yw presenoldeb anifail marw mewn magl ynddo'i hun yn profi nad yw'r fagl wedi cael ei harchwilio'n rheolaidd. Mae'n bosibl i'r sawl a gyhuddir honni i'r fagl gael ei harchwilio ond bod yr anifail yn farw bryd hynny a'i fod wedi'i adael yn y fagl.

Cynnig 51

A ddylai'r rheolaethau ar faglu yn adran 11 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fod yn gymwys i unrhyw faglau hunan-gloi ac nid, fel y mae ar hyn o bryd, dim ond i'r rheini sy'n fath o fagl a osodir yn y fath fodd fel mai ei nod yw achosi anaf corfforol i unrhyw anifail gwyllt sy'n dod i gysylltiad â hi.

Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd parhau i'w gwneud yn drosedd i ddefnyddio dyfais sydd wedi ei haddasu yn y fath fodd fel ei bod yn achosi anaf i unrhyw anifail gwyllt. Byddai hyn yn helpu i osgoi sefyllfaoedd lle byddai maglau dirwyn yn cael eu haddasu er mwyn cael eu defnyddio fel maglau hunan-gloi. Byddai hefyd yn cryfhau'r syniad mai dim ond i ddal ac atal anifeiliaid y dylid defnyddio maglau, ac na ddylid eu gosod gyda'r bwriad o achosi anaf.

Cynnig 52

A ddylid gwneud addasiad i'r drosedd yn adran 11(2)(a) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, o osod unrhyw fagl, trap, dyfais drydanol neu wenwyn sy'n debygol o (yn hytrach na gyda'r bwriad o) achosi niwed i anifeiliaid a restrir yn Atodlen 6 o'r Ddeddf. Addasiad o drosedd sydd eisoes yn bodoli er mwyn helpu i atal maglau rhag cael eu camddefnyddio a'u gosod yn amhriodol, megis gosod maglau ar frochfa moch daear.

Cynnig 53

A ddylid ei gwneud yn drosedd i feddu ar fagl hunan-gloi (heb esgus rhesymol).

Er bod deddfwriaeth yn gwahardd defnyddio magl hunan-gloi, nid yw meddu ar ddyfais o'r fath yn waharddedig ar hyn o bryd. O ystyried bod y defnydd o ddyfeisiadau o'r fath yn anghyfreithlon, rydym yn credu ar y cyfan nad oes unrhyw reswm dilys dros feddu ar neu werthu magl hunan-gloi. Fodd bynnag, dan amgylchiadau cyfyngedig ac o dan drwydded, gallai esemptiad ganiatáu meddiant ar gyfer arddangosiadau neu at ddibenion addysgol

Cynnig 54

A ddylid ei gwneud yn drosedd i unrhyw un ddefnyddio neu fod ym meddiant magl ar unrhyw dir heb ganiatâd y perchennog/meddianwyr. Ar hyn o bryd nid yw deddfwriaeth yn ymdrin ag unigolion sy'n gosod maglau ar dir heb gael caniatâd. Mae angen diogelu rheolwyr tir rhag ymyrraeth ddireolaeth o'r fath a'r niwed sy'n gysylltiedig â maglu heb ei reoleiddio a'i awdurdodi.

Cynnig 55

A ddylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i wahardd drwy orchymyn unrhyw fath o fagl (yn ogystal â maglau hunan-gloi, sydd eisoes yn anghyfreithlon) a/neu i bennu gofynion mewn perthynas â defnyddio magl. Byddai Gorchymyn o'r fath yn caniatáu gweithredu i ymdrin â phroblemau penodol sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â maglu. Byddai'n rhoi hyblygrwydd i wahardd maglau na ellir eu diffinio'n hawdd fel maglau hunan-gloi. Gallai roi manylion unrhyw fanyleb ychwanegol yn ymwneud â'r gofynion technegol a ddylai fod yn ofynnol ar gyfer magl, megis dyfais stopio i gyfyngu ar faint y gall y ddolen weiar gau, angor daear heb na all symud, swifl, weiar neu ddyfeisiau torri'n rhydd. Gallai ddarparu ar gyfer gofynion ychwanegol ynghylch sut y dylai magl gael ei defnyddio, megis gofynion yn ymwneud ag archwilio, labelu/tagio, lleoliad, lleoli magl ac unrhyw hyfforddiant sydd ei angen. Pe bai angen hyfforddiant yn sgil Gorchymyn o'r fath, byddai angen i Lywodraeth Cymru gymeradwyo cyrff hyfforddi hefyd i gyflwyno hyfforddiant ar faglau ac i ddynodi gweinyddwr i gadw cofnodion o ddefnyddwyr hyfforddedig. Gallai gorchymyn o'r fath roi'r pŵer i wahardd maglu yn gyfan gwbl hefyd.

Cwestiynau

Cwestiwn 31

Ydych chi'n credu bod 'Cod Llywodraeth Cymru ar yr Arfer Orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid' yn gwella safonau lles anifeiliaid? Oes gennych chi dystiolaeth ar effeithiolrwydd y Cod yng Nghymru?

Cwestiwn 32

Ydych chi'n credu y byddai'n fuddiol cael eglurder ynghylch y term "o leiaf unwaith bob dydd"?

Cwestiwn 33

Ydych chi'n cytuno y byddai gofyniad i symud anifail sydd wedi'i ddal yn cael gwared ar amwysedd mewn perthynas ag archwilio maglau'n rheolaidd?

Cwestiwn 34

A ddylid cyflwyno gofyniad i beidio â meddu ar neu werthu magl hunan-gloi? A fyddai hynny'n arwain at unrhyw anfanteision?

Cwestiwn 35

A ddylid ei gwneud yn drosedd i unrhyw un ddefnyddio neu feddu ar fagl ar unrhyw dir heb ganiatâd y perchennog/deiliaid er mwyn diogelu perchnogion/deiliaid rhag i faglau gael eu gosod ar eu tir heb ganiatâd?

Cwestiwn 36

A ddylid rhoi mwy o bwerau i Weinidogion Cymru wneud Gorchmynion er mwyn rheoleiddio maglau? A fyddai hynny'n ffordd effeithiol a hyblyg o reoli'r defnydd o faglau yn y dyfodol? Ystyriwch a ddylai Gweinidogion Cymru gael pŵer eang, drwy Orchymyn, i bennu gofynion pellach megis archwilio, labelu a phennu y dylai defnyddwyr maglau gael eu hyfforddi.

Pennod 11 – Asesu Cynigion Polisi

Drwy'r ddogfen ymgynghori hon, mae tystiolaeth gychwynnol wedi'i darparu i gefnogi'r ddadl o blaid diwygio. Bydd Llywodraeth Cymru yn casglu rhagor o wybodaeth fanwl am gostau a manteision, a byddwn yn croesawu ac yn ystyried unrhyw dystiolaeth arall sy'n cael ei chyflwyno fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Os penderfynir bod angen diwygio deddfwriaeth, bydd y dystiolaeth yn cael ei datblygu'n Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

Diben y cynigion polisi yw helpu i weithredu'r Rhaglen Lywodraethu, "Symud Cymru Ymlaen", er enghraifft, drwy wireddu potensial ardaloedd penodol (e.e. tirweddau dynodedig), gan gynnwys eu potensial economaidd, drwy helpu i hyrwyddo cymunedau llewyrchus a chyfluoedd twristiaeth ffyniannus. Mae rhai o'r cynigion yn adeiladu ar lwyddiant blaenorol o safbwynt manteisio ar ein hadnoddau naturiol. Er enghraifft, mae lwyddiant Llwybr Arfordir Cymru eisoes wedi dangos sut mae hamdden awyr agored yn gallu helpu i gefnogi'r economi, gwella iechyd a meithrin ymdeimlad o falchder cenedlaethol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Drwy gynnal a gwella ein hadnoddau naturiol, bydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn helpu i gyflawni'r nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Wrth ddiwygio dibenion darnau allweddol o ddeddfwriaeth yn unol â'n cynnig, dylid sicrhau ein bod yn rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd sy'n gwella ein llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac ecolegol yn yr hirdymor.

Mae'r cynigion yn ymwneud â phob un o'r nodau llesiant. Er enghraifft, mae gwella mynediad i gefn gwlad a gwella cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored yn cyfrannu at 'Cymru iachach' oherwydd y manteision iechyd cysylltiedig. Yn yr un modd, mae'r nod o greu 'Cymru â diwylliant bywiog...' yn cael ei gefnogi drwy weithredu cynlluniau dylunio coedwigoedd a diogelu cofebion gwyrdd pwysig a gwerth diwylliannol coed treftadaeth.

Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae ymarferiad sgrinio cychwynnol er mwyn Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau er mwyn penderfynu pa mor berthnasol yw'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon i gydraddoldeb a hawliau dynol. Mae hynny'n cynnwys asesiad o'r effaith ar bobl o bob oedran a hil, a phobl ag anableddau. Rydym yn bwriadu archwilio'r materion hyn ymhellach drwy gynnal digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer amrywiaeth eang o randdeiliaid. Hefyd, rydym yn gobeithio datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn ac ystyrion er mwyn asesu effeithiau gwahanol y cynigion ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

Sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae asesiad sgrinio cychwynnol yn dangos y bydd y cynigion a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori hon yn cefnogi egwyddorion Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (2011). Rydym wedi sgrinio'r cynigion yn unol â phob un o Erthyglau'r Confensiwn er mwyn penderfynu a yw'r cynigion yn torri, yn parchu, neu'n hyrwyddo pob un o'r Erthyglau, ac er mwyn nodi unrhyw gamau gweithredu ychwanegol sydd eu hangen. Dylid darllen yr asesiad

hwn ochr yn ochr â'r ymarferiad sgrinio cychwynnol a gwblhawyd er mwyn Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Cynnig 56

Rydym eisiau sicrhau bod unrhyw bolisi yn y dyfodol yn adlewyrchu anghenion dinasyddion Cymru, felly byddem yn gwerthfawrogi unrhyw safbwyntiau ar unrhyw un o'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon a allai effeithio ar: a) hawliau dynol; b) yr iaith Gymraeg; neu c) y nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys rhyw; oedran; crefydd; hil; cyfeiriadedd rhywiol; trawsrywioldeb; priodas neu Bartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; ac anabled.

Cwestiynau

Cwestiwn 37

A oes gan ymgynghoreion unrhyw sylwadau eraill neu wybodaeth ddefnyddiol yn ymwneud â chostau a manteision unrhyw un o'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hwn?

Cwestiwn 38

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r awgrymiadau polisi yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith y byddent yn ei chael o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellid sicrhau mwy o effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 39

Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y cynigion polisi arfaethedig er mwyn cael effeithiau positif, neu fwy o gyfleoedd positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, o ran peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 40

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gofynnir ichi eu nodi ar y ffurflen ymateb.

Atodiad I – Cwestiynau

Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Hyrwyddo economi gylchol

Cwestiwn 1

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd eraill i integreiddio dulliau economaidd cylchol? Os ydych, nodwch enghreifftiau o unrhyw rwystrau rheoleiddiol a fyddai'n ein hatal rhag integreiddio yn hynny o beth.

Atebion sy'n Seiliedig ar Natur

Cwestiwn 2

A oes unrhyw rwystrau rheoleiddiol sy'n ein hatal rhag cyflwyno atebion sy'n seiliedig ar natur? Nodwch unrhyw wybodaeth berthnasol.

Cefnogi marchnadoedd a dulliau arloesol newydd

Cwestiwn 3

A oes cyfleoedd posibl i gyflwyno mecanweithiau'r farchnad neu ddulliau rheoleiddio arloesol? A oes unrhyw rwystrau deddfwriaethol a fyddai'n ein hatal rhag eu gweithredu?

Coedwigaeth

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gysoni dyletswyddau cyffredinol CNC (gan gynnwys y ddyletswydd cydbwysu) o dan y Ddeddf Coedwigaeth â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno y dylai CNC allu dirprwyo ei gyfrifoldebau dros reoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru i eraill? Nodwch a ydych yn ystyried y dylai fod unrhyw gyfyngiadau ar CNC o ran dirprwyo'r swyddogaethau hyn.

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno y gallai cynllun rheoli coedwigoedd tymor hir sy'n seiliedig ar gytundeb rhwng rheolwr/perchennog coedwig a CNC fod yn ffordd briodol o reoleiddio ac awdurdodi cwmpo unrhyw coed?

Cwestiwn 7

Ydych chi'n cytuno y dylai amodau mewn trwydded cwmpo coed amodol neu gynllun rheoli coedwigoedd tymor hir gyd-fynd â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Cwestiwn 8

Ydych chi'n cytuno y dylai CNC allu dirymu neu ddiwygio trwyddedau cwmpo coed neu gymeradwyaethau cynlluniau rheoli coedwigoedd? Nodwch os ydych yn rhagweld unrhyw anawsterau y gallai diwygio neu ddirymu eu hachosi.

Cwestiwn 9

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig sy'n ymwneud â diddymu'r gofyniad i sefydlu Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol?

Cwestiwn 10

Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i warchod coed hynafol a threftadaeth gwerthfawr yn well drwy fireinio'r fframweithiau statudol presennol, yn bennaf y drefn gorchmynion cadw coed.

Tirweddau Dynodedig

Cwestiwn 11

A ddylid sicrhau bod dibenion statudol AHNE a Pharciau Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Cwestiwn 12

Pan fo nodweddion arbennig pob ardal ddynodedig yn cael eu nodi, a ddylid rhoi mwy o bwys iddynt wrth wneud penderfyniadau? Wrth ystyried hyn, sut y dylid gwneud hynny er mwyn mynd ati yn y ffordd fwyaf effeithiol i ychwanegu gwerth at y modd y mae'r ardaloedd hynny'n cael eu llywodraethu a'r cysylltiad â chymunedau a busnesau lleol?

Cwestiwn 13

A ddylid cyflwyno deddfwriaeth i gydnabod amrywiaeth ehangach o ardaloedd a phartneriaethau sy'n gysylltiedig â llywio'r broses o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy? Pa ddulliau y dylid eu hystyried?

Cwestiwn 14

Oes unrhyw agweddau eraill ar adroddiad Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru lle'r ydych yn credu bod angen darpariaeth deddfwriaethol?⁷³ Os oes, eglurwch pa agweddau a pham.

Mynediad i'r Awyr Agored

Cwestiwn 15

A fydd y cynigion hyn yn sicrhau cysondeb o ran y cyfleoedd sydd ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol ac a fyddant yn darparu mesurau diogelu effeithiol ar gyfer rheoli tir a'r amgylchedd naturiol?

Cwestiwn 16

A fydd y cynigion hyn yn darparu system fwy integredig a chyfoes ar gyfer nodi, dynodi a chofnodi ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd?

Cwestiwn 17

A fydd y cynigion hyn yn rhoi eglurhad sylweddol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd, rheolwyr tir ac eraill yn glir ynghylch eu hawliau, eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau mewn perthynas â mynediad i'r awyr agored?

Y Môr a Physgodfeydd

⁷³ <http://gov.wales/docs/desh/publications/170508-future-landscapes-delivering-for-wales-cy.pdf>

Y Môr

Cwestiwn 18

Ydych chi'n cefnogi'r angen am bwerau newydd i bennu rhanbarthau cynllun morol Cymru ac i baratoi cynlluniau morol ar gyfer y rhanbarthau hynny?

Cwestiwn 19

Os nad ydych yn cefnogi cynlluniau morol rhanbarthol, nodwch sut rydych yn awgrymu y dylid mynd i'r afael â materion lleol o fewn y fframwaith cyfredol a beth fyddai effaith benodol y cynigion ar eich buddiannau chi?

Pysgodfeydd

Cwestiwn 20

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i reoli pysgodfeydd mewn ffordd hyblyg? A allwch roi enghraifft lle byddai rheolaeth hyblyg yn fantais i'ch busnes?

Cwestiwn 21

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno trefn drwyddedu sy'n addas i'r diben yng Nghymru ar gyfer trwyddedu dyframaethu? A oes swyddogaethau eraill a ddylai ddod o dan y drwydded, yn eich barn chi?

Cwestiwn 22

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ehangu cwmplas y Gofrestr Prynwyr a Gwerthwyr. Beth fydd effaith y cynigion ar eich busnes?

Dŵr

Diwygio Codi Dŵr

Cwestiwn 23

Ydych chi'n cytuno â'r dull rydym yn ei gynnig, sef diwygio codi dŵr ar sail Cymru yn unig?

Diwygiadau Draenio

Cwestiwn 24

Ydych chi'n cytuno â chynigion Llywodraeth Cymru?

A fyddai unrhyw un o'r cynigion newydd yn cael effaith/anghysondeb newydd neu annisgwyl?

Cwestiwn 25

Ydych chi'n credu y gallai unrhyw gynigion ychwanegol eraill wella'r sefyllfa ddeddfwriaethol / rheoleiddiol yn y tymor byr?

A oes angen unrhyw ddiwygiadau posibl eraill yng Nghymru, y bydd angen eu gweithredu yn fwy hirdymor o bosibl?

Gwastraff ac Ansawdd yr Amgylchedd Lleol

Gwastraff - Pwerau Mynediad

Cwestiwn 26

Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel ei bod yn:

- cael gwared ar yr angen i roi 7 diwrnod o rybudd i'r person sy'n meddiannu'r eiddo;
- cadw'r angen am warant;
- ehangu'r disgrifiad o'r wybodaeth y gellir ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei darparu;
- darparu'r gallu i symud deunydd o'r eiddo (a'i gadw) i'w archwilio, gan gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i storio'n electronig?

Gwastraff - Sancsiynau o dan Adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (DDA)

Cwestiwn 27

Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 fel ei bod yn cynnwys y dewis i Awdurdodau Lleol gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig am beidio â chydymffurfio â hysbysiadau yn hytrach na gorfod erlyn drwy'r llysoedd?

Yr Amgylchedd – Taflu sbwriel o gerbydau

Cwestiwn 28

Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno pwerau yng Nghymru a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol allu rhoi cosb ariannol i geidwad cofrestredig cerbyd os yw sbwriel wedi cael ei daflu o'r cerbyd hwnnw, ni waeth a yw'n hysbys ai peidio pwy yw'r unigolyn a gyflawnodd y drosedd taflu sbwriel ?

A oes newidiadau deddfwriaethol amgen y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried i helpu i fynd i'r afael â thaflu sbwriel o gerbydau?

Rheoleiddio Mwy Craff – Rôl Mesurau Sylfaenol

Cwestiwn 29

A ddylid cyflwyno mesurau sylfaenol fel ffordd o reoleiddio gweithgareddau risg isel? Ystyriwch pa fath o weithgareddau fyddai'n elwa ar gael eu rheoleiddio drwy fesurau sylfaenol.

Amaethyddiaeth

Cwestiwn 30

A ddylid estyn awdurdodaeth Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru?

Bywyd Gwyllt

Cwestiwn 31

Ydych chi'n credu bod 'Cod Llywodraeth Cymru ar yr Arfer Orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid' yn gwella safonau lles anifeiliaid? Oes gennych chi dystiolaeth ar effeithiolrwydd y Cod yng Nghymru?

Cwestiwn 32

Ydych chi'n credu y byddai'n fuddiol cael eglurder ynghylch y term "o leiaf unwaith bob dydd"?

Cwestiwn 33

Ydych chi'n cytuno y byddai gofyniad i symud anifail sydd wedi'i ddal yn cael gwared ar amwysedd mewn perthynas ag archwilio maglau'n rheolaidd?

Cwestiwn 34

A ddylid cyflwyno gofyniad i beidio â meddu ar neu werthu magl hunan-gloi? A fyddai hynny'n arwain at unrhyw anfanteision?

Cwestiwn 35

A ddylid ei gwneud yn drosedd i unrhyw un ddefnyddio neu feddu ar fagl ar unrhyw dir heb ganiatâd y perchennog/deiliaid er mwyn diogelu perchnogion/deiliaid rhag i faglau gael eu gosod ar eu tir heb ganiatâd?

Cwestiwn 36

A ddylid rhoi mwy o bwerau i Weinidogion Cymru wneud Gorchmynion er mwyn rheoleiddio maglau? A fyddai hynny'n ffordd effeithiol a hyblyg o reoli'r defnydd o faglau yn y dyfodol? Ystyriwch a ddylai Gweinidogion Cymru gael pŵer eang, drwy Orchymyn, i bennu gofynion pellach megis archwilio, labelu a phennu y dylai defnyddwyr maglau gael eu hyfforddi.

Asesu Cynigion Polisi

Cwestiwn 37

A oes gan ymgynghoreion unrhyw sylwadau eraill neu wybodaeth ddefnyddiol yn ymwneud â chostau a manteision unrhyw un o'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hwn?

Cwestiwn 38

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r awgrymiadau polisi yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith y byddent yn ei chael o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellid sicrhau mwy o effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 39

Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y cynigion polisi arfaethedig er mwyn cael effeithiau positif, neu fwy o gyfleoedd positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, o ran peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 40

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gofynnir ichi eu nodi ar y ffurflen ymateb.

Atodiad 2 - Geirfa

Tynnu – Tynnu dŵr o ffynhonnell arwyneb neu ddŵr daear
Dyframaethu – magu anifeiliaid dyfrol neu amaethu planhigion dyfrol ar gyfer bwyd
Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol – ardal o gefn gwlad a ddynodwyd gan un o asiantaethau'r llywodraeth yn un sydd â nodweddion naturiol o harddwch eithriadol ac felly sydd â statws gwarchodedig
Manteision – dyma'r amryfal wasanaethau a ddarperir gan ecosystemau, sef: Gwasanaethau cynnal, er enghraifft, ailgylchu maethynnau, cynhyrchu ocsigen a ffurfio pridd. Mae angen y gwasanaethau hyn i gynhyrchu'r holl wasanaethau eraill. Gwasanaethau darparu, er enghraifft, bwyd, ffeibr, tanwydd a dŵr. Dyma'r cynhyrchion sy'n dod o ecosystemau. Gwasanaethau rheoleiddio, er enghraifft, rheoleiddio'r hinsawdd, puro dŵr ac amddiffyn yn erbyn llifogydd. Dyma'r manteision sy'n deillio o reoleiddio prosesau ecosystemau. Gwasanaethau diwylliannol, er enghraifft, addysg, hamdden a manteision esthetig. Dyma'r manteision diwylliannol y mae pobl yn eu cael o ecosystemau.
Economi Gylchol – economi sy'n fwriadol adferol ac atgynhyrchiol ac sy'n ceisio sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o gynhyrchion, cyfansoddion a deunyddiau gan sicrhau'r gwerth gorau bob amser.
Datgarboneiddio – Lleihau neu gael gwared ar garbon deuocsid o ffynonellau ynni.
Tirweddau Dynodedig – tirweddau sy'n bwysig i'r genedl ac sydd wedi'u dynodi'n Barciau Cenedlaethol neu'n Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.
Llygredd Gwasgaredig – gollwng llygryddion posibl o ystod o weithgareddau nad ydynt, ar eu pen eu hunain, yn cael effaith ar gryfder ein hecosystemau neu'n hadnoddau naturiol, ond sydd, gyda'i gilydd, yn gallu cael effaith sylweddol.
Draeniad – Casgliad o bibelli, sianelau a gwaith peirianyddol arall sy'n cludo dŵr storm i ffwrdd o'r amgylchedd adeiledig.
Ecosystem – Mae ecosystem yn cynnwys organeddau byw (planhigion, anifeiliaid a micro-organeddau) ynghyd â'u hamgylchedd anfw (aer, dŵr, mwynau a phridd) a'r holl ryngweithio amrywiol a chymhleth sy'n digwydd rhyngddynt.
Rheoli ar Lefel yr Ecosystem neu Ddull yr Ecosystem – mae'n ceisio cynnal cyfanrwydd a swyddogaeth ecosystemau cyfan er mwyn osgoi newid ecolegol annymunol cyflym. Mae'r dull yn cydnabod bod bodau dynol yn rhan annatod o ecosystemau a bod ecosystemau yn yr un modd yn darparu ystod o wasanaethau sy'n ategu lles dynol a'r gymdeithas ehangach⁷⁴. Mae rheoli ar lefel yr ecosystem yn ddull a gafodd ei grybwyll yn gyntaf yn y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol sy'n rhoi'r diffiniad canlynol ohono: "a strategy for the integrated management of land, water and living resources that promotes conservation and sustainable use in an equitable way"⁷⁵.
Cryfder Ecosystemau – Mewn cysylltiad ag ecosystemau – gallu'r ecosystem i wrthsefyll effeithiau sy'n aflonyddu arni, neu ymadfer ar eu hôl a'i gallu i barhau ac addasu gan gynnal ei hamrywiaeth fiolegol, ei phrosesau naturiol a sicrhau bod ei gwasanaethau ecosystemau yn cael eu cynnal. Yn Neddf Amgylchedd (Cymru), mae'r nodweddion canlynol yn adlewyrchu cryfder: • amrywiaeth o'r naill ecosystem i'r llall ac o fewn ecosystemau • y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac o'u mewn • graddfa ecosystemau

⁷⁴ <http://www.cbd.int/ecosystem>

⁷⁵ <http://www.cbd.int/ecosystem>

• cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u swyddogaeth) • gallu ecosystemau i addasu⁷⁶
Hysbysiad Cosb Benodedig – Cosb ariannol a ddefnyddir ar gyfer mân droseddau
Atebion sy'n Seiliedig ar Natur – camau i warchod, rheoli'n gynaliadwy, ac adfer ecosystemau naturiol neu rai a addaswyd, sy'n mynd i'r afael â heriau cymdeithas yn effeithiol ac yn addasadwy gan ddarparu manteision dynol a bioamrywiaeth ar yr un pryd.
Adnoddau Naturiol – (a) Anifeiliaid, planhigion ac organeddau eraill, (b) Aer, dŵr a phridd, (c) Mwynau, (d) Prosesau a nodweddion daearegol, (e) Nodweddion ffisiograffegol, (f) Prosesau a nodweddion hinsoddol⁷⁷ Mae'r rhestr yn adlewyrchu cyfansoddion byw (biotig) ac anfyw (abiotig) ein hamgylchedd naturiol ac mae felly'n dangos yr adnoddau fel cyfansoddion unigol sy'n rhan o'n hadnoddau naturiol.
Tâl am Wasanaethau Ecosystem – trefniant gwirfoddol lle mae gwasanaeth ecosystem sydd wedi'i ddiffinio'n glir yn cael ei brynu gan ddefnyddiwr gwasanaeth ecosystem oddi wrth ddarparwr gwasanaeth ecosystem at ddibenion sicrhau gwasanaeth ecosystem.
Hysbysiad Tâl Cosb – cosb am dorri rheoliadau. Gellir ei dalu, ei herio trwy apêl, neu ei herio trwy amddiffyn hawliad am daliad trwy drac hawliadau bychain y llys sirol.
Carthffos Breifat – Carthffos nad yr ymgwymerwr carthffosiaeth sy'n gyfrifol amdani. Yn gyffredinol, mae'r garthffos yn cael ei chynnal a'i chadw ar y cyd gan berchennog (perchenogion) yr adeilad(au) y mae'r garthffos yn ei (eu) gwasanaethu ac mae'n eiddo iddynt ar y cyd.
Carthffos Gyhoeddus – Carthffos y mae'r ymgwymerwr carthffosiaeth yn gyfrifol amdani.
Gwastraff Gweddillol – y gwastraff sy'n weddill ar ôl ailgylchu neu gompostio deunydd sydd wedi'i dynnu o'r llif gwastraff.
Coedwigoedd lled-naturiol – ar hyn o bryd yn cynnwys yn bennaf goed a phrysgwydd sy'n gynhenid i'r safle ac nad yw'n amlwg iddynt gael eu plannu yno. Felly, mae'n ymddangos eu bod wedi codi'n bennaf yn sgil atgynhyrchiad naturiol neu yn sgil bondocio/tocio coed unigol sydd wedi atgynhyrchu'n naturiol.
Tanc Carthion – Strwythur ar gyfer casglu a rhoi triniaeth rannol i garthion.
Carthion – Dŵr gwastraff a/neu ddŵr wyneb a gludir gan ddraen neu garthffos.
Ymgwymerwr Carthffosiaeth – Sefydliad sydd â'r ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwasanaethau carthffosiaeth mewn ardal.
Carthffos – Pibell neu sianel sy'n cludo dŵr gwastraff neu ddŵr draenio ac sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo.
System Garthffosiaeth – Rhwydwaith o bibellau a gweithfeydd cysylltiedig sy'n cludo dŵr gwastraff a/neu ddŵr wyneb o ddraeniau i weithfeydd trin neu i le gwaredu arall
Datblygu Cynaliadwy – caiff ei ddiffinio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fel y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy ...gyda'r nod o gyflawni'r amcanion llesiant ⁷⁸
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yw gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain ⁷⁹
Draenio Cynaliadwy – Defnyddio technegau draenio yr ystyrir eu bod yn fanteisiol i'r amgylchedd, sy'n achosi cyn lleied o effaith andwyol â phosibl neu nad ydynt yn achosi unrhyw niwed hirdymor.
Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy – fe'i diffinnir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru)

⁷⁶ Adran 4(i) o Ddeddf yr Amgylchedd 2016

⁷⁷ Adran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd 2016

⁷⁸ Adran 3 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

⁷⁹ Adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016

fel defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd, neu gymryd camau eraill sy'n hyrwyddo, neu beidio â chymryd camau sy'n llesteirio, cyflawni'r amcan o gynnal a gwella cryfder ecosystemau a'r manteision a ddaw yn eu sgil ac wrth wneud hynny, diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy a chyfrannu at saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir – terfynau dalfa (a fynegir fel tunelli neu niferoedd) sy'n cael eu gosod ar gyfer y rhan fwyaf o stociau pysgod masnachol.

Llesiant yw llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac economaidd fel y'i nodir yn y 7 nod a ddarperir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Dyma nhw:

- Cymru lewyrchus,
- Cymru gydnerth,
- Cymru iachach,
- Cymru sy'n fwy cyfartal,
- Cymru o gymunedau cydlynus,
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu,
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang

WARAP - Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau

ATODIAD III – Rheoli Adnoddau Naturol yn Gynaliadwy

Rheoli Adnoddau Naturol yn Gynaliadwy

Cyflwynodd Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yr egwyddor o reoli adnoddau naturol yn gynaliadwy er mwyn sicrhau bod adnoddau naturol Cymru yn cael eu rheoli mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig.

Amcan rheoli cynaliadwy yw sicrhau nad yw ein dulliau o reoli ein hadnoddau naturol, faint ohonynt rydym yn eu defnyddio, na'r manteision lluosog sy'n deillio ohonynt, yn arwain at ddirywiad hirdymor yr adnoddau hyn a'r ecosystemau cysylltiedig.

Mae'n rhaid inni ddefnyddio adnoddau naturol yn unol â'u capasiti naturol a'u hyfywedd hirdymor, a thrwy newid i reoli ein hadnoddau naturol mewn ffordd gynaliadwy, byddwn yn datblygu cryfder ein hecosystemau.

Diben rheoli adnoddau naturol yn gynaliadwy yw:

- Adlewyrchu cyfraniad ein hadnoddau naturol at gyflawni pob un o nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Cynnal a gwella cyflwr ein hecosystemau a phwysleisio rôl manteision (neu wasanaethau) ecosystemau yn y broses o wneud penderfyniadau;
- Sicrhau bod ein hadnoddau naturol yn cael eu rheoli a'u defnyddio mewn ffordd nad yw'n lleihau gallu'r adnoddau hynny neu allu ecosystemau i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lluosog yn yr hirdymor;
- Sicrhau bod effaith gweithgareddau ar ein hadnoddau naturol a'n hecosystemau yn cael ei hystyried o safbwynt eu heffaith ar gryfder ein hecosystemau a'u gallu i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol;
- Sicrhau bod modd ystyried a gwerthfawrogi amrywiaeth eang o fanteision ecosystemau perthnasol yn y broses o wneud penderfyniadau a'r broses o weithredu. Mae hyn yn cynnwys pa mor bwysig yw ein hadnoddau naturol inni yn eu rhinwedd eu hunain;
- Lleihau'r effeithiau negyddol sy'n deillio o ddefnyddio adnoddau naturol.

Erbyn hyn, rheoli adnoddau naturol yn gynaliadwy yw diben cyffredinol CNC, ac mae'n rhaid iddo weithredu yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturol yn gynaliadwy wrth gyflawni ei holl swyddogaethau.

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru lunio polisi adnoddau naturol i helpu i reoli adnoddau naturol yn gynaliadwy, a rhaid iddynt weithredu yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturol yn gynaliadwy wrth baratoi a gweithredu'r polisi.

Manteision/Gwasanaethau Ecosystemau

At ddibenion y Ddeddf, dyma yw manteision ecosystemau:

- Gwasanaethau cynnal, gan gynnwys ailgylchu maethynnau, cynhyrchu ocsigen a ffurfio pridd. Mae angen y gwasanaethau hyn i gynhyrchu'r holl wasanaethau eraill.
- Gwasanaethau darparu, gan gynnwys bwyd, ffeibr, tanwydd a dŵr. Dyma'r cynhyrchion sy'n dod o ecosystemau.

- Gwasanaethau rheoleiddio, gan gynnwys rheoleiddio'r hinsawdd, puro dŵr ac amddiffyn yn erbyn llifogydd. Dyma'r manteision sy'n deillio o reoleiddio prosesau ecosystemau.
- Gwasanaethau diwylliannol, gan gynnwys addysg, hamdden a manteision esthetig. Dyma'r manteision diwylliannol ar gyfer pobl sy'n deillio o ecosystemau.

Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Mae'r egwyddorion canlynol yn ymgorffori dulliau gweithredu ecosystemau fel y'u mabwysiadwyd gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol.

- Rheolaeth ymaddasol o'n hadnoddau naturiol drwy nodi, cynllunio, monitro, adolygu a, lle bo hynny'n briodol, newid camau gweithredu;
- Graddfa – ystyried y raddfa briodol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion penodol (gwneud penderfyniadau, darparu a gorfodi);
- Cydweithio ac Ymgysylltu:
 - i. Hyrwyddo cydweithio a chydweithredu a mynd ati i wneud hynny;
 - ii. Gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod y cyhoedd yn cael cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau;
 - iii. Ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth os oes unrhyw ansicrwydd;
- Manteision – ystyried manteision a phwysigrwydd cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau;
- Hirdymor – ystyried canlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor camau gweithredu;
- Ataliol – gweithredu i atal difrod sylweddol i ecosystemau;
- Cydnerthedd – ystyried cydnerthedd ecosystemau, gan ganolbwyntio ar yr agweddau canlynol:
 - i. Amrywiaeth o'r naill ecosystem i'r llall ac o fewn ecosystemau
 - ii. Y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac o'u mewn;
 - iii. Graddfa ecosystemau;
 - iv. Cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u swyddogaethau);
 - v. Gallu ecosystemau i addasu.

Mae'r egwyddorion uchod yn rhai cydgysylltiedig fel y bo modd gweithredu mewn ffordd integredig. Er enghraifft, er mwyn rheoli mewn ffordd sy'n sicrhau manteision lluosog, bydd angen casglu tystiolaeth yn ymwneud â chyflwr ecosystemau a'u gallu i sicrhau buddiannau yn y tymor byr a'r hirdymor. Bydd angen ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartïon eraill â buddiant er mwyn asesu gwerth yr egwyddorion, a chyn rhoi unrhyw gamau ar waith i reoli'r manteision hyn, bydd angen ystyried yr effeithiau ar gydnerthedd yr ecosystem. Bydd angen monitro'r camau gweithredu hyn wedyn i asesu'r effeithiau mwy hirdymor.

Er mwyn asesu eu gwerth, bydd angen ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartïon eraill â buddiant a dylid ystyried yr effaith ar gydnerthedd yr ecosystem wrth gymryd unrhyw gamau i reoli manteision lluosog. Dylai'r camau hyn wedyn gael eu monitro i asesu'r effaith hirdymor.

Atodiad IV – Materion sy'n destun cymrodeddu o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995

Deddf	Darpariaeth Ddeddfwriaethol	Mater
DDA 1986	Adran 2	Cais gan bartion i gytundeb sy'n gosod tir amaethyddol am gyfnod llai nag o flwyddyn i flwyddyn
DDA 1986	Adran 6	Hawl i bartion wneud cais am gytundeb tenantiaeth ysgrifenedig
DDA 1986	Adran 7	Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu telerau ynghylch cynnal a chadw, atgyweirio ac yswirio offer sefydlog ("y cymalau enghreifftiol"). Gall unrhyw faterion sy'n codi o dan reoliadau o'r fath gael eu penderfynu drwy gymrodeddu neu benderfyniad gan drydydd parti
DDA 1986	Adran 8	Cymrodeddu neu benderfyniad gan drydydd parti lle mae telerau cytundeb ysgrifenedig yn anghyson â chymalau enghreifftiol
DDA 1986	Adran 9	Cais gan landlord am iawndal lle mae atebolrwydd o ran cynnal a chadw neu atgyweirio offer sefydlog yn cael ei drosglwyddo oddi wrth y tenant
DDA 1986	Adran 10	Cais gan bartion i ddatrys unrhyw anghydfod am y swm sy'n daladwy gan landlord sy'n dewis prynu offer neu adeilad
DDA 1986	Adran 12	Cymrodeddu neu benderfyniad gan drydydd parti ynghylch rhent sy'n daladwy ar ddaliad amaethyddol
DDA 1986	Adran 13	Cymrodeddu neu benderfyniad gan drydydd parti ynghylch cynnydd mewn rhent ar gyfer gwelliannau gan landlord
DDA 1986	Adran 14	Amrywio telerau tenantiaeth ynghylch tir pori parhaol
DDA 1986	Adran 15	Cais gan landlord i benderfynu a yw gwaredu cynnyrch a chnydio gan denant yn niweidio daliad neu'n peri iddo ddirywio
DDA 1986	Adran 20	Cais gan denant am iawndal am ddifrod gan anifeiliaid hela
DDA 1986	Adran 33	Gostyngiad mewn rhent pan roddir hysbysiad i'r tenant i roi'r gorau i ran o'r daliad
DDA 1986	Adran 48	Telerau tenantiaeth newydd
DDA 1986	Adran 80(7)	Setliad ynghylch rhent sy'n daladwy gan denant yn sgil rhannu daliad fel bod un rhan yn ardd farchnad
DDA 1986	Adran 83	Setlo hawliadau wrth derfynu tenantiaeth
Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995	Adran 28	Darparu y bydd unrhyw anghydfod rhwng y landlord a'r tenant o dan denantiaeth busnes fferm yn cael ei benderfynu drwy gymrodeddu.

